Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol

Gorffennaf 2021

CP 495

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2021

CP 495

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2021**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn mlpaconsultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-2801-3

CCS0221966740 07/21

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y cyhoedd a'r rheini a fu'n gysylltiedig â chreu a/neu ddefnyddio atwrneiaethau arhosol. Byddwn hefyd yn croesawu barn gweithwyr proffesiynol yn y sectorau gwasanaethau cymdeithasol, cyfreithiol, iechyd, elusennau ac awdurdodau lleol. |
| **Hyd:** | O 20 Gorffennaf 2021 hyd 13 Hydref 2021 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Vulnerability Policy Unit<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mlpaconsultation@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 13 Hydref 2021 at:<br><br>Vulnerability Policy Unit<br>Post Point 7.25<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mlpaconsultation@justice.gov.uk |
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022 yn:<br><br>https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys

**Rhagair** **3**

**Crynodeb gweithredol** **5**

**Cyflwyniad** **9**

**Y cynigion** **10**

Cefndir 10

Cynnig 1: Rôl tystio 17

Cynnig 2: Rôl ceisio 25

Cynnig 3: Cylch gwaith Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus 32

Cynnig 4: Sut mae gwrthwynebu 38

Cynnig 5: Pa bryd i wrthwynebu 44

Cynnig 6: Cyflymder y gwasanaeth 50

Cynnig 7: Mynediad i’r gwasanaeth gan gyfreithwyr 55

Cwestiynau ychwanegol 62

Cydraddoldeb 63

**Holiadur** **64**

**Gwybodaeth amdanoch chi** **70**

**Manylion cysylltu/Sut i ymateb** **71**

**Egwyddorion ymgynghori** **73**

**Atodiad A: Datganiad am Gydraddoldebau** **74**

**Atodiad B: Rhestr o Dermau** **80**

# Rhagair

Mae rhai pethau y byddwn yn eu cymryd yn ganiataol nes i ni eu colli – ein gallu i benderfynu, ein gallu i gyfleu ein meddwl, ein gallu i ddewis. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhoi cyfle i bobl benodi rhywun y maent yn ymddiried ynddo i wneud penderfyniadau ar eu rhan, os byddant yn colli'r galluoedd hynny, boed drwy ddamwain, salwch neu afiechyd.

Cyflwynwyd yr atwrneiaeth arhosol (AA) yn 2007. Roedd wedi'i bwriadu i ddarparu mwy o hyblygrwydd ac amddiffyniadau cryfach na'i rhagflaenydd ym 1985, yr atwrneiaeth barhaus (AB). Fodd bynnag, roedd hefyd yn cadw nifer o'r nodweddion ac amddiffyniadau yn yr AB sy'n seiliedig ar brosesau papur. Yn ei hanfod, mae'r AA yn 36 blwydd oed.

Ond mae AA yn fwy na dim ond darn o bapur. Mae'n gytundeb cyfreithiol sy'n caniatáu i berson amlinellu ei ddymuniadau a'i ddewisiadau a bod yn dawel ei feddwl y bydd y rhain yn cael eu dilyn. Rwyf yn credu y dylai pawb mewn cymdeithas gael budd o'r gallu i sicrhau, os bydd angen, fod modd gofalu am eu heiddo, eu buddiannau ariannol, eu hiechyd a'u lles gan rywun y maent yn ymddiried ynddo.

Mae'r amddiffyniadau sy'n bod yn yr AA wedi'u seilio ar ddegawdau, os nad canrifoedd, o draddodiad a chyfraith achosion. Maent yn seiliedig ar gonfensiynau cymdeithasol hysbys a dibynadwy sydd wedi'u seilio ar brosesau papur fel llofnodi a thystio.

Fodd bynnag, mae'r byd yn newid ac mae'r dymuniad am gael mynediad at wasanaethau drwy sianeli digidol yn cynyddu. Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflymu'r galw am hyn ac wedi trawsnewid y ffordd y mae nifer mawr o bobl yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae sianeli digidol yn cynnig nifer o gyfleoedd i wella mynediad at y gwasanaeth a'i gyflymder, ond maent hefyd yn gofyn i ni feddwl o'r newydd am y mesurau diogelu rydym yn eu cynnwys mewn systemau o'r fath. Nid yw'r hen arferion papur yn briodol i'r byd digidol newydd. Rhaid pennu ffyrdd newydd i sicrhau'r un lefelau o ddiogelwch, neu rai gwell, cyn i ni symud yn ein blaen. Ar yr un pryd, rhaid i ni gwrdd ag anghenion y rheini sydd heb allu neu ddymuniad i ddefnyddio sianeli digidol.

Er mwyn creu gwasanaeth AA modern, bydd angen gwneud newidiadau yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r is-ddeddfwriaeth ar ei chyfer. Rwyf wedi cychwyn yr ymgynghoriad hwn am ein bod am gael eich barn chi am y newidiadau posibl yn y fframwaith cyfreithiol ar gyfer atwrneiaethau arhosol. Bydd mewnbwn gennych chi'n helpu i osod sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer creu gwasanaeth AA y dyfodol.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau ar draws y sectorau elusennol, cyfreithiol, gofal cymdeithasol a chyllid yn ogystal â grwpiau sy'n cynrychioli'r

rheini sydd ag anableddau a buddiannau lleiafrifoedd ethnig. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniadau hyd yn hyn. Mae'r mewnbwn a gawsom ganddynt, ynghyd â'n hymchwil ymysg y cyhoedd, wedi ein helpu i lunio'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ffurfiol, bydd fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu drwy weithdai ac ymchwil ymhlith defnyddwyr. Mae'n bwysig i ni gasglu tystiolaeth oddi wrth amrywiaeth o bobl a sefydliadau, a chlywed am eu profiadau, a gofynnaf i chi gysylltu os gallwch helpu. Mae manylion cyswllt ar ddechrau'r ddogfen hon.

Drwy ymgynghori ar bolisi ac ymchwilio ymhlith defnyddwyr, gallwn adeiladu gwasanaeth AA ar gyfer y dyfodol sy'n cadw ymddiriedaeth defnyddwyr, yn eu diogelu ac yn cwrdd â'u hanghenion, ac sy'n addas i'w ddiben.

Er hynny, rhaid i mi fod yn glir, er y byddwn yn ceisio cwrdd ag anghenion pawb, fod un parti a fydd yn cael blaenoriaeth bob amser. Crëwyd yr AA i rymuso a diogelu'r unigolyn a all golli galluedd a'r unigolyn hwnnw fydd yn brif ystyriaeth i ni. Mae ei anghenion yn hollbwysig a rhaid iddynt gael eu hystyried o flaen anghenion unrhyw barti arall.



Alex Chalk AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol

# Crynodeb gweithredol

1. Mae atwrneiaeth arhosol (AA) yn offeryn cyfreithiol sy'n helpu pobl i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae'n gadael i rywun (y 'rhoddwr') ddewis pobl y mae'n ymddiried ynddynt ('atwrneiod') i'w gynorthwyo a gwneud penderfyniadau drosto os bydd yn colli'r galluedd meddyliol i wneud ei benderfyniadau ei hun yn y dyfodol. Er enghraifft, o ganlyniad i salwch fel dementia neu ddamwain.

2. Cyflwynwyd yr AA gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (DGM), i gymryd lle'r Atwrneiaeth Barhaus. Roedd yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng yr angen i ddiogelu'r rhoddwr yn well a'r angen iddi fod yn hawdd gwneud AA.

3. Roedd DGM hefyd yn creu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC), asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae OPG yn gyfrifol am y canlynol:
   - gofrestru AAau (rhaid cofrestru AA cyn gallu ei defnyddio)
   - cymryd camau lle mae pryderon am atwrnai

4. Mae nifer yr AAau wedi cynyddu'n sylweddol ers eu cyflwyno. Yn 2014/15, roedd ychydig mwy na 390,000 o AAau wedi'u hanfon i SGC i'w cofrestru. Erbyn 2019/20, roedd y nifer hwn wedi cynyddu mwy na dwywaith i ychydig llai na 920,000.

5. Mae'r camau i'w cymryd i wneud a chofrestru AA wedi'u hamlinellu yn DGM. Gan fod AA yn weithred, rhaid iddi hefyd gwrdd â gofynion Deddf Cyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol) 1989.

6. Llenwir yr AA ar bapur, mewn ffeil PDF, neu drwy ddefnyddio offeryn ar-lein SGC, sydd wedyn yn creu ffeil PDF. Ar ôl ei llenwi, rhaid argraffu'r ffeil PDF fel y gellir ei llofnodi a thystio i'r llofnodion ar bapur. Wedyn bydd y rhoddwr neu atwrnai'n gwneud cais i SGC am gofrestru'r AA. Bydd yn talu ffi cais ac yn postio'r AA i SGC.

## Yr achos o blaid newid

7. Yn y 14 blynedd ers cyflwyno AAau, mae technoleg wedi datblygu ac mae ar gael yn fwy eang. Mae disgwyliad cynyddol y bydd pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau llywodraeth ar-lein. Mae nifer mawr o roddwyr ac atwrneiod wedi dweud wrthym fod yr AA bapur yn anhwylus, yn fiwrocrataidd ac yn gymhleth.

8. Yn 2019/20, cafodd SGC 19 miliwn o ddalennau o bapur ar ffurf AAau copi caled a phostiodd nifer tebyg o ddalennau. Mae delio â niferoedd mawr o ddalennau papur yn gostus ac aneffeithlon ac mae'n creu angen cynyddol am staff, cyfarpar a chyfleusterau storio.

9. Mae holl gostau gweithredu SGC yn cael eu hariannu gan yr incwm o'r ffioedd y mae'n eu codi. Os na wneir gwasanaeth SGC yn fwy effeithlon, bydd ffioedd yn gorfod cynyddu neu bydd y dull o ariannu SGC yn dod yn anghynaliadwy yn y tymor hwy.

10. Pan gyflwynwyd yr AA yn 2007, roedd y mesurau diogelu a gymerwyd yn rhai priodol ar y pryd, ond mae technoleg a chymdeithas wedi symud ymlaen. Bellach mae technoleg yn cynnig ffyrdd newydd i SGC ddiogelu ei defnyddwyr drwy ddilysu hunaniaeth a gwybodaeth. Mae agweddau cymdeithas at dwyll a cham-drin, a'r mesurau diogelu disgwyliedig yn eu herbyn, wedi newid hefyd.

11. Mae angen ymateb i'r heriau hyn ac ystyried sut mae technoleg yn gallu ei gwneud yn haws i bobl wneud AA a'i chofrestru. Rhaid rhoi pob ystyriaeth hefyd i bryderon am ddiogelwch – drwy gadw cydbwysedd priodol rhwng hwylustod i'r defnyddiwr ac amddiffyn rhag camddefnydd. Rhaid sicrhau mynediad hwylus ac amddiffyniadau hefyd i'r rheini nad ydynt yn gallu neu'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth digidol.

12. Credwn y bydd camau i awtomeiddio gwasanaethau SGC yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau costau. Byddai hefyd yn caniatáu symud adnoddau i wella gwasanaethau eraill SGC sy'n darparu mwy o fuddion i ddefnyddwyr.

13. Dyma'r rhesymau dros ymdrech y Weinyddiaeth Gyfiawnder a SGC i foderneiddio AAau. Nodau'r gwaith hwn yw:
    - cynyddu mesurau diogelu, yn enwedig ar gyfer y rhoddwr
    - gwella'r broses o wneud a chofrestru AA er mwyn rhoddwyr, atwrneiod a thrydydd partïon
    - sicrhau bod SGC yn gynaliadwy gan gadw AAau mor fforddiadwy â phosibl hefyd i bawb mewn cymdeithas

14. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried y ffyrdd gorau i gyflawni'r nodau hyn, a pha newidiadau yn y gyfraith y gallai fod eu hangen.

## Ein dull gweithredu

15. Rydym wedi defnyddio ymchwil, cyfweliadau ac arolygon ymysg defnyddwyr i gasglu barn y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o weithdai gyda'r gweithgor Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol. Mae'r gweithgor yn cynnwys rhanddeiliaid o wahanol sectorau, yn cynnwys cyllid, cyfreithiol, elusennau a gofal cymdeithasol.

16. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, roedd yn rhaid cynnal llawer o'n hymgysylltu ar-lein. Gwyddom fod hyn yn golygu na fyddwn wedi clywed o bosibl gan randdeiliaid neu aelodau o'r cyhoedd sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd, neu sydd heb ddymuno ei

defnyddio. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn awyddus iawn i glywed gan bobl sy’n perthyn i’r grŵp hwn.

17. Mae’r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol hefyd ar nifer y ceisiadau am AA ac ar brosesau SGC. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi defnyddio data o flwyddyn ariannol 2019 i 2020, am mai hyn sydd orau er mwyn adlewyrchu’r lefelau gwasanaeth arferol.

## Prif ganfyddiadau a chynigion

18. Mae ein dadansoddiad, ein hymchwil a’n hymgysylltu wedi ein helpu i ddatblygu saith cynnig ar gyfer moderneiddio AAau sy’n galw am newid deddfwriaeth sylfaenol:

19. Mae **Cynnig 1** yn ystyried y rôl a’r gwerth sydd i dystio mewn AAau a sut i gadw’r gwerth hwnnw. Rydym yn edrych ar ffyrdd i gyflawni hyn drwy ddefnyddio technoleg i hwyluso tystio i lofnodion o bell neu i gymryd lle’r tyst. Os nad oes gwerth, rydym yn ystyried dileu’r angen am dyst. Yr opsiwn a ffefrir yw cyflwyno mesurau diogelu newydd yn lle’r tyst i gyflawni’r un swyddogaeth.

20. Mae **Cynnig 2** yn ystyried rôl y cais am gofrestru AA a phwy a gaiff wneud cais. Rydym yn edrych ar ffyrdd i’w gwneud yn llai tebygol i AA gael ei gwrthod gan SGC ac ar y manteision o leihau neu gadw’r oedi rhwng gweithredu a chofrestru. Yr opsiwn a ffefrir yw i AAau gael eu gwirio’n ddigidol wrth eu gwneud, ac iddynt gael eu hanfon i’w cofrestru cyn gynted ag y byddant wedi’u gweithredu.

21. Mae **Cynnig 3** yn ystyried cylch gwaith SGC. Edrychwn ar ffyrdd i ehangu cylch gwaith SGC er mwyn iddi allu gwneud pethau fel gwirio hunaniaeth pobl, ac atal neu ohirio cofrestru AA os yw’n pryderu yn ei chylch. Yr opsiwn a ffefrir yw galluogi SGC i wneud hyn drwy ehangu’r mathau o wiriadau y caniateir iddi eu cyflawni o dan DGM a’r rheoliadau ar ei chyfer.

22. Mae **Cynnig 4** yn ystyried sut mae pobl yn gallu gwrthwynebu AA. Edrychwn ar ffyrdd i symleiddio’r broses bresennol fel y bydd yn haws i bobl ddeall i ble y dylent anfon gwrthwynebiadau a sut i wneud hynny. Yr opsiwn a ffefrir yw y dylai unrhyw un allu gwrthwynebu AA a bod yr holl wrthwynebiadau i’w hanfon i SGC yn gyntaf.

23. Mae **Cynnig 5** yn ystyried pa bryd y gall pobl wrthwynebu. Ystyrir ar ba bwynt ac am ba hyd y gellir gwneud gwrthwynebiadau cyn cofrestru AA ac a fydd hyn yn parhau’n fesur diogelu i’r rhoddwr. Yr opsiwn a ffefrir yw caniatáu i bobl wrthwynebu AA o’r amser y mae’r rhoddwr yn dechrau ei chreu hyd at amser ei chofrestru. Byddem hefyd yn hoffi byrhau’r amser rhwng anfon AA i’w chofrestru a’i gosod ar y gofrestr.

24. Mae **Cynnig 6** yn ystyried cyflymder y gwasanaeth AA ac a ddylid cyflwyno gwasanaeth cyflymach penodedig ar gyfer pobl sydd ag angen cael AA ar frys. Rydym yn ystyried a fyddai gwasanaeth brys yn rhoi manteision ychwanegol o'i gymharu â darparu gwasanaeth cyflymach i bawb. Hefyd rydym yn ystyried a fyddai modd cyflwyno gwasanaeth penodedig heb wneud y broses yn fwy cymhleth i ddefnyddwyr a SGC. Yr opsiwn a ffefrir yw peidio â chyflwyno gwasanaeth penodedig gan nad ydym yn credu y byddai modd creu gwasanaeth cyflymach sydd â mesurau diogelu digonol heb iddi fod yn rhy gymhleth.

25. Mae **Cynnig 7** yn ystyried mynediad i'r gwasanaeth gan gyfreithwyr. Rydym yn ystyried a oes modd cyflawni hyn drwy integreiddio ein gwasanaeth â systemau rheoli achosion cyfreithwyr neu a fyddai angen ei gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio rhan neu'r cyfan o'r gwasanaeth. Yr opsiwn a ffefrir yw darparu mynediad i'r gwasanaeth i gyfreithwyr drwy ei integreiddio â'u systemau presennol.

26. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio casglu rhagor o farn a thystiolaeth ar y cynigion hyn. Rydym yn gofyn cwestiynau penodol am bob cynnig yn ogystal â gofyn am dystiolaeth am yr effeithiau ar gydraddoldeb a rhai cwestiynau cyffredinol am y cynigion i gyd. Bydd eich ymatebion yn dylanwadu ar y ffordd y byddwn yn mynd ati i foderneiddio AAau.

## Datganiad am gydraddoldebau

27. Mae datganiad am gydraddoldebau yn Atodiad A.

# Cyflwyniad

28. Mae'r papur hwn yn amlinellu nifer o gynigion sydd wedi'u datblygu i foderneiddio AAau er mwyn ymgynghori arnynt. Bydd y cynigion hyn yn galw am newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at y cyhoedd a'r rheini sydd wedi bod â rhan mewn creu a/neu ddefnyddio atwrneiaethau arhosol yng Nghymru a Lloegr.

29. Mae Asesiad o'r Effaith wedi dangos ei bod yn debygol y bydd effaith neilltuol ar aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud AAau, ar eraill sy'n gysylltiedig â chreu a chofrestru AAau, ar y rheini sy'n darparu cynhorthwy cyfreithiol mewn perthynas ag AAau, ar grwpiau elusen sy'n helpu pobl sy'n gwneud AAau ac ar drydydd partïon sy'n rhyngweithio ag AAau, neu sydd â phryderon amdanynt. Mae hyn yn ychwanegol i'r effaith a fydd ar SGC, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Llys Gwarchod, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y GIG a Llywodraeth Cymru.

30. Nid oedd yn bosibl ymdrin ag effeithiau ariannol y cynigion a gyflwynir am nad yw trefniadaeth allweddol y gwasanaeth arfaethedig wedi'i phenderfynu eto ac mae rhai data nad ydynt yn cael eu dal gan SGC neu eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'n gwaith i gasglu tystiolaeth i helpu i lenwi bylchau yn ein gwybodaeth. Mae Asesiad o'r Effaith wedi'i atodi a byddem yn falch iawn o gael sylwadau amdano.

# Y cynigion

## Cefndir

31. Mae'r Atwrneiaeth Arhosol (AA) yn offeryn pwysig sy'n caniatáu i rywun gynllunio at y dyfodol ar gyfer amser pan na fydd o bosibl yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun, drwy ddewis rhywun y mae'n ymddiried ynddo i wneud penderfyniadau drosto.

32. Mae dau fath o AA – arian ac eiddo, ac iechyd a lles personol. Mae AA arian ac eiddo yn cynnwys penderfyniadau fel prynu a gwerthu eiddo neu reoli cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu neu fuddsoddiadau. Mae AA iechyd a lles yn gallu cynnwys penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol, neu drefniadau gofal ynghylch, er enghraifft, ble y dylai rhywun fyw, â phwy y dylai gysylltu, a'i ofal o ddydd i ddydd.

33. Mae AA yn caniatáu i berson (y 'rhoddwr') roi pwerau penderfynu i un neu ragor o rai eraill (yr atwrneiod). Gall y rhoddwr ddewis pa mor gynhwysfawr neu gyfyngedig fydd pŵer ei atwrneiod. Mae hyn yn cynnwys a fydd atwrnai'n gallu gwneud penderfyniadau ynghylch triniaeth i gynnal bywyd (ar gyfer iechyd a lles) neu a gaiff atwrnai weithredu cyn i'r rhoddwr golli galluedd (arian ac eiddo). Gall y rhoddwr hefyd nodi dymuniadau a chyfarwyddiadau ynghylch sut mae ei atwrneiod i wneud penderfyniadau.

34. Er bod AAau yn gytundebau preifat rhwng unigolion, rhaid i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC) gofrestru AA cyn gallu ei defnyddio.

**Sut a pham y cyflwynwyd yr AA**

35. Crëwyd yr AA gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (DGM) i gymryd lle'r Atwrneiaeth Barhaus (AB). Cyflwynwyd yr AB ym 1986 i ymateb i bryderon bod Atwrneiaeth gyffredinol yn dod i ben pan fydd person yn colli galluedd meddyliol. Barn Comisiwn y Gyfraith oedd 'ar amser pan yw'r cymorth gan yr atwrnai wedi dod nid yn unig yn ddymunol ond yn hanfodol i'r rhoddwr, nid oes awdurdod gan yr atwrnai i weithredu'. Fodd bynnag, erbyn canol y 1990au roedd pryderon am y posibilrwydd o gamddefnyddio'r AB – yn ôl rhai amcangyfrifiadau, roedd cymaint â 20% ohonynt yn cael eu camddefnyddio. Ym 1995, cyhoeddwyd adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith a arweiniodd yn y pen draw at DGM ac at gyflwyno'r AA. Roedd yr adroddiad yn cynnig proses newydd i ddarparu mesurau diogelu mwy cadarn, yn cynnwys yr angen i gofrestru AAau cyn eu defnyddio.

36. Y bwriad wrth gyflwyno'r AA oedd cadw'r cydbwysedd rhwng yr angen am fesurau diogelu a'r angen i gael mynediad hwylus ati. Y nod oedd cymell pobl i wneud AA ac i fod yn barod i weithredu fel atwrnai.

37. Roedd DGM yn pennu dull newydd o gynorthwyo a diogelu'r rheini sydd heb alluedd meddyliol yng Nghymru a Lloegr. Roedd hefyd yn sefydlu SGC i oruchwylio cofrestru AAau i ddiogelu rhag y camddefnydd cynyddol a welwyd gydag ABau.

38. Mae SGC yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n cynorthwyo'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau statudol. Ceir y swyddogaethau hyn yn A. 58 o DGM ac, mewn perthynas ag AAau, maent yn cynnwys:
    - sefydlu a chynnal cofrestr o AAau
    - delio â sylwadau a gyflwynir, yn cynnwys cwynion am y ffordd y mae atwrneiod yn cyflawni eu dyletswyddau

39. Ers sefydlu SGC yn 2007, mae nifer yr AAau wedi cynyddu'n sylweddol. Yn y pum mlynedd hyd 2020, roedd y nifer wedi cynyddu mwy na dwywaith, o ychydig mwy na 390,000 yn 2014/15 i ychydig llai na 920,000 yn 2019/20.

**Sut mae AA yn cael ei gwneud a'i chofrestru**

40. Rhaid i AA gael ei gweithredu (ei llofnodi a thystio i'w llofnodion) a'i chofrestru ar bapur. Gwneir hyn er mwyn cwrdd â gofynion DGM ac am mai gweithred yw'r AA. Er mwyn i weithred fod yn ddilys o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol) 1989, rhaid iddi gael:
    - ei llofnodi
    - tystio i'w llofnodion
    - ei hardystio
    - ei thraddodi

41. Er bod SGC wedi cyflwyno offeryn digidol yn 2013 i helpu pobl i lenwi'r ffurflen AA, rhaid cwblhau camau olaf y broses ar bapur o hyd.

42. Ar ôl llenwi'r ffurflen AA, rhaid ei hargraffu fel y gall y rhoddwr a'r atwrneiod ei llofnodi mewn trefn benodol, ac fel y gellir tystio i'r llofnodion hynny. Wedyn rhaid i'r 'darparwr tystysgrif' lofnodi i gadarnhau bod y rhoddwr yn deall ei AA ac na roddwyd pwysau amhriodol ar y rhoddwr ac nad oes twyll. Yna bydd y 'ceisydd' yn postio'r ffurflen AA i SGC i'w chofrestru.

43. Pan gaiff yr AA bapur, bydd SGC yn ei sganio fel y gellir ei phrosesu a'i gwirio. Os yw'n cwrdd â holl ofynion DGM, caiff yr AA ei chofrestru a'i phostio'n ôl i'r ceisydd. Mae'r broses hon yn galw am ddefnyddio llawer iawn o bapur. Yn 2019/20, cafodd SGC tua 19 miliwn o ddalennau o bapur A4 ar ffurf copïau caled o AAau a ffurflenni cais, ac anfonodd nifer tebyg ei hun, mewn perthynas â chofrestru AAau gan mwyaf. Mae hyn yn golygu tua 38 miliwn o ddalennau papur y flwyddyn, heb gyfrif papur a ddefnyddiwyd yn y broses creu a cheisio cyn i'r AAau gyrraedd SGC.

44. Mae nifer mawr o roddwyr ac atwrneiod wedi dweud wrthym fod y broses papur hon yn un anhwylus, biwrocrataidd a chymhleth. Rydym am ymateb i'r pryderon hyn, gan gadw'r cydbwysedd priodol yr un pryd rhwng hwylustod i'r defnyddiwr ac amddiffyn rhag camddefnydd.

**Yr achos o blaid newid**

45. Cafwyd newidiadau mawr mewn cymdeithas yn y 14 blynedd ers cyflwyno AAau. Mae technoleg wedi datblygu ac mae ar gael yn fwy eang. Wrth i nifer cynyddol o wasanaethau gael eu darparu ar-lein, mae pobl wedi dod yn fwy hyfedr a hyderus wrth ddefnyddio technoleg i gael gafael ar wasanaethau fel siopa, bancio a chyfathrebu. Mae'n beth arferol bellach i wasanaethau llywodraeth – fel rhai ar gyfer adnewyddu pasbort neu drwydded deledu, neu gyflwyno ffurflen dreth – gael eu cyrchu ar-lein. Mae'r duedd hon wedi cyflymu yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19), pan welwyd bod nifer mawr o bobl a oedd yn anghyfarwydd â thechnoleg ddigidol o'r blaen yn dechrau rhyngweithio â sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd newydd.

46. Gwelir fwyfwy fod pobl yn disgwyl cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau'n gyflym ac yn rhwydd ar-lein. Yn ogystal â hyn, mae ymwybyddiaeth gynyddol hefyd o risgiau ar-lein o ran preifatrwydd a diogelwch, a disgwyliad y bydd sefydliadau'n cymryd camau i ddiogelu data pobl ac atal camddefnydd.

47. Mae angen ymateb i'r newidiadau hyn ac ystyried sut mae technoleg ddigidol yn gallu gwella'r gwasanaeth i bobl sydd am greu a chofrestru AA. Wrth wneud hynny, rhaid rhoi pob sylw i bryderon am ddiogelwch a darparu mesurau diogelu i atal camddefnydd. Rhaid i ni hefyd sicrhau mynediad ac amddiffyniadau i bobl sydd heb y gallu neu'r dymuniad i ddefnyddio sianeli digidol.

48. Yn 2019, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei bapur: 'Gweithredu Dogfennau'n Electronig'. Fe'i comisiynwyd gan y Llywodraeth i ystyried y goblygiadau o weithredu dogfennau drwy ddulliau electronig, yn enwedig mewn perthynas â llofnodi a thystio electronig. Yn dilyn ymgysylltu eang, a phryderon a godwyd mewn perthynas â'r ffaith bod yr AA yn gytundeb o fath unigryw, nododd yr adroddiad yn benodol:

*'Yn achos atwrneiaethau arhosol, mae'n glir y dylai SGC a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried beth fydd yn ddigon diogel a dibynadwy i roddwyr cyn cyflwyno unrhyw system sy'n defnyddio llofnodion electronig. Rydym wedi tynnu'r materion hyn i sylw swyddogion SGC a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.'*

49. Dyma'r rhesymau dros ymdrech y Weinyddiaeth Gyfiawnder a SGC i foderneiddio AAau. Nodau'r gwaith hwn yw:
   i. cynyddu mesurau diogelu, yn enwedig ar gyfer y rhoddwr
   ii. gwella'r broses o wneud a chofrestru AA er mwyn rhoddwyr, atwrneiod a thrydydd partïon

iii. sicrhau bod SGC yn gynaliadwy gan gadw AAau mor fforddiadwy â phosibl hefyd i bawb mewn cymdeithas

50. Yn y fan hon, ac yn gyson â'r trydydd nod uchod, hoffem hysbysu darllenwyr bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ar strwythur a chynaliadwyedd y ffioedd a godir gan SGC am oruchwylio dirprwyon. Mae'r ymgynghoriad hwnnw'n ymwneud â swyddogaeth wahanol sydd gan SGC ac fe'i cyhoeddir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

51. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â digideiddio'r AA fel gweithred. Yn benodol, rôl y tyst wrth weithredu AA. Bydd hefyd yn ystyried sut mae technoleg yn gallu ein helpu i gynyddu mesurau diogelu a diwallu anghenion defnyddwyr yn well. Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud yn bennaf â'r newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd eu hangen i hwyluso sianel ddigidol ar gyfer creu, gweithredu a chofrestru AAau.

52. Gwyddom nad yw pawb yn gallu neu'n dymuno defnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar wasanaethau. Bydd unrhyw wasanaeth AA sydd ar gael yn y dyfodol yn un a gynigir drwy nifer o sianeli. Lle mae'r newidiadau a gynigir yn creu goblygiadau i sianeli analog (yn cynnwys rhai papur), rydym yn tynnu sylw at y rhain yn yr ymgynghoriad. Yn enwedig lle maent yn ymwneud â mesurau diogelu newydd. Parhawn i ystyried hyn yn ein gwaith dylunio ac rydym wedi ystyried effeithiau'r newidiadau hyn ar gydraddoldebau, fel y dangosir yn Atodiad A.

53. Yn rhan o'n hymchwil, rydym wedi siarad â phobl sydd wedi gwneud AAau. Maen nhw wedi dweud wrthym fod y broses yn gymhleth a dyrys. Yn benodol, rydym wedi clywed bod:

- y ffurflen yn rhy hir, gyda gormod o ddarnau o bapur
- y ffaith bod rhaid llofnodi'r AA mewn trefn benodol yn creu anawsterau logistaidd, yn enwedig os nad yw'r rhoddwr a'r atwrneiod yn yr un lle
- y ffurflenni'n anhygyrch, er enghraifft i bobl sydd â nam ar y golwg

54. Mae defnyddwyr wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi cael mesurau diogelu clir yn y broses i atal gorfodaeth neu greu AAau drwy dwyll. Hefyd hoffent weld canllawiau cliriach ymlaen llaw fel y bydd pawb yn deall eu rolau, hawliau a chyfrifoldebau. Roedd barn gyffredin y dylid treulio mwy o amser yn meddwl am y penderfyniadau pwysig sydd i'w gwneud wrth greu AA – fel dewis atwrnai – yn hytrach na delio â'r gofynion cymhleth a logistaidd ar gyfer llenwi'r ffurflen AA. Nid yw'r holl syniadau hyn yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad am nad ydynt yn galw am newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol. Er hynny, byddwn yn parhau i edrych ar y meysydd hyn wrth geisio moderneiddio'r gwasanaeth.

55. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am AA wedi codi heriau i SGC. Mae delio â niferoedd mawr o ddalennau papur yn gostus ac

aneffeithlon ac mae'n creu angen cynyddol am staff, cyfarpar a chyfleusterau storio. Gan fod costau gweithredu SGC yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan incwm o ffioedd, bydd costau cynyddol yn effeithio ar y ffioedd y mae'n gorfod eu codi am ei gwasanaethau. Un o nodau allweddol SGC yw parhau i wneud AAau yn hygyrch i bawb sydd â'u hangen, am bris teg a rhesymol. Os na chymerir camau i wneud gwasanaeth SGC yn fwy effeithlon, bydd yn rhaid cynyddu'r ffioedd neu bydd mecanwaith ariannu SGC yn dod yn anghynaladwy yn y tymor hir.

56. Mae effaith y materion hyn wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd COVID-19. Mae'r ddibyniaeth ar brosesau seiliedig ar bapur, fel llofnodi yn y fan a'r lle a thystio personol, ynghyd â chadw pellter cymdeithasol, wedi cymhlethu'r broses ymhellach ar gyfer creu AA i rai pobl. Mae'r gofyniad am gadw pellter cymdeithasol wedi cael effaith sylweddol hefyd ar allu SGC i brosesu AAau papur, gan fod rhaid gwneud hyn â llaw yn y swyddfa. Byddai gwasanaeth modern, mwy digidol, yn cryfhau'r system drwy sicrhau bod nifer o sianeli mynediad ar gael.

57. Credwn y bydd camau i awtomeiddio gwasanaethau SGC yn cynnig cyfleoedd i wella effeithlonrwydd a lleihau costau. Yn bwysicaf oll, byddai hyn yn caniatáu ailfuddsoddi adnoddau i wella mesurau diogelu, er enghraifft drwy gynyddu swyddogaeth ymchwiliadau SGC.

58. Mewn unrhyw system newydd ar gyfer gwneud a chofrestru AA, rhaid rhoi sylw i bryderon am fesurau i ddiogelu rhag twyll, pwysau amhriodol (yn cynnwys gorfodaeth) a cham-drin. Roedd y mesurau diogelu a gyflwynwyd gyda'r AA yn briodol ar gyfer 2007. Fodd bynnag, mae technoleg wedi symud yn ei blaen. Mae agweddau cymdeithas at dwyll a cham-drin, a'r mesurau diogelu disgwyliedig yn eu herbyn, wedi newid hefyd. Mae angen cymryd camau hefyd i sicrhau bod y system yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd yn y ffordd a fwriadwyd. Rhaid iddi ganiatáu cofrestru AAau dilys, yn ogystal â chanfod rhai annilys ac atal eu cofrestru, yn cynnwys y rheini a wneir drwy dwyll neu drwy roi pwysau amhriodol, lle y bo modd .

59. Mae systemau digidol yn cynnig ffyrdd newydd i SGC ddiogelu ei chwsmeriaid drwy ddefnyddio dulliau gwirio hunaniaeth a gwybodaeth. Mae angen ystyried yn awr beth fydd y ffordd orau i gymhwyso'r prosesau hyn, ac unrhyw newidiadau y bydd eu hangen yn y gyfraith i ganiatáu i SGC weithredu'r mesurau diogelu gwerthfawr hyn.

### Ymgysylltu blaenorol

60. Rydym wedi ymgynghori o'r blaen ynghylch caniatáu creu AAau ar-lein. Yn 2013, roedd dogfen y Llywodraeth 'Transforming the Services of the Office of the Public Guardian: Enabling Digital by Default' wedi gofyn am farn ar y mater hwn. Roedd ymatebwyr yn pryderu am y posibilrwydd o golli mesurau diogelu, risg gynyddol o dwyll, a'r angen i gadw'r dewis o greu AA ar bapur i'r rheini sydd heb allu defnyddio

technoleg. Roedd ymrwymiad yn ymateb y Llywodraeth i ymgynghori ymhellach ar unrhyw gynigion newydd.

61. Ers hynny, mae SGC wedi bwrw ymlaen â rhaglen drawsnewid digidol, yn cynnwys cyflwyno ei hofferyn digidol ar gyfer llenwi AA. Gwneir 28.4% o AAau drwy ddefnyddio'r offeryn hwn, sydd wedi sicrhau cyfradd bodlonrwydd gyson o 90%. Yn 2020, lansiodd SGC y gwasanaeth 'Defnyddio atwrneiaeth arhosol' sy'n caniatáu i roddwyr ac atwrneiod rannu cynnwys yr AA â sefydliadau ar-lein. Ychwanegwyd 125,000 o AAau i'r gwasanaeth rhwng ei lansio ym mis Gorffennaf 2020 a Mai 2021. Mae wedi sicrhau cyfradd bodlonrwydd o 90.9% ymysg y cyhoedd a sefydliadau allanol.

62. Parhawn i gynnal ymchwil ymhlith defnyddwyr, cyfreithwyr, sefydliadau trydydd sector ac eraill i gael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n codi ynghylch gwneud a chofrestru AA. Mae'r ymchwil hon wedi arwain at y cynigion a chwestiynau sydd yn y ddogfen hon.

**Nodyn am effaith COVID-19 ar ein sylfaen dystiolaeth**

63. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, rydym wedi gorfod gwneud newidiadau sylweddol yn ein ffordd o ddatblygu polisi, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymgysylltu â phobl yn ddiogel. Yn y ddogfen hon, cyfeiriwn at ein hymchwil, gweithdai ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r rhain wedi'u cynnal o bell gan mwyaf drwy ddefnyddio technoleg, yn cynnwys arolygon ar-lein, cynadledda fideo ac offer cydweithio ar-lein.

64. Er ein bod wedi ceisio cynnwys unigolion a grwpiau sy'n gallu darparu tystiolaeth benodol am ffyrdd i sicrhau y bydd AA fodern yn gweithio i'r rheini sydd heb allu neu ddymuniad i ddefnyddio gwasanaethau digidol, rydym hefyd yn ymwybodol bod yr angen i ddefnyddio offer digidol i wneud hyn wedi arwain o bosibl at duedd benodol yn ein sylfaen dystiolaeth bresennol. Felly, wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae'n bwysig nodi ein bod yn ymddiddori'n arbennig mewn tystiolaeth sy'n ymwneud â'r rheini a allai fod ag angen gwasanaethau analog fel dulliau personol o wirio dogfennau, boed hynny am nad yw sianeli digidol ar gael iddynt neu am eu bod yn dewis peidio â'u defnyddio.

65. Oherwydd effaith y pandemig COVID-19 ar nifer y ceisiadau am AA ac ar brosesau SGC, rydym wedi dibynnu'n bennaf ar ddata SGC o 2019/20, yn hytrach na 2020/21. Y flwyddyn 2019/20 yw'r cymharydd cyflawn a dibynadwy diwethaf ar gyfer lefelau gwasanaeth arferol.

**Nodyn am dermau**

66. O dan DGM, dim ond ar ôl ei chofrestru gan SGC y bydd AA wedi'i chreu'n gyfreithiol. Tan ei chofrestru, dim ond cwblhau 'offeryn sydd â'r bwriad i greu' AA y

mae'r rhoddwr. Er mwyn symlrwydd, drwy gydol yr ymgynghoriad hwn rydym yn cyfeirio at:

- 'AA' yn y ddau amgylchiad, heblaw wrth wrthgyferbynnu 'offeryn yr AA' â'r 'cais am gofrestru' yn y ffurflenni AA;
- ac at 'greu' gan olygu'r broses y mae'r rhoddwr yn mynd drwyddi i wneud penderfyniadau a drafftio ei AA o'i gymharu â chofrestru, sef y broses y mae SGC yn ei defnyddio i wirio'r AA a'i hychwanegu i'r gofrestr i'w defnyddio

67. Mae rhestr termau yn Atodiad B.

# Cynnig 1: Rôl tystio


68. O dan y cynnig hwn, rydym yn ystyried a oes gwerth yn rôl y tyst (yn wahanol i rôl y darparwr tystysgrif) ac, os oes, sut i gadw'r gwerth hwn mewn gwasanaeth yn y dyfodol lle bydd dulliau digidol o greu a gweithredu AA yn bosibl. Rydym yn ystyried sut y gallwn gyflawni hyn drwy ddefnyddio technoleg i hwyluso tystio o bell, drwy gyfnewid yr angen am berson i gyflawni hyn am fesur diogelu tebyg, neu drwy hepgor tystion yn gyfan gwbl.

**Y broses bresennol**

69. Mae AA yn weithred, felly rhaid tystio i lofnodion y rhoddwr a'r atwrneiod. Rhaid i'r tyst lofnodi'r ddogfen a darparu ei enw llawn a'i gyfeiriad. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn Neddf Cyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol) 1989 a Rheoliadau Atwrneiaethau Arhosol, Atwrneiaethau Parhaus a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus 2007.

70. Yn y broses bresennol, nid yw'r tyst ond yn gorfod cadarnhau bod person wedi llofnodi'r ddogfen. Nid yw'n ofynnol ei fod yn adnabod y bobl gysylltiedig na'i fod yn gwirio pwy yw'r person sy'n ei llofnodi. Nid oes angen iddo wybod beth yw'r ddogfen, na beth mae'r person yn cytuno iddo. Oherwydd hyn, mesur diogelu cyfyngedig yw tystio ar hyn o bryd.

71. Dim ond drwy ei gyfuno â dwy elfen arall y gall tystio ychwanegu gwerth fel mesur diogelu (gweler ffig. 1) Y rhain yw cadarnhau mai'r rhoddwr:
    i. yw'r un y mae'n honni ei fod (drwy wirio dull adnabod)
    ii. sydd wedi llofnodi'r ddogfen (gan y tyst)
    iii. ei fod yn deall ac yn cydsynio o'i wirfodd i greu'r AA (gan y darparwr tystysgrif)




**Ffig.1** Triongli Tystion

72. Nid yw'r broses bresennol o wneud AA yn cynnwys gwirio dull adnabod (sy'n cael ei ystyried yng nghynnig 3). Mae cryn ddryswch hefyd rhwng rolau'r tyst a'r darparwr tystysgrif, sy'n tanseilio'r mesurau diogelu y maent yn eu darparu.

**Tystiolaeth**

73. Gan fod rôl y tyst yn gyfyngedig yn y ddeddfwriaeth, rydym wedi ceisio deall beth mae pobl yn credu yw rôl y tyst a'i gwerth mewn AA. Mae ymchwil yn dangos nad yw defnyddwyr yn deall beth yw diben rôl y tyst, ac roedd 49% o roddwyr a holwyd ar-lein wedi rhoi eglurhad anghywir o rôl y tyst.[1]

*Y tyst a'r darparwr tystysgrif*


74. Yn ein hymchwil ymhlith defnyddwyr, dywedodd rhai defnyddwyr wrthym fod rôl y tyst yn ddiangen, ond dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod cael tyst yn ychwanegu at arwyddocâd yr achlysur o lofnodi'r AA. Mae rhai cyfreithwyr a gymerodd ran yn ein hymgysylltu â rhanddeiliaid yn credu bod tystio yn darparu mesur diogelu i roddwyr.

75. Cawsom fod pobl yn aml yn cydgymysgu rolau'r darparwr tystysgrif a'r tyst, fel ei bod yn bosibl bod y mesur diogelu a welir yn un sy'n rhan o rôl y darparwr tystysgrif, yn hytrach na'r tyst.

76. Mae llawer o'r pwysigrwydd a briodolir i'r tyst (sicrhau dealltwriaeth, gwirio nad oes pwysau amhriodol neu dwyll, a chadarnhau mai'r rhoddwr yw'r person a wnaeth yr AA, gweler ffig. 2), yn rhan o rôl y darparwr tystysgrif mewn gwirionedd. Er bod nifer mawr o dystion cydwybodol yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn, nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny o dan y ddeddfwriaeth.

[1] SGC (2021) Post Registration (Donor) Survey Responses. Heb ei gyhoeddi.

**Ffig. 2 Dealltwriaeth rhoddwyr o rôl y tyst**





77. Mae dealltwriaeth wael o rôl y darparwr tystysgrif ymysg yr holl grwpiau rydym wedi siarad â nhw, yn cynnwys y cyhoedd, cyfreithwyr a'r trydydd sector (gweler ffig. 3). Mewn ymchwil ddiweddar, roedd 42% o roddwyr a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yn credu mai rôl y darparwr tystysgrif oedd gweithredu fel tyst.[2]

78. Cawsom fod nifer mawr o bobl yn credu'n anghywir fod y rhoddwr tystysgrif:
- yn gyfrifol am wirio bod galluedd meddyliol gan y rhoddwr (rhywbeth sydd i'w ragdybio o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol, oni bai fod tystiolaeth i'r gwrthwyneb)
- yn gyfrifol am gadarnhau bod y rhoddwr wedi dewis atwrneiod priodol
- yn gorfod bod yn aelod o gorff proffesiynol (mae hyn yn wir dim ond os nad yw darparwr tystysgrif wedi adnabod y rhoddwr am o leiaf ddwy flynedd)

[2] SGC (2021) Post Registration (Donor) Survey Responses. Heb ei gyhoeddi.

**Ffig. 3 Dealltwriaeth rhoddwyr o rôl y Darparwr Tystysgrif**




79. Rydym yn amau bod y dryswch hwn wedi codi am fod y darparwr tystysgrif hefyd yn gallu gweithredu fel tyst. Er enghraifft, wrth wneud AA i rywun, bydd cyfreithwyr yn aml yn ymgymryd â rôl y darparwr tystysgrif a'r tyst. Yn ein harolwg o gyfreithwyr, dywedodd 90% ohonynt wrthym eu bod bob amser yn gweithredu fel darparwr tystysgrif i'w cleient.[3] Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym gan randdeiliaid o'r sector elusennau eu bod yn argymell i'w cleientiaid y dylai'r darparwr tystysgrif weithredu hefyd fel tyst er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n gysylltiedig.

80. Drwy gael un person i weithredu fel darparwr tystysgrif ac fel tyst, gall y broses fod yn haws a mwy effeithlon ac mae hyn o gymorth mawr i'r rheini sydd â rhwydweithiau cymdeithasol llai. Er hynny, mae'n debygol bod hyn hefyd wedi peri i bobl gydgymysgu'r ddwy rôl.

*Anawsterau ymarferol*

81. Mae anawsterau ymarferol hefyd ynglŷn â'r broses tystio i rai defnyddwyr. Gall fod yn anodd iddynt gael llofnodi a thystio i'r AA yn y drefn gywir yn unol â'r rheoliadau.

82. Mae gwallau llofnodi a thystio yn gallu peri i SGC dybio bod AA yn 'amherffaith' (fel bod rhaid llofnodi adrannau o'r AA a thystio iddynt eto) neu'n 'annilys' (rhaid gwneud, llofnodi a thystio i'r AA gyfan eto, a thalu ffi arall am wneud cais).

83. Roedd ein hymchwil wedi canfod nifer o enghreifftiau o dystio anghywir mewn AAau. Yn 2019/20, roedd tua 15% o AAau (oddeutu 140,000) yn cynnwys gwallau a oedd yn eu gwneud yn amherffaith neu'n annilys. Gwallau llofnodi a thystio oedd nifer

[3] Ministry of Justice Digital & Technology (2020) Modernising Lasting Power of Attorney Solicitor Survey. Heb ei gyhoeddi.

sylweddol o'r gwallau hyn. Maent yn gyfrifol am 74% o AAau amherffaith a 59% o AAau annilys.[4] Mae 60% o'r holl wallau a wnaed yn adran triniaeth cynnal bywyd yr AA yn ganlyniad i dystio anghywir. Mae cywiro'r gwallau hyn yn gofyn ymdrech, amser a chost ychwanegol i'r rhoddwr a'r atwrneiod.

84. Bydd tystio anghywir yn digwydd am nifer o resymau. Bydd yn digwydd weithiau am nad oes dealltwriaeth gywir o'r rôl. Mae rhai heb ddeall bod rhaid i'r tyst wylio'r AA yn cael ei llofnodi, yn hytrach na dim ond gwirio ei bod wedi'i llofnodi. Mae hyn wedi bod yn broblem neilltuol yn ystod cyfyngiadau COVID-19 (e.e. gadael y ddogfen wedi'i llofnodi mewn cyntedd er mwyn i gymydog allu ei llofnodi fel tyst ond heb i'r dyst wylio'r llofnodi drwy ddrws neu ffenestr). Mewn achosion eraill, nid oedd yn bosibl i dyst fod yn bresennol ei hun oherwydd newid mewn amseriadau neu drefniadau. Mae rhai defnyddwyr hefyd yn cyfaddef eu bod heb ddilyn gofynion llofnodi a thystio o fwriad. Er enghraifft, drwy ddyddio'r blychau llofnodi cyn anfon yr AA i'w llofnodi gan eraill sy'n rhan o'r broses.

85. Yn Chwarter 1-3 o 2020/21, roedd gostyngiad o 24% yn nifer yr AAau a anfonwyd i'w cofrestru o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019/20. Credwn fod hyn yn ganlyniad i anawsterau wrth drefnu i lofnodi a thystio i AA yn ystod cyfnodau clo ac wrth gwrdd â gofynion am gadw pellter cymdeithasol, yn ogystal â'r ffaith bod llai o ddiddordeb mewn AAau wrth i bobl ddelio â materion a oedd yn galw am sylw rhag blaen.

86. Gellid dilyn nifer o lwybrau i ddelio â'r dryswch ynghylch rôl y tyst a'r anawsterau ymarferol o gael tystio i AA. Byddai'r rhain yn gymwys i'r rôl tystio yn unig ac nid i rôl y darparwr tystysgrif.

**Dull 1a – Dileu tystio**

87. Ein bod yn diwygio deddfwriaeth i ddileu'r angen am dystio i lofnodion heb fabwysiadu dim arall yn lle swyddogaeth y tyst.

88. O ganlyniad i hyn, byddai'n haws ac yn gyflymach i ddefnyddwyr greu a chofrestru AA, a byddai llai o AAau na ellir eu cofrestru oherwydd gwallau llofnodi neu dystio.

89. Mae'r dull hwn o weithredu wedi'i seilio ar y canlynol:
- y canfyddiad nad yw tystio'n darparu unrhyw werth neu ddiogelwch ychwanegol sydd heb fod ar gael eisoes mewn rhannau eraill o'r broses
- y gred nad oes angen newidiadau heblaw'r rheini a gynigir mewn mannau eraill yn yr ymgynghoriad hwn i ddarparu ar gyfer y rôl a'r pwrpas sydd i dystio

90. Byddai dileu tystio'n gallu rhoi rhoddwyr mewn perygl os yw'n fesur diogelu mewn gwirionedd. Gallai hefyd leihau'r pwysigrwydd cyfreithiol tybiedig o greu AA, fel y

[4] SGC (2017) Understanding the LPA (datamining). Internal OPG report. Heb ei gyhoeddi.

byddai rhoddwyr ac atwrneiod yn llai tebygol o roi ystyriaeth lawn i'w harwyddocâd cyfreithiol.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio drwy:*

91. Newid deddfwriaeth i un ai datgymhwyso'r darpariaethau ar gyfer tystio neu ddileu'r angen i AA fod yn weithred.

**Dull 1b – Tystio o bell**

92. Byddai sianel ddigidol yn gallu caniatáu i rywun dystio o bell i lofnodi neu weithredu AA, heb fod angen iddo fod yn yr un lleoliad ffisegol â'r rhoddwr neu'r atwrnai. Byddai hyn yn cael gwared â'r angen am wneud trefniadau ffisegol gan ddefnyddwyr ac yn darparu siwrnai ddigidol ddi-dor, gan gadw'r diogelwch o gael tyst yn rhan o'r broses.

93. Er mwyn i'r dull hwn lwyddo, byddai angen i ddefnyddwyr fod yn barod neu'n ffafriol i dystio i'r AA drwy ddull digidol. Byddai angen i system dystio o'r fath fod yn ddiogel ac yn hawdd ei defnyddio. Mae perygl y byddai rhai defnyddwyr yn cael bod tystio digidol yn fwy cymhleth ac yn cael eu cymell i beidio â gwneud AA. Gallai'r broses ddigidol fod yn agored i gamddefnydd, gallai wrthdaro â mesurau diogelu eraill yn y broses a gallai danseilio cadernid y nodweddion hynny o bosibl, gan gynnwys e-lofnodion.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

i. gwahoddir y tyst i fideoalwad gyda'r rhoddwr neu'r atwrnai, lle bydd yn gallu ei weld yn glir yn cydsynio i weithredu'r AA
ii. mae'r broses yn sicrhau bod y rhoddwr neu atwrnai yn deall bod y tyst yn cydnabod ac yn tystio i gydsyniad i'r AA gael ei gweithredu
iii. cysylltir â'r tyst drwy'r e-bost neu neges destun gan wasanaeth SGC, a bydd yn mewnbynnu ei fanylion i gadarnhau ei fod wedi tystio i'r llofnodi

**Dull 1c – Mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio**

94. Gellid dileu'r gofyniad presennol i rywun fod yn bresennol ei hun i dystio i lofnodi a gweithredu'r AA gan y rhoddwr a'r atwrnai/atwrneiod a mabwysiadu mesurau diogelu newydd yn y broses yn lle tystio sy'n cyflawni'r un swyddogaeth. Gellid defnyddio dull mwy priodol i ddarparu tystiolaeth wrthrychol i SGC fod yr AA wedi'i chreu'n gyfreithlon gan leihau nifer yr AAau na ellir eu cofrestru oherwydd gwallau tystio. Byddai lefel y diogelwch sydd ar gael drwy dystio yn cael ei chadw, neu ei gwella o bosibl, drwy wneud y mesur diogelu'n fwy addas i sianeli digidol.

95. Mae'r dull hwn o weithredu'n dibynnu ar y gallu i ail-greu'r diogelwch a geir drwy dystio drwy ddull digidol, ac ar ymddiriedaeth y defnyddwyr wrth ddefnyddio system lle mae technoleg yn cyflawni'r swyddogaeth hon.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

96. Pan fydd rhoddwr neu atwrnai yn marcio ei gydsyniad i weithredu'r AA, gallai wneud hynny drwy'r hyn sy'n cyfateb i Lofnod Electronig Uwch neu Amodol (AeS/QeS). Mae'r technolegau hyn yn caniatáu i roddwr neu atwrnai wneud marc ar ddogfen electronig mewn amgylchedd untro sy'n atal ymyrraeth, a chofnodi tystiolaeth ychwanegol o'r digwyddiad yn ddiogel, yn cynnwys eitemau fel cyfeiriad rhyngrwyd, gwybodaeth am ddyfais, stamp amser, lleoliad a gwybodaeth adnabyddadwy. Byddai'r pwyntiau data hyn yn cael eu hamgryptio yn rhan o wybodaeth yr AA a gyflwynir, a byddent yn ddigon i ardystio bod cytundeb wedi'i wneud gan y rhoddwr a'r atwrnai, heb fod angen person i fod yn dyst.

97. **Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y dull a ffefrir gan y Llywodraeth yw 1c.** Mae ein hymchwil yn dangos bod gwerth yn rôl y tyst lle mae wedi'i chyfuno â rôl y darparwr tystysgrif a gofynion adnabod. Rydym yn ymwybodol y byddai defnyddwyr yn falch o weld symleiddio'r broses o dystio i AA gan y byddai'n lleihau'r angen am wneud trefniadau, sydd yn aml yn gymhleth, i gwblhau'r AA. Mae aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r rôl hon yn cymryd eu cyfrifoldeb o ddifrif ac mae cyfreithwyr, elusennau a'r rheini sy'n helpu i greu'r AA yn ei weld yn fesur diogelu allweddol.

98. Byddai dileu'r gofyniad am dystio yn lleihau nifer yr AAau na ellir eu cofrestru oherwydd gwallau tystio, ond byddai hefyd yn dileu elfen o'r broses diogelu dair rhan.

99. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod ei fod yn fesur diogelu hawdd ei gamddefnyddio os mai gorfodi neu dwyllo yw amcan y rheini sy'n gysylltiedig gan fod modd ffugio manylion tyst neu gall y tyst fod â rhan yn y gorfodi. Nid yw tystio o bell yn datrys y materion hyn ac mae hefyd yn creu anawsterau pellach mewn perthynas â defnyddio llofnodion digidol gan fod rhai ohonynt na ellir tystio iddynt heb danseilio eu diogelwch.

100. Bydd angen cadw tystiolaeth bod y cytundeb wedi'i wneud mewn ffordd ddilys a chydnabyddiaeth i bwysigrwydd a difrifoldeb yr eiliad o gytuno ar AA yn rhan o'r gwasanaeth newydd heb danseilio diogelwch yr AA ei hun neu rannau eraill o'r broses. Felly rydym yn bwriadu ystyried cyflwyno dulliau gwrthrychol seiliedig ar dystiolaeth i gadarnhau bod y partïon wedi gweithredu'r AA.

**Cwestiynau**

1. Beth yw'ch barn chi am y cynigion sydd wedi'u hamlinellu? Rhowch resymau dros eich ymatebion:

   **Dileu tystio (dull 1a)**
   - Cadarnhaol

- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

**Tystio o bell (dull 1b)**

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

**Mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio (dull 1c)**

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

## Cynnig 2: Rôl ceisio

101. O dan y cynnig hwn, rydym yn edrych ar y pwrpas sydd i geisio yn y broses o greu a chofrestru AA a phwy a all wneud cais i gofrestru AA. Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd i'w gwneud yn llai tebygol i AA gael ei gwrthod. Byddwn yn edrych ar newidiadau a fyddai un ai'n gofyn bod AA yn cael ei hanfon i'w chofrestru'n syth ar ôl ei chwblhau gan y rhoddwr neu'n hwyluso cadw'r AA a gwblhawyd mewn storfa ddigidol cyn ei hanfon i'w chofrestru.

**Y broses bresennol**

102. Ar hyn o bryd, unwaith y bydd AA wedi'i chreu, mae rhoddwyr ac atwrneiod yn gallu gohirio anfon y ddogfen i SGC i'w chofrestru nes bydd angen ei defnyddio. Nid oes terfyn amser cyfreithiol ar ba mor hir y gellir storio AA a weithredwyd cyn ei chofrestru a bydd unrhyw ffurflenni darfodedig yn cael eu derbyn gan SGC, fel y nodwyd yn Atodlen 1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

103. Er mwyn cofrestru AA, rhaid i'r rhoddwr neu'r atwrnai/atwrneiod lenwi ffurflen gais, ynghyd â'r AA a ffi sy'n daladwy i SGC. Byddant yn cael eu cydnabod wedyn fel ceisydd. Rhaid i'r ffurflen gais gael ei llofnodi a'i chyflwyno gan y ceisydd. Fel y nodwyd yng nghynnig 1, bydd yr AA yn mynd drwy gyfres o wiriadau wedyn i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion DGM 2005 a rheoliadau. Os ceir bod gwallau yn y ddogfen sy'n atal ei chofrestru, yn ôl natur y gwall, bydd SGC un ai'n ceisio cywiro'r gwallau hyn gyda'r rhoddwr (amherffaith) neu bydd angen creu AA newydd a'i chyflwyno i'w chofrestru am ffi ychwanegol (annilys).

104. Mae'r ffaith mai dim ond wedi iddi gyrraedd SGC y bydd AA yn cael ei gwirio am gydymffurfiaeth â gofynion y ddeddfwriaeth yn creu set o risgiau hefyd i'r rhoddwr. Os yw'r rhoddwr wedi oedi cyn cofrestru'r AA, dim ond yn ystod y broses cofrestru y bydd unrhyw wallau'n dod i'r golwg. Os yw'r gwallau hyn yn atal cofrestru'r AA a bod y rhoddwr wedi colli galluedd meddyliol i wneud AA yn y cyfamser, yna ni fydd y rhoddwr yn gallu cywiro'r rhain neu wneud AA newydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, lle nad yw bellach yn bosibl gwneud AA, byddai angen i'r atwrnai arfaethedig wneud cais i'r Llys Gwarchod i'w benodi'n ddirprwy, ar gost ychwanegol i ystad y rhoddwr.

105. Mae'r ddau amgylchiad hyn yn arwain at waith ychwanegol, straen a chostau dichonol i'r rhoddwr, sef elfennau rydym yn ceisio eu lleihau neu eu dileu drwy foderneiddio.

**Tystiolaeth**

106. Mae ystadegau a gafwyd gan SGC yn dangos mai ychydig o bobl sy'n oedi cyn cofrestru AA a weithredwyd (dim ond 4.24% o'r ceisiadau am gofrestru AA sy'n cyrraedd SGC mwy na 200 diwrnod ar ôl llofnodi'r ffurflenni gan y rhoddwr). Mae data mewnol SGC yn dangos, ar gyfer 2019/20, fod SGC wedi cael 6,256 o AAau a

grëwyd ar ffurflenni o'r cyfnod cyn 2015 pan lansiwyd y ffurflenni AA diweddaraf (sef 0.76% o lwyth achosion SGC yn 2019/20). Mae modelu gan SGC yn awgrymu bod 80,000 o AAau yn aros heb eu cofrestru 200 diwrnod ar ôl eu creu ar unrhyw adeg. Heblaw hyn, ychydig o wybodaeth sydd gennym am nifer yr AAau sydd wedi'u gweithredu ond wedi'u storio wedyn gan roddwyr, atwrneiod, cyfreithwyr neu bartïon eraill a heb eu cofrestru.

107. Roedd ymchwil gan Ipsos Mori yn 2013/14 yn dangos, o'r ymatebwyr a oedd wedi gwneud AA, fod 41% ohonynt heb ei chofrestru a bod 44% o gwsmeriaid AA dichonol heb weld pwrpas mewn cofrestru AA nes bod ei hangen.[5] Fodd bynnag, ers hynny mae SGC wedi gwneud cryn ymdrech i hysbysebu'r rhesymau dros anfon AAau i'w cofrestru ar unwaith. Roedd ffioedd cofrestru hefyd wedi'u lleihau yn 2017 i £82 am bob AA ac mae nifer yr AAau a anfonir i'w cofrestru wedi cynyddu'n barhaus o flwyddyn i flwyddyn. Felly ychydig rydym yn ei ddeall ar hyn o bryd am raddau'r broblem hon a'r rhesymau sydd gan bobl dros ddewis oedi cyn cofrestru.

108. Yn ystod ein hymchwil ymhlith rhoddwyr ac atwrneiod, nid oeddem wedi dod ar draws unrhyw achosion lle mae rhoddwr wedi gwneud a gweithredu AA ac wedyn penderfynu peidio ag anfon yr AA i SGC i'w chofrestru. Oherwydd hyn, mae wedi bod yn anodd canfod y rhesymau posibl sydd gan ddefnyddwyr dros oedi cyn dechrau'r broses cofrestru. Yn ein harolwg o 400 o gyfreithwyr ar gyfer ein hymchwil, dywedodd 98% wrthym eu bod bob amser yn argymell cofrestru AA cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r ddogfen.[6] Yn ogystal â hyn, mewn cyfweliadau â rhanddeiliaid mewn elusennau, nid oeddem wedi canfod unrhyw dystiolaeth o oedi cyn cofrestru. Yma hefyd, y cyngor bob tro yw cofrestru'r ddogfen cyn gynted ag y bydd wedi'i gweithredu.

109. Tynnwyd sylw at un rheswm posibl dros oedi mewn ymchwil ymhlith defnyddwyr a gynhaliwyd wrth ddatblygu gwasanaeth 'Defnyddio Atwrneiaeth Arhosol' SGC. Mae rhai cyfreithwyr wedi nodi bod eu cyngor ar gofrestru wedi newid ers lansio'r gwasanaeth hwn er mwyn diogelu rhag 'trosglwyddo' pŵer i'r atwrnai'n rhy gynnar.

110. Mae'r camsyniad hwn yn parhau, sef bod cofrestru AA yn trosglwyddo pwerau i'r atwrneiod ar unwaith ac yn atal y rhoddwr rhag gwneud ei benderfyniadau ei hun. Nid yw hyn yn wir. Mae AA yn rhoi pŵer i'r atwrnai dim ond pan fydd y rhoddwr heb alluedd meddyliol, a bydd y rhoddwr yn parhau â'r gallu i wneud ei benderfyniadau ei hun cyhyd ag y bydd ganddo alluedd meddyliol i wneud hynny. Lle mae rhoddwr yn dewis caniatáu i AA arian ac eiddo roi pŵer i'r atwrnai cyn gynted ag y caiff yr AA ei

[5] Ipsos Mori (2013) The Future of Lasting Power of Attorney: A research report for the OPG. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/358560/OPG_LPA_Ipsos-MORI_Nov_13.pdf

[6] Ministry of Justice Digital & Technology (2020) Modernising Lasting Power of Attorney Solicitor Survey. Heb ei gyhoeddi.

chofrestru, tra bydd galluedd gan y rhoddwr, dim ond yn ôl cyfarwyddiadau'r rhoddwr y gall yr atwrnai weithredu.

111. Mae'r canfyddiad hwn wedi'i ategu gan ymchwil ehangach gan SGC lle'r oedd 48% o ymatebwyr ar-lein sydd ag AA iechyd a lles personol yn credu y byddai'r atwrnai'n gallu penderfynu pa bryd i ddechrau defnyddio'r AA, hyd yn oed os oedd galluedd meddyliol gan y rhoddwr.[7] Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai dim ond ar ôl colli galluedd meddyliol y gellir defnyddio AA iechyd a lles personol ac na ellir trechu'r amod hwn.

112. Lle cafwyd oedi cyn cofrestru, roedd mwy o bobl yn ein hymchwil ymhlith defnyddwyr wedi dweud bod hyn yn ganlyniad i beidio â dechrau neu orffen y broses, yn hytrach na bwriad i oedi ar ôl cwblhau'r AA. Dywedodd nifer o'r rheini sydd wedi gwneud AA yn barod eu bod wedi oedi cyn cofrestru er mwyn gohirio talu'r ffi gofrestru. Fodd bynnag, ers lleihau ffioedd AA, dim ond 2% o ymatebwyr sy'n cyfeirio at gost fel rheswm dros oedi.[8]

113. Roedd yr un ymchwil yn dangos, lle'r oedd oedi cyn cofrestru oherwydd cost, fod hyn yn gysylltiedig â phryderon y gallai fod angen i'r unigolyn newid ei AA yn ddiweddarach yn ei oes, ac y byddai ffi gofrestru i'w thalu am bob newid a wnaed.[9] Er bod hyn yn destun pryder dilys os ydych am newid eich AA yn llwyr, mae'r system eisoes yn hyblyg. Er enghraifft, os ydych yn pryderu na fydd yr atwrneiod a ddewiswyd yn gallu derbyn eu cyfrifoldebau, gallwch gynnwys atwrneiod i gymryd eu lle.

114. Yn y fan hon, mae angen nodi nad yw'r set bresennol o newidiadau i foderneiddio'r AA yn cynnwys newidiadau i wneud AAau yn ddiwygiadwy. Mae'r rhain heb eu cynnwys er mwyn gallu sicrhau'r manteision arfaethedig o gynyddu mesurau diogelu a gwella mynediad a chynaliadwyedd yn fwy cyflym. Fodd bynnag, rydym yn ystyried sut i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni hyn yn y dyfodol.

115. Er bod tystiolaeth am oedi cyn cofrestru yn gyfyngedig, mae'n werth nodi ein bod wedi canfod, yn ystod ein hymchwil ymhlith defnyddwyr, nad oedd aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud AA heb gymorth cyfreithwyr yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng llenwi'r offeryn AA (adrannau 1-11) a'r cais i gofrestru (adrannau 12-15); yn eu

[7] SGC (2021) Post Registration (Donor) Survey Responses. Heb ei gyhoeddi.

[8] Ipsos Mori (2013) The Future of Lasting Power of Attorney: A research report for the OPG. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/358560/OPG_LPA_Ipsos-MORI_Nov_13.pdf

[9] Ipsos Mori (2013) The Future of Lasting Power of Attorney: A research report for the OPG. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/358560/OPG_LPA_Ipsos-MORI_Nov_13.pdf

golwg nhw, mae'r cais am gofrestru yn rhan annatod o'r broses o wneud AA yn hytrach na'r cam cyntaf at ei chofrestru.

116. Un o'r prif resymau dros anfon AA i'w chofrestru ar unwaith yw bod hyn yn caniatáu cywiro gwallau yn y ddogfen cyn gynted â phosibl cyn i'r rhoddwr golli'r galluedd i wneud hynny. Yn ôl data mewnol SGC ar gyfer 2019/20, roedd 7.24% o AAau yn cynnwys gwallau a oedd yn eu gwneud yn amherffaith tra oedd 8.24% wedi'u gwrthod ar y sail eu bod yn annilys. Gellir cywiro'r math cyntaf a'u hailanfon i SGC. Fodd bynnag, yn achos yr ail fath, rhaid ail-wneud yr AA a thalu ffi newydd. Mae risg yn codi yn y cyswllt hwn y bydd y rhoddwr wedi colli galluedd yn y cyfamser ac na fydd felly'n gallu cywiro neu ail-greu'r AA.

117. Felly, drwy gyflwyno ffyrdd di-dor i ostwng lefel y gwallau, bydd y broses yn symlach i ddefnyddwyr a'r risg o wneud gwallau'n llai. Mae 19% o AAau a gyflwynir gan aelodau o'r cyhoedd yn cynnwys gwallau, tra bydd dim ond 6% o AAau a gyflwynir gan gyfreithwyr yn cynnwys gwallau.[10] Mae hyn yn dangos, er bod cynnwys cyfreithiwr yn y broses yn gallu gostwng lefel y gwallau, nad yw'n ddigon i warantu y bydd AA heb wallau.

118. Bydd sianeli digidol newydd i greu a chofrestru AAau yn caniatáu i ni ystyried ffyrdd posibl i awtomeiddio'r broses o wirio AAau gan barhau i ganiatáu mynediad i'r rheini na allant ddefnyddio system ddigidol. Byddai hyn yn ysgafnhau'r baich ar SGC gan roi mwy o allu i ddiogelu rhoddwyr drwy gyfuno hyn â'r cynigion ar gyfer cylch gwaith SGC yng nghynnig 3. Os gellir gwirio AAau mor gynnar â phosibl yn y broses, wrth greu'r AA o bosibl neu cyn gynted â phosibl ar ôl ei chwblhau, gallem hefyd ddarparu gwerth i ddefnyddwyr drwy roi sicrwydd iddynt am gywirdeb yr AA cyn ei hanfon i'w chofrestru. Roedd gwaith a wnaed gan SGC yn 2016 yn dangos bod modd dileu 97% o'r gwallau mewn AAau amherffaith ac annilys drwy broses cyflwyno digidol.[11]

119. Rydym yn ceisio deall beth yw'r ffordd orau i leihau a chyfyngu nifer y gwallau a wneir mewn AA cyn ei hanfon i'w chofrestru ac i roi'r atebion hyn ar waith mewn gwasanaeth newydd a fydd yn cyflymu ac yn symleiddio'r broses cofrestru i ddefnyddwyr. Rydym wedi nodi dau ddull gwahanol o weithredu.

### Dull 2a – Gweithredu'r AA yn cychwyn ei chofrestru

120. Gellid dileu'r broses ceisio sydd ei hangen i gofrestru AA, gan osod gofyniad newydd bod yr AA i gael ei hanfon i'w chofrestru cyn gynted ag y bydd wedi'i gweithredu. Byddai hyn yn cael gwared â chymhlethdod ychwanegol. Er mwyn hwyluso hyn, byddai angen awtomeiddio gwiriadau o gynnwys yr AA i'r graddau mwyaf posibl a'u cynnal ar ddechrau'r broses, gan nodi unrhyw wallau ar bwynt lle mae'n hawdd i'r

[10] SGC (2017) Understanding the LPA (datamining). Internal OPG report. Heb ei gyhoeddi.

[11] SGC (2016) Future LPAs Discovery. Heb ei gyhoeddi.

partïon eu cywiro, a dileu'r risg o ganfod gwallau'n ddiweddarach, pan fydd y rhoddwr wedi colli galluedd o bosibl.

121. Byddai anfon yr AA i'w chofrestru ar unwaith yn gymorth hefyd i ymchwiliadau SGC lle gwrthwynebwyd y cofrestru ar y sail nad oedd galluedd gan y rhoddwr i weithredu'r AA. Drwy ymchwilio i wrthwynebiadau o'r fath yn agosach at amser gweithredu'r AA, byddai'n haws casglu tystiolaeth ar gyfer y penderfyniad ac felly'n well o ran gofalu am fuddiannau'r rhoddwr. Rydym yn ystyried y broses gwrthwynebu, a'r goblygiadau o gael cyfnod byr rhwng anfon yr AA i'w chofrestru a'r cofrestriad ei hun, yng nghynigion 4 a 5 isod.

122. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw nad oes angen i roddwyr wrthod cofrestru. Mae perygl wrth ddileu'r opsiwn i bobl oedi cyn cofrestru AA y gallai hynny gael ei weld yn gam negyddol sy'n dileu elfen o ddewis, ac y bydd rhai defnyddwyr yn gohirio cwblhau eu AA er mwyn atal ei chofrestru cyn iddynt fod yn barod. Yn benodol, gallai hyn ddigwydd os oeddent yn rhag-weld newid mewn trefniadau teuluol neu drwy gamddeall y pwerau y mae'r AA yn eu rhoi. Byddai hyn yn symud y risg o golli galluedd gan y rhoddwr cyn creu ei AA fel ei bod yn codi'n gynharach yn y broses. Byddai hefyd yn galw am osod terfyn amser ar gyfer cwblhau'r AA fel yr un a geir yn yr offeryn digidol presennol, er mwyn cyfyngu'r baich o storio AAau sydd ar SGC. Yn ogystal â hyn, oherwydd ein diffyg gwybodaeth am resymau pobl dros oedi cyn cofrestru, gallem ddileu proses sydd ei hangen ar ddefnyddwyr yn anfwriadol.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

123. Byddai deddfwriaeth yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol bod AA yn cael ei hanfon i'w chofrestru cyn gynted ag y caiff ei gweithredu. Y rhoddwr fyddai'r unig un a allai gofrestru'r AA, er y byddai atwrnai neu drydydd parti'n gallu ei helpu i fynd drwy'r broses. Byddai'r cofrestriad ei hun, a'r cydsyniad ar ei gyfer, yn dod oddi wrth y rhoddwr tra bydd galluedd ganddo. Caiff yr AA ei gwirio yn ystod y broses creu a'i hychwanegu i'r gofrestr yn syth ar ôl derbyn y tâl. Yn yr un modd â'r offeryn digidol presennol, os bydd y rhoddwr yn oedi wrth greu ei AA a bod y broses yn anweithredol am gyfnod penodol, e.e. chwe mis, bydd SGC yn cysylltu â'r partïon i ofyn a ydynt yn bwriadu cwblhau'r ddogfen ac, os na cheir ymateb, byddai'n cael ei dileu. Fel arall, gallent barhau i greu'r AA i'w gwneud yn barod i'w chofrestru.

### Dull 2b – Gweithredu'n caniatáu oedi cyn cofrestru

124. Byddai'r dull hwn yn cadw'r gallu sydd gan bobl ar hyn o bryd i oedi cyn cofrestru eu AA a byddai'n ofynnol i SGC storio'r AAau a grëwyd drwy ddull digidol nes eu cyflwyno i'w cofrestru. Byddai rhoddwyr yn gallu gweithredu AA ac atal ei defnyddio'n syth, ond byddai'n ofynnol o hyd iddynt ei chofrestru o fewn cyfnod penodol a gyhoeddir. Os nad oeddent yn gwneud hynny, byddai'r AA a weithredwyd yn cael ei dileu yn unol ag amserlenni ar gyfer cadw cofnodion. Drwy weithredu fel hyn, ni fyddai SGC yn gorfod talu symiau anghynaliadwy am storio niferoedd cynyddol o

AAau heb eu cofrestru na fyddant byth, o bosibl, yn cael eu defnyddio, eu cofrestru neu'n cael talu ffioedd amdanynt.

125. Er mwyn i'r dull hwn fod yn ymarferol, byddai angen o hyd am gynnwys rhai gwiriadau syml yn y broses creu a gweithredu. Byddai'r rhain yn ymwneud â sicrhau bod y wybodaeth briodol wedi'i chynnwys yn y blychau cywir. Byddai'n rhaid cynnal gwiriadau mwy cymhleth i ddilysu gwybodaeth wedi i'r AA gael ei hanfon i'w chofrestru ac wedi i SGC gael caniatâd i weld y wybodaeth yn yr AA.

126. Byddai angen talu ffioedd wrth weithredu'r AA (yn hytrach nag wrth ei chofrestru fel y gwneir yn awr) i dalu am gostau storio, gan ei bod yn bosibl bod rhai AAau na fyddant byth yn cael eu cyflwyno i'w cofrestru. Byddai angen dull adnabod dibynadwy wrth adalw'r AA a gwneud cais am gofrestru er mwyn cadarnhau hunaniaeth y rhoddwr neu atwrnai sy'n cyrchu'r AA a'u bod wedi'u hawdurdodi i wneud cais am gofrestru'r AA. Gallai hyn ddigwydd ddegawdau ar ôl gweithredu'r AA fel y gwelir o nifer yr ABau y mae SGC yn parhau i'w cael (40-50 y diwrnod ar hyn o bryd) er iddynt gael eu dirwyn i ben yn 2007. Mae hyn yn golygu hefyd y byddai angen i SGC gael pŵer i ddileu AA a oedd wedi'i gweithredu ond heb gael ei chofrestru o fewn cyfnod penodol e.e. 6 mis.

127. Yn ogystal â hyn, heb gael y caniatâd drwy'r broses cofrestru i weld y data yn yr AA, prin fyddai'r gallu sydd gan SGC i gynnal gwiriadau mwy manwl ar y ddogfen. Felly byddai'r dull hwn o weithredu'n gallu arwain o hyd at sefyllfaoedd lle mae AA yn cael ei hanfon i'w chofrestru ar ôl i'r rhoddwr golli galluedd a bod gwallau yn dod i'r golwg fel na ellir ei chofrestru, na ellir gwneud AA newydd, a bod angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod. Po fyrraf fydd y cyfnod rhwng gweithredu a chofrestru, lleiaf fydd y risg i hyn ddigwydd.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

128. Ar ôl cwblhau'r AA, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn caniatáu i'r rhoddwr a'r atwrnai storio'r AA yn ddigidol cyn ei chofrestru. Rhaid cymryd tâl ymlaen llaw i dalu am y costau storio sy'n dod i ran SGC a gallai hyn gynnwys cyfran o unrhyw ffi am gais i gofrestru yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod y mae AA yn cael ei storio gan SGC, byddai gwiriadau'n cael eu gwneud i sicrhau na fyddai gwallau ynddi os oedd yn cael ei chofrestru'n bell iawn yn y dyfodol. Pan fyddai angen ei chofrestru, byddai'r rhoddwr neu atwrnai yn chwilio am yr AA drwy wefan GOV.UK a byddai'n rhaid iddo gwblhau gwiriad hunaniaeth cadarn er mwyn adalw'r data a chadarnhau ei rôl er mwyn mynd ati i'w chofrestru. Hyd at y pwynt hwnnw, byddai'r atwrneiaeth yn un a oedd wedi'i chwblhau, ond ni ellid ei defnyddio nes ei bod wedi'i chofrestru.

129. **Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y dull a ffefrir gan y Llywodraeth yw 2a.** Oherwydd nifer yr AAau y ceir eu bod yn amherffaith neu'n annilys, byddai gwiriadau cynnar a gofyniad am eu cyflwyno'n syth i'w cofrestru yn

galluogi SGC i leihau'n sylweddol nifer yr AAau y mae'n gorfod eu dychwelyd, fel y byddai llai o faich ar roddwyr ac atwrneiod a llai o risg na fydd y rhoddwr yn gallu gwneud un yn ei lle o ganlyniad i golli galluedd. Oherwydd y cyfyngiadau ymarferol a fyddai'n codi drwy greu system sy'n caniatáu storio AAau am gyfnod hir ar ffurf ddigidol, mae hyn yn annerbyniol gan nad ydym yn credu ei bod yn briodol dileu AA sydd wedi'i gweithredu, i bob pwrpas, ac sy'n ddilys heblaw am y ffaith nad yw wedi'i chofrestru. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod yr AA yn gytundeb preifat rhwng unigolion preifat ac mai priod rôl SGC yw gweithredu fel corff cofrestru gweinyddol.

**Cwestiynau**

2. A fyddech chi, neu'r bobl rydych yn eu cynorthwyo, yn oedi cyn cofrestru AA? Rhowch y rhesymau dros eich atebion.

   **Na fyddwn**
   - Ddim yn gweld mantais mewn oedi cyn cofrestru.
   - Wedi cael fy nghynghori i beidio ag oedi cyn cofrestru.
   - Angen cael AA cyn gynted â phosibl o ganlyniad i ddiagnosis gan feddyg
   - Angen cael AA cyn gynted â phosibl am fod angen gwneud penderfyniad ariannol penodol
   - Rheswm arall (noder)

   **Byddwn**
   - Ddim am dalu'r ffi eto
   - Yn methu â thalu'r ffi ar unwaith
   - Ddim am drosglwyddo pŵer i'r atwrnai ar unwaith
   - Efallai y byddaf am newid yr AA
   - Wedi creu AA ar ôl cael diagnosis gan feddyg ac rwyf yn aros yn nes at yr amser
   - Rheswm arall (noder)

3. Beth fyddai'r effaith o ddileu'r gallu i oedi cyn cofrestru? Rhowch resymau dros eich ateb
   - Cadarnhaol
   - Negyddol
   - Ddim yn gwybod

## Cynnig 3: Cylch gwaith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

130. O dan y cynnig hwn, rydym yn ystyried ffyrdd i ehangu pwerau SGC mewn deddfwriaeth er mwyn egluro pa wiriadau y mae'n gallu eu cynnal ar AA a pha gamau y gall eu cymryd i atal neu ohirio cofrestru heblaw o dan gyfarwyddyd y Llys Gwarchod lle mae'r gwiriadau hynny'n dangos canlyniad negyddol neu amhendant. Yn benodol, rydym am ystyried ei gallu i wirio AA i ddibenion heblaw rhai gweinyddol. Byddai hyn yn helpu i atal twyll, camddefnydd a phwysau amhriodol, yn cynnwys cyflwyno dulliau o wirio hunaniaeth y partïon i'r AA. Byddwn yn ystyried dulliau wedi'u seilio ar wiriadau amodol penodol a phwerau disgresiynol. Mae'r ddau opsiwn yn cynnwys dulliau gwirio hunaniaeth.

**Y broses bresennol**

131. Mae swyddogaethau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi'u pennu yn adran 58 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Ar gyfer AA, mae SGC yn gweithredu fel corff gweinyddol ac mae'n gyfrifol am sefydlu a chynnal cofrestr o'r atwrneiaethau arhosol. O dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, mae ganddo bwerau cyfyngedig i atal neu roi pen ar eu cofrestru os nad yw AA yn cydymffurfio ag Atodlen 1 i DGM ond mae'n dibynnu'n bennaf ar drydydd partïon i godi pryderon am gynnwys AA neu'r broses o'i chreu. Er bod SGC yn gwirio AAau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn glir o ran ei gallu i wirio cywirdeb y wybodaeth y mae'n ei chael.

**Tystiolaeth**

132. Ychydig o ddealltwriaeth sydd o swyddogaethau SGC ymysg y cyhoedd a rhanddeiliaid. Er enghraifft, roedd 50% o'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr wedi rhoi ateb anghywir neu amhendant pan ofynnwyd iddynt egluro swyddogaeth SGC a dim ond 3% a oedd yn ei deall yn llwyr.[12] Gwelir camsyniadau wrth drafod y rôl sydd gan SGC mewn AAau. Er enghraifft, mae ymchwil wedi dangos bod nifer mawr o randdeiliaid a defnyddwyr yn camgymryd bod gwiriadau am gywirdeb neu hunaniaeth yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae rhai defnyddwyr hyd yn oed yn 'cofio' darparu prawf o bwy oeddent yn ystod y broses o wneud eu AA, er nad yw hyn erioed wedi bod yn rhan o'r broses creu neu gofrestru.

133. Mae dau gafeat ar hyn:
    i. ein bod yn darparu rhestr gynhwysol o opsiynau gwirio
    ii. ein bod yn caniatáu cynnal gwiriadau ar-lein neu all-lein

134. Ar hyn o bryd, mae pob cyfreithiwr yn gorfod gwirio hunaniaeth ei gleient o dan ofynion y proffesiwn. Felly, mae'r rhoddwyr hynny sy'n caffael gwasanaethau

[12] SGC (2020). Lasting Power of Attorney Public Awareness and Understanding in England and Wales. Internal OPG report. Heb ei gyhoeddi.

cyfreithiwr eisoes yn gorfod darparu dogfennau i gadarnhau pwy ydynt, a phrawf o'u cyfeiriad mewn rhai achosion.

135. Nid yw hynny'n wir am weithredwyr eraill yr AA. Yn ein harolwg o gyfreithwyr, cafwyd mai dim ond 11% sy'n gwirio hunaniaeth atwrneiod, ac mae llai ohonynt yn gwirio hunaniaeth gweithredwyr eraill yr AA.[13] Yn ystod ein hymchwil ymhlith defnyddwyr, nid oeddem wedi canfod diffyg cymeradwyaeth ar ran atwrneiod y siaradwyd â nhw ar y mater o ddarparu prawf adnabod ganddynt.

136. Mae defnyddwyr a rhanddeiliaid wedi mynegi awydd am weld gwiriadau'n cael eu cynnal ar weithredwyr sy'n gysylltiedig â phroses ceisio'r AA er mwyn diogelu'r rhoddwr. Er mwyn cynnal mwy o wiriadau ar AAau, byddem am ddiwygio deddfwriaeth sy'n rheoli swyddogaethau SGC er mwyn rhoi pwerau cymesur iddi i sicrhau cywirdeb y wybodaeth y mae'n ei chofrestru. Byddai bwriad hefyd wrth wneud hyn i egluro cwmpas pwerau SGC, yn cynnwys ei gallu i gynnal gwiriadau adnabod ac atal cofrestru lle nad yw'r canlyniadau'n gyson â gofynion y ddeddfwriaeth.

137. Os mai dim ond ar gyfer AAau newydd y byddai gwiriadau adnabod yn cael eu cyflwyno ar ôl moderneiddio'r gwasanaeth, gallai hynny adael bylchau i dwyllwyr gael gafael ar ffurflenni o'r gorffennol a chreu AAau ffug. Er mwyn cau'r bwlch hwn, gan barhau i ganiatáu cofrestru AAau o'r gorffennol, byddai angen ystyried ffyrdd i ddarparu proses ceisio well ar gyfer hen AAau. Byddai hyn yn caniatáu anfon AAau a weithredwyd eisoes i SGC i'w cofrestru gan gymhwyso gwiriadau adnabod newydd at broses y cais am gofrestru AA. Y bwriad fyddai cydasio'r broses hon â'r system fodern newydd i'r graddau mwyaf posibl fel bod cwsmeriaid hŷn hefyd yn gallu cael budd o fanteision ychwanegol y system newydd ar gyfer AAau.

138. Heblaw am wirio hunaniaeth, mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y gellid ehangu pwerau ymhellach ar gyfer asesu addasrwydd yr atwrnai a benodwyd. Byddai hyn yn gallu cynnwys cyfyngu'r gallu i benodi person sydd wedi camddefnyddio atwrneiaeth neu wedi cael euogfarn am gam-drin rhywun agored i niwed. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod proses briodol i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cofrestru AA.

139. Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer y deiliaid AA byw yn cynyddu wrth i'r disgwyliad oes gynyddu. Yr amcangyfrif o'r modelu gan SGC yw bod 3 miliwn o ddeiliaid AA byw ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu i 4.5 miliwn erbyn 2025. O ganlyniad i hyn, mae'n debygol y bydd galw cynyddol am wasanaethau ôl-gofrestru SGC, fel ymchwiliadau, dros y blynyddoedd nesaf i adlewyrchu'r newid hwn. Os gallwn gynnal gwiriadau ymlaen llaw a'u hawtomeiddio

[13] Ministry of Justice Digital & Technology (2020) Modernising Lasting Power of Attorney Solicitor Survey. Heb ei gyhoeddi.

(fel y mae cynnig 2 yn amlinellu) i weld a yw'r AA yn cydymffurfio â gofynion DGM, yna gallai hyn sicrhau bod SGC yn gallu canolbwyntio ei hadnoddau'n well ar ymchwiliadau a fyddai'n galw am ystyriaeth fwy manwl i'r dystiolaeth, fel pryderon am alluedd neu gam-drin, wrth i nifer y pryderon hynny gynyddu.

140. Bwriad y pwerau a gwiriadau hyn yw ei gwneud yn llai tebygol y bydd AA dwyllodrus neu un a grëwyd o dan bwysau amhriodol yn cael ei chofrestru, a meithrin mwy o hyder yn y mesurau diogelu a ddarperir gan SGC. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw'n bosibl dileu'r achosion o dwyll a cham-drin yn llwyr, a bydd cyflawnwyr penderfynol yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd i osgoi'r mesurau diogelu a sefydlir. Ar gyfer yr achosion hynny, bydd rôl gan SGC o hyd wrth ymchwilio i'r camddefnydd o AAau cofrestredig a dod â phryderon i sylw'r Llys Gwarchod fel y bo angen. Gellid dilyn dau lwybr gwahanol i addasu swyddogaethau SGC yn rhan o'r sianel ddigidol newydd.

**Dull 3a – Cofrestru amodol**

141. Byddai cylch gwaith SGC yn cael ei ehangu fel bod modd cofrestru, wrth wrthod, AA yn ôl y canlyniad i set newydd o wiriadau rhagnodedig yn ystod y broses creu a chofrestru, yn cynnwys gwiriadau adnabod ac, o bosibl, y gallu i gyfyngu pwy a gaiff fod yn atwrnai ar sail euogfarnau perthnasol blaenorol. Ni fyddai SGC yn cofrestru AA a oedd heb fodloni'r gwiriadau hyn oni bai fod y Llys Gwarchod yn ei chyfarwyddo i wneud hynny. Byddai nifer o'r gwiriadau hyn yn awtomatig ac felly'n fwy effeithlon a chyson ar gyfer SGC. Byddai cofrestru'n cael ei warantu i ddefnyddwyr wedi iddynt fodloni gwiriadau penodol a fydd wedi'u pennu mewn rheoliadau, ond byddai SGC yn gallu gwrthod cofrestru os nad oedd modd gwirio'r wybodaeth sydd yn yr AA neu os nad oedd yn bodloni'r gwiriadau gofynnol. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai'r rhoddwr neu atwrnai'n gallu gwneud cais i'r Llys Gwarchod, fel y gallant wneud yn awr, i'w AA gael ei chydnabod yn un ddilys a'i rhoi ar y gofrestr.

142. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw bod modd pennu a rhagnodi set o wiriadau mewn deddfwriaeth a fydd, o'u bodloni, un ai'n unigol neu mewn grwpiau, yn cynnig y sicrwydd angenrheidiol bod AA wedi'i gwneud mewn ffordd ddilys gan y partïon cysylltiedig. Byddai hyn yn cynnwys gwiriadau adnabod a fyddai'n gyson â chanllawiau presennol llywodraeth, a elwir yn "Good Practice Guide 45",[14] sydd hefyd wedi'u cynnwys yn fframwaith ymddiried drafft y DU ar gyfer hunaniaeth a phriodoleddau digidol.[15] Bwriad sylfaenol gwiriadau o'r fath fyddai darparu amddiffyniad ychwanegol i roddwyr drwy wirio mai nhw oedd wedi cydsynio i'r AA,

---

[14] Swyddfa'r Cabinet a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (2014) How to Prove and Verify Someone's Identity. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/identity-proofing-and-verification-of-an-individual

[15] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Matt Warman AS (2021) The UK Digital Identity and Attributes Trust Framework. Ar gael yn: Lle nad oedd AA yn bodloni unrhyw un o'r gwiriadau gofynnol, byddai pŵer gan SGC i wrthod ei chofrestru.

mwy o hyder yn nilysrwydd yr AA i drydydd partïon ac atal twyll, camddefnydd a phwysau amhriodol.

143. Lle nad oedd AA yn gallu pasio unrhyw un o'r gwiriadau gofynnol, byddai gan SGC y pŵer i wrthod cofrestru. Mae hyn yn creu risg y gallai Atwrneiaethau Parhaol cyfreithlon gael eu gwrthod os yw'r gwiriadau'n rhy llym. Fodd bynnag, pe byddai'r gwiriadau'n rhy wan, gellid cofrestru nifer annerbyniol o AAau camdriniol neu dwyllodrus, fel y byddai rhoddwyr agored i niwed yn gallu wynebu camdriniaeth gan gynyddu'r baich ar dîm ymchwiliadau SGC a'r Llys Gwarchod.

144. Byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd yn y gwiriadau rhagnodedig hefyd er mwyn gallu mabwysiadu newidiadau yn y system yn y dyfodol i sicrhau bod modd uwchraddio'r gwiriadau gan SGC wrth i'r arferion gorau newid, yn enwedig o ran gwirio hunaniaeth.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

145. Bydd y rhoddwr yn defnyddio darparwr hunaniaeth presennol neu un sydd wedi'i greu, fel Porth Llywodraeth CThEM, i gael mynediad at y gwasanaeth AA. Os na fydd yn bodloni'r gwiriadau adnabod sydd eu hangen ar gyfer y broses ar-lein drwy roi sicrwydd digonol, gallai fod angen iddo brofi ei hunaniaeth drwy gyfweliad wyneb yn wyneb â thrydydd parti a allai warantu ei hunaniaeth, yn debyg i'r gwasanaeth a gynigir gan y Swyddfa Bost ar gyfer pasbortau. Heb fodloni'r gwiriadau hyn, ni allai gyflwyno ei gais i SGC. Ni ellid cofrestru AA oni bai fod y rhoddwr wedi bodloni'r gwiriadau awtomatig neu bersonol.

**Dull 3b – Cofrestru disgresiynol**

146. Byddai cylch gwaith SGC yn cael ei ehangu fel bod modd cofrestru, neu wrthod, AA yn ôl a oedd SGC o'r farn bod yr AA o dan drothwy risg diogel. Byddai hyn yn cynnwys gwirio hunaniaeth. Byddai'r sgoriau o wiriadau newydd ar AAau gan SGC yn cael eu hadio i bennu sgôr risg ar gyfer yr AA. Byddai trothwy risg yn cael ei bennu mewn deddfwriaeth: ni ellid cofrestru AA os oedd yn is na'r trothwy hwnnw. Byddai ceisiadau sydd o fewn lefel goddefiant ddiffiniedig yn cael eu hadolygu gan weithwyr achos a'u cymeradwyo neu eu gwrthod yn ôl eu disgresiwn.

147. Byddai dull disgresiynol o gofrestru yn rhoi mwy o allu i SGC i ystyried amgylchiadau unigryw pob rhoddwr, ei AA a'r wybodaeth sydd ar gael iddi i fodloni'r gwiriadau gofynnol. Mae hyn yn lliniaru'r perygl i wiriadau fod yn rhy gaeth neu wan. Byddai hyn yn caniatáu i SGC gofrestru AAau sydd heb gyrraedd y trothwy ar gyfer cofrestru awtomatig ond y gellir dangos eu bod yn ddilys.

148. Er mwyn mabwysiadu'r dull hwn o weithredu, byddai angen iddi fod yn hawdd adnabod achosion uchel eu risg. Byddem yn rhoi prawf ar hyn drwy ragor o waith casglu tystiolaeth a datblygu. Fodd bynnag, mae risgiau sylweddol posibl ynglŷn â'r dull hwn, yn yr un modd â phob system ddisgresiynol. Byddai'n agored i effaith tuedd

ac anghysonderau unigolion, hyd yn oed lle'r oedd rheolau a chanllawiau caeth wedi'u gosod. Gallai hyn arwain yn ei dro at gynnydd yn nifer y ceisiadau a'r apelau i'r Llys Gwarchod gan amddifadu pobl o amddiffyniad yr AA. Mae hefyd yn bosibl y byddai SGC yn wynebu mwy o atebolrwydd, mewn perthynas â gwahaniaethu neu os barnwyd ei bod wedi cofrestru AA dwyllodrus neu gamdriniol drwy gamgymeriad. Gallai hyn danseilio ei chynaliadwyedd a'i gallu i gyflawni ei dyletswyddau'n effeithiol. Byddai system sy'n diogelu rhag y risg hon yn debygol o ddod yn system o wiriadau amodol fel yr hyn sydd wedi'i amlinellu yn 3a, ond yn llawer mwy cymhleth o bosibl.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

149. Byddai cyfres o wiriadau cymesur yn cael eu cynnal drwy gydol y broses ceisio a'u sgoriau'n cael eu hadio i roi sgôr gyfunol am risg ar gyfer y rhoddwr a fyddai'n pennu a oedd modd cofrestru ei AA.

150. Er mwyn lleihau'r ffactor risg cyffredinol ar ei gyfer a meithrin ymddiriedaeth, byddai'r rhoddwr yn gallu:
- dilysu ei adroddiad drwy ddilysu aml-ffactor, drwy gyflwyno dwy neu ragor o eitemau o dystiolaeth (rhywbeth y mae'n ei wybod, rhywbeth sydd ganddo, rhywbeth sy'n wir amdano) i'w ddiogelu rhag ymdrechion gan eraill i gael gafael ar ei ddata
- cyflawni prawf ei fod yn fyw, er mwyn dadansoddi lluniau neu fideos a phenderfynu ai person go iawn neu un ffug sydd wedi'u rhoi (yn debyg i'r broses bresennol i wneud cais am basbort)
- cynnwys pobl i'w hysbysu yn ei gais
- cael cymorth i fynd drwy'r broses gan ganolwr achrededig neu benodi mwy nag un atwrnai
- cael gwirio ei hunaniaeth wrth dalu drwy wirio ei fanylion fel daliwr cerdyn drwy'r system Open Banking

151. Os bydd rhoddwr yn teimlo bod ei gais am gofrestru wedi'i wrthod ar sail annheg, gall gyflwyno apêl i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus lle byddai ei gais yn cael ei adolygu gan staff gweithredol uwch neu banel annibynnol.

152. **Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y dull a ffefrir gan y Llywodraeth yw 3a.** Byddai cofrestru amodol yn rhoi eglurder i bawb sy'n gysylltiedig ar y gwiriadau penodol a gyflawnwyd gan SGC a sut roedd y rhain wedi cyfrannu i'r penderfyniad ar gofrestru'r AA. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y ceisydd yn gwybod beth sydd angen ei wneud a pha wybodaeth y mae angen ei darparu cyn cofrestru ei AA. Byddai'n ofynnol i bob unigolyn fodloni'r un gwiriadau i gofrestru ei AA. Rydym yn pryderu y byddai gwiriadau disgresiynol yn gallu arwain at ganlyniadau anghyson i unigolion. Ein bwriad fyddai creu system amodol, gymesur sy'n caniatáu darparu gwiriadau a gwybodaeth o lawer math. Wrth wneud hynny, byddem yn ceisio cynnwys dulliau gwirio ar gyfer y rheini na fyddent yn gallu darparu

pasbort neu drwydded yrru, er enghraifft, a sicrhau bod costau'n parhau'n fforddiadwy i'r rheini sy'n creu AA.

**Cwestiynau**

4. Pa weithredwyr yn yr AA y dylid gwirio eu hunaniaeth? Rhowch resymau dros eich atebion:
   - Rhoddwr
   - Atwrnai
   - Darparwr Tystysgrif
   - Ddim yn gwybod
   - Arall (rhowch fanylion)

5. Beth yw'ch barn chi am y cynigion sydd wedi'u hamlinellu? Rhowch resymau dros eich ymatebion:

   **Gwiriadau amodol (dull 3a)**
   - Cadarnhaol
   - Cadarnhaol gan mwyaf
   - Niwtral
   - Negyddol gan mwyaf
   - Negyddol
   - Ddim yn gwybod

   - Cadarnhaol
   - Cadarnhaol gan mwyaf
   - Niwtral
   - Negyddol gan mwyaf
   - Negyddol
   - Ddim yn gwybod

# Cynnig 4: Sut mae gwrthwynebu

153. O dan y cynnig hwn, rydym yn ystyried sut i egluro a symleiddio'r prosesau presennol ar gyfer gwrthwynebu cofrestru AA. Mae'r broses hon yn caniatáu i bobl godi gwrthwynebiad i gofrestru AA os ydynt yn pryderu ynghylch ei chynnwys neu sut y cafodd ei chreu. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu prosesau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o wrthwynebiad. Rydym yn ceisio deall sut i'w gwneud yn haws i bobl godi gwrthwynebiad os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Y broses bresennol**

154. Mae prosesau gwrthwynebu'n cael eu rheoli gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a Rheoliadau Atwrneiaethau Arhosol, Atwrneiaethau Parhaus a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus 2007. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn delio'n benodol â gwrthwynebiadau a wneir gan roddwyr, atwrneiod a phersonau eraill a enwyd yn unig. Personau a enwyd yw'r rheini y mae'r rhoddwr wedi'u rhestru yn ei AA fel rhai i'w hysbysu cyn cofrestru'r AA. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gwahanol lwybrau gwrthwynebu yn ôl natur y gwrthwynebiad.

155. Gellir gwrthwynebu ar y sail:
    - un ai nad oedd yr AA erioed wedi cael ei gweithredu'n gyfreithiol yn y lle cyntaf, er enghraifft, am nad oedd galluedd gan y rhoddwr i'w chreu neu am fod pwysau amhriodol wedi'i roi arno. Gelwir hyn yn wrthwynebiad rhagnodedig, neu
    - er bod yr AA wedi'i gweithredu'n gyfreithiol, ei bod wedi peidio â rhoi pŵer, er enghraifft oherwydd marwolaeth y rhoddwr neu fethdaliad atwrnai. Gelwir hyn yn wrthwynebiad ffeithiol.

156. Mae rôl SGC yn amrywio ychydig yn ôl pwy yw'r gwrthwynebydd a natur y gwrthwynebiad, ond cynllun cyffredinol y ddeddfwriaeth yw bod rhaid i SGC beidio â chofrestru'r AA os cafwyd gwrthwynebiad gan roddwr, atwrnai neu berson arall a enwyd oni bai fod y Llys yn ei chyfarwyddo i wneud hynny. Y rheswm am hyn yw, er mai SGC sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr o AAau gweithredol, mai'r Llys Gwarchod sy'n gyfrifol am ddatrys anghydfodau ynghylch AAau. Gellir gwneud ceisiadau i'r Llys un ai gan y parti sy'n gwrthwynebu, neu gan y parti sy'n dymuno cofrestru, yn ôl y math o wrthwynebiad.

157. Mae SGC yn cael gwrthwynebiadau i gofrestru hefyd gan (drydydd) partïon eraill – gan amlaf gan aelodau o'r teulu a oedd heb eu hysbysu am yr AA ac Awdurdodau Lleol. Os yw gwrthwynebiadau o'r fath yn darparu tystiolaeth i SGC nad yw AA wedi'i gwneud yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth – er enghraifft, am nad oedd galluedd gan y rhoddwr ar adeg gweithredu'r AA – bydd SGC wedi'i gwahardd rhag ei chofrestru oni bai fod y Llys yn ei chyfarwyddo i wneud hynny. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi pwy a ddylai wneud cais i'r Llys yn yr amgylchiadau hyn, felly mae diffyg eglurder yn hyn o beth i SGC ac i wrthwynebwyr dichonol.

158. Mae mesurau diogelu wedi'u cynnwys yn y broses hysbysu a gwrthwynebu, yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â honiadau am weithredu twyllodrus, neu roi pwysau amhriodol ar y rhoddwr, felly mae'n bwysig bod y broses yn ddigon hawdd ei deall er mwyn peidio â rhwystro gwrthwynebiadau dilys rhag cael eu codi. Ar hyn o bryd, mae'r fframwaith deddfwriaethol yn gymharol gymhleth ac nid yw'n dangos yn glir y broses gwrthwynebu ar gyfer yr holl wrthwynebwyr dichonol. Gall rhai gwrthwynebwyr dichonol fod yn ansicr ynghylch a allant ymyrryd ac, os gallant, sut i fynd ynghylch hynny. Gallai hyn beri bod rhoddwyr yn wynebu risg o gael eu cam-drin ar ôl cofrestru AA.

**Tystiolaeth**

159. Y bwriad wrth ganiatáu i roddwyr gynnwys pobl i'w hysbysu yn eu AA oedd darparu mesur diogelu pwysig oherwydd byddai'r rhain yn bobl a ddewiswyd gan y rhoddwr a allai fod yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau a allai annilysu AA neu beri pryder ynghylch ei chreu. Felly, mae cyfeiriad penodol atynt yn y ddeddfwriaeth fel rhai sy'n gallu codi gwrthwynebiad. Fodd bynnag, yn 2017, roedd 83% o AAau heb gynnwys pobl i'w hysbysu[16] ac mae ymchwil ymhlith defnyddwyr wedi dangos bod rhai pobl yn ansicr ynghylch pwrpas cynnwys pobl i'w hysbysu mewn AA.

160. Yn ein harolwg o gyfreithwyr, dywedodd mwyafrif llethol ohonynt nad oes nemor ddim gwerth mewn cynnwys pobl i'w hysbysu ac, am nad yw bellach yn orfodol, nad ydynt yn argymell eu cynnwys Roedd hyn yn wir hefyd am nifer o'r rhanddeiliaid mewn elusennau y siaradwyd â nhw; dywedodd nifer ohonynt wrthym fod eu cleientiaid yn dewis peidio â hysbysu unrhyw unigolion a'u bod yn annhebygol o argymell hynny. Mae rhai cyfreithwyr wedi dweud wrthym fod y ddarpariaeth ar gyfer hysbysu pobl yn gallu bod yn fesur diogelu os nad yw'r rhoddwr yn dymuno cofrestru ei AA ar unwaith ar ôl ei chwblhau.

161. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos bod cyfyngiadau ar rwydwaith cymdeithasol y rhoddwr ac ynysigrwydd cymdeithasol yn gallu ei gwneud yn llai tebygol y bydd ganddo bartïon ychwanegol i'w hysbysu wrth gofrestru. Yr anhawster a wynebir gan rai pobl wrth ddod o hyd i bobl i'w hysbysu neu i fod yn ail ddarparwr tystysgrif oedd y rheswm dros ddileu'r gofyniad am gael dau ddarparwr tystysgrif rhag ofn nad oedd pobl i'w hysbysu.

162. Mae ymchwil ymhlith defnyddwyr a dulliau ymchwil digidol yn dangos bod pobl, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, am gael llwybr symlach a chliriach ar gyfer codi pryderon. Mae cydnabyddiaeth hefyd fod y darparwr tystysgrif mewn lle unigryw fel un a fydd yn ymwybodol o unrhyw seiliau dilys dros wrthwynebu ond nad oes sail statudol benodol ganddo dros godi pryderon gyda SGC. Gellid dweud yr un peth am

[16] SGC (2017) Understanding the LPA (datamining). Internal OPG report. Heb ei gyhoeddi.

sefydliadau fel Awdurdodau Lleol sy'n debygol o fod â gwybodaeth berthnasol am geisiadau am AA oherwydd eu dyletswydd diogelu statudol.

163. Mae gwybodaeth gan drydydd partïon fel y rhain yn werthfawr i SGC ac mae'n debygol y byddai camau i egluro'r broses ar gyfer codi pryderon dilys gan drydydd partïon yn helpu i atal twyll a cham-drin. Yn 2019/2020, o blith 3,093 o ymchwiliadau (yn cynnwys pryderon ar ôl cofrestru), roedd 227 wedi'u cynnal yn dilyn gwrthwynebiadau a godwyd gan drydydd partïon. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â phryder nad oedd galluedd meddyliol gan y rhoddwr i wneud yr AA. Cyfeiriwyd mwy na 50% (115) o'r gwrthwynebiadau hyn i'r Llys Gwarchod. Rydym hefyd yn ymwybodol bod 48 o'r 227 o wrthwynebiadau hynny wedi dod oddi wrth Awdurdodau Lleol.

164. Fel y nodwyd, mae dyletswydd diogelu statudol gan Awdurdodau Lleol, felly mae'n bwysig bod SGC yn gallu gweld yn glir pa bwerau sydd ganddi i ymchwilio a gweithredu ar bryderon a godir ganddyn nhw a sefydliadau trydydd parti eraill sydd â chyfrifoldebau tebyg. Er bod nifer y gwrthwynebwyr hyn yn fach, mae'r wybodaeth a ddarperir ganddynt yn bwysig o ran diogelu buddiannau rhai o'r rhoddwyr mwyaf agored i niwed ac felly mae gwybodaeth gan drydydd partïon fel y rhain yn werthfawr i SGC.

165. Mae tystiolaeth bod rhai gwrthwynebwyr mewn dryswch o bosibl ynghylch ble i gyfeirio eu pryderon yn y lle cyntaf. Er bod canllawiau ar wefan GOV.UK sy'n dweud bod gwrthwynebiadau rhagnodedig i gael eu cyfeirio i'r Llys Gwarchod, dim ond 47 o geisiadau a gafodd y Llys ynghylch gwrthwynebiad i gofrestru AA ym mlwyddyn galendr 2020, o'i gymharu â'r 227 a gafwyd (gan drydydd partïon yn unig) yn 2019/20.[17] Elfen sy'n ychwanegu at y dryswch yw ei bod yn aml yn digwydd, pan fydd y Llys yn cael cais am wrthwynebu, ei fod wedyn yn cyfarwyddo SGC i ymchwilio i'r honiad. Os byddai modd sicrhau proses gliriach ar gyfer codi gwrthwynebiadau gan bartïon o bob math pan fydd ganddynt bryder dilys, mae'n debygol y byddai hynny yn gymorth i atal twyll a cham-drin.

166. Yn y gwasanaeth newydd, byddwn am sicrhau bod y rhoddwr yn cael ei ddiogelu rhag twyll a cham-drin drwy ddarparu proses symlach a chliriach fel y bydd pawb sydd â phryderon dilys yn gallu codi gwrthwynebiad i gofrestru AA.

### Dull 4a – SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau

167. Byddai'r holl wrthwynebiadau o bob math, gan bob math o barti, yn cael eu hanfon i SGC. Byddai SGC yn gallu adolygu ac ymchwilio i wrthwynebiadau a godwyd gan unrhyw un er mwyn canfod a oedd ganddo bryder dilys am gofrestru AA.

[17] Nid ydym wedi gallu cael data gan y Llys Gwarchod ar gyfer 2019/20.

168. Drwy newid y ddeddfwriaeth sylfaenol fel mai SGC fydd yr unig sefydliad y bydd rhywun yn mynd ato i godi gwrthwynebiad, a'i hysbysebu ar y sail honno, bydd yn haws i'r rheini sydd â phryder gael gwybod ble i fynd a beth i'w wneud nesaf. Drwy ehangu'r grŵp sy'n gallu gwrthwynebu, sicrheir bod modd codi pob pryder dilys. Yn ogystal â hyn, gellid ymchwilio i'r gŵyn yn gynharach yn y broses a byddai'n barod os oedd angen i'r Llys wneud penderfyniad, yn hytrach nag achosi oedi pellach.

169. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw y bydd pŵer gan SGC i adolygu ac ymchwilio i'r holl wrthwynebiadau pan godir nhw gyntaf, hyd yn oed y rheini sy'n cael eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r Llys Gwarchod ar hyn o bryd. Bydd angen i SGC allu ymdrin â mwy o wrthwynebiadau, gan y bydd y rheini a gyfeirir i'r Llys ar hyn o bryd yn dod yn syth i SGC, a gallu eu cyfeirio'n unol â hynny. Byddai angen ffordd rwydd i rannu unrhyw wybodaeth a gasglwyd rhwng SGC a'r Llys Gwarchod. Hyd yn oed o gael dull symlach o weithredu fel hyn, mae perygl y bydd rhai pobl â phryderon dilys yn anymwybodol o'r ffordd i godi gwrthwynebiad neu'n anymwybodol bod AA yn cael ei gwneud.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

170. Mae rhywun yn cael gwybod bod rhoddwr yn cael ei orfodi i wneud AA ac mae'n cael ei gyfeirio i wefan GOV.UK i godi gwrthwynebiad. Mae'r wefan yn gofyn iddo fewnbynnu gwybodaeth syml am y rhoddwr ac amdano'i hun ac mae'n ei helpu i ddewis o restr o resymau dros wrthwynebu. Mae'n gofyn iddo gyflwyno datganiad am y rhesymau dros ei wrthwynebiad yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth sydd ganddo. Mae SGC yn cael y gwrthwynebiad ac yn ei frysbennu ar gyfer ymchwilio ar sail pwysau amhriodol. Mae'r broses o gofrestru'r AA yn cael ei hatal ac mae SGC yn cychwyn ymchwiliad i gasglu rhagor o dystiolaeth. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, os yw'n ymddangos i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fod cyfiawnhad dros y gwrthwynebiad, bydd SGC yn gwrthod cofrestru'r AA. Mae'n bosibl y byddai SGC yn gwneud cais i'r Llys wedyn i wneud penderfyniad mewn achos o'r fath ond, beth bynnag a ddigwyddai, byddai unrhyw barti sy'n anfodlon ar y canlyniad yn gallu gwneud cais i'r Llys.

**Dull 4b – SGC yn cael gwrthwynebiadau ffeithiol yn unig**

171. Byddai unrhyw un sydd am fynegi pryder yn gallu codi gwrthwynebiad. Fodd bynnag, byddai angen iddo gyfeirio'r gwrthwynebiad yn uniongyrchol i SGC neu i'r Llys Gwarchod, yn ôl natur ei wrthwynebiad. Byddai gwrthwynebiadau ffeithiol yn mynd i SGC a byddai gwrthwynebiadau rhagnodedig yn mynd i'r Llys Gwarchod. Ni fyddai SGC yn adolygu nac yn ymchwilio i wrthwynebiadau rhagnodedig, oni bai fod y Llys yn ei chyfarwyddo i wneud hynny. Os byddai gwrthwynebiad rhagnodedig yn cael ei anfon i SGC drwy gamgymeriad, byddai'n cyfarwyddo'r gwrthwynebydd i wneud cais i'r Llys yn lle hynny.

172. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw y gallwn wella'r canllawiau a'r dull cyfeirio er mwyn dileu'r dryswch presennol a sicrhau bod pobl yn gwrthwynebu yn y lle cywir. Mae perygl o oedi cyn delio â gwrthwynebiadau os ydynt yn cael eu camgyfeirio ar y dechrau. Mae perygl hefyd y gallai hyn adael atwrneiod heb bŵer i weithredu ar ran y rhoddwr os yw hyn yn achosi oedi sylweddol cyn cofrestru a bod y rhoddwr yn colli galluedd yn y cyfamser.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

173. Mae rhywun yn cael gwybod bod rhoddwr yn cael ei orfodi i wneud AA ac mae'n cael ei gyfeirio i wefan GOV.UK i godi gwrthwynebiad. Mae'r wefan yn gofyn iddo fewnbynnu gwybodaeth syml am y rhoddwr ac amdano'i hun ac mae'n ei helpu i ddewis o restr o resymau dros wrthwynebu. Am fod y pryder yn ymwneud â gorfodi, mae'r wefan yn ei gyfeirio at y ffurflen gais briodol er mwyn cyflwyno gwrthwynebiad i'r Llys Gwarchod ar sail pwysau amhriodol. Mae'r wefan yn anfon hysbysiad yn awtomatig i SGC fod gwrthwynebiad yn cael ei godi yn y Llys ac mae SGC yn atal y cofrestriad. Wrth ystyried y gwrthwynebiad, mae'r Llys yn cyfarwyddo SGC i gynnal ymchwiliad i'r honiad. Wedi i SGC gwblhau'r ymchwiliad, mae'n adrodd yn ôl i'r Llys ac mae'r Llys yn penderfynu nad oedd yr AA yn gyfreithiol ddilys ac na ddylid ei chofrestru.

174. **Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y dull a ffefrir gan y Llywodraeth yw 4a.** Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl am gael llwybr symlach a chliriach ar gyfer codi gwrthwynebiadau. Rydym hefyd yn gwybod bod grŵp ehangach na'r rheini sy'n dod o dan DGM ar hyn o bryd sydd â gwrthwynebiadau i'w codi gyda SGC. Drwy newid y ddeddfwriaeth i ganiatáu cyfeirio gwrthwynebiadau rhagnodedig neu ffeithiol gan unrhyw un i SGC, gellid sicrhau proses symlach. Rydym yn pryderu na fyddai dull 4b yn symleiddio'r broses ar gyfer y rheini sydd am godi pryder. Mae SGC eisoes yn cael mwy o wrthwynebiadau rhagnodedig na'r Llys Gwarchod ac, yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n cael ei chyfarwyddo i ymchwilio i wrthwynebiad rhagnodedig ar ran y Llys. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r ymchwiliad ddechrau'n gynharach ac mae'n osgoi oedi. Yn ogystal â hyn, mae angen i SGC fod yn ymwybodol o wrthwynebiadau rhagnodedig er mwyn sicrhau na fydd yn cofrestru AA sydd o flaen y Llys Gwarchod ar y pryd ar gyfer penderfyniad. Drwy gyfeirio pryderon i SGC yn y lle cyntaf, bydd yn ymwybodol o unrhyw gamau pellach yn y Llys.

**Cwestiynau**

6. Beth yw'ch barn chi am y cynigion sydd wedi'u hamlinellu? Rhowch resymau dros eich ymatebion:

**SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau (dull 4a)**

- Cadarnhaol

- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

**SGC yn cael gwrthwynebiadau ffeithiol yn unig (dull 4b)**

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

7. A ddylai SGC gyfeirio achosion yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod? Rhowch resymau dros eich ateb.
   - Dylai
   - Na ddylai
   - Ddim yn gwybod

## Cynnig 5: Pa bryd i wrthwynebu

175. O dan y cynnig hwn, rydym yn ystyried ar ba bwynt ac am ba mor hir y dylid caniatáu gwrthwynebiadau i gofrestru AA, ac a yw proses gwrthwynebu cyn cofrestru ar wahân yn fesur diogelu sy'n berthnasol o hyd i'r rhoddwr. Yn benodol, rydym am edrych ar hyd y cyfnod aros statudol presennol, a'i le yn y broses ar gyfer creu a chofrestru AA.

**Y broses bresennol**

176. Mae'r broses ar gyfer codi gwrthwynebiadau wedi'i disgrifio yn Atodlen 1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac yn Rheoliadau Atwrneiaethau Arhosol, Atwrneiaethau Parhaus a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus 2007. Er mwyn i SGC ymchwilio i bryder am greu AA cyn ei chofrestru, rhaid codi gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod aros statudol o bedair wythnos sy'n rhan o'r broses cofrestru. Mae'r cyfnod aros hwn yn gymwys i'r holl AAau, hyd yn oed os yw'r holl bartïon yn cytuno i'r AA ac nad oes pobl i'w hysbysu. Mae'r cyfnod pedair wythnos yn cynnwys amser ar gyfer postio, er mwyn i'r partïon gael eu hysbysu ac ymateb i SGC. Mae'r cyfnod aros statudol wedi'i fwriadu i fod yn fesur i ddiogelu'r rhoddwr gan fod modd codi gwrthwynebiadau ac ymchwilio iddynt cyn i'r AA fod yn ddefnyddiadwy, fel y gellir rhoi terfyn ar ei chofrestru ac atal ei defnyddio os oes pryder dilys.

**Tystiolaeth**

177. Mae ein hymchwil ymhlith defnyddwyr a'n hymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos bod defnyddwyr yn edrych ar y cyfnod aros fel ataliad yn yr amser prosesu yn hytrach na mesur diogelu bwriadol, yn ymestyn proses sydd eisoes yn un hir yn eu golwg nhw. Mae cytundeb cyffredinol ymysg rhanddeiliaid y byddai byrhau'r broses cofrestru gyfan yn llesol i'r holl bartïon sy'n gysylltiedig, a byddai llawer o bobl yn falch o weld y cyfnod aros ei hun yn cael ei fyrhau i un neu ddwy wythnos.

178. Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am werth gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod cofrestru, gan ddweud mai dim ond pan gaiff yr AA ei defnyddio y bydd cam-drin yn dod i'r amlwg, ac y dylem ystyried ffyrdd gwell i ganfod hyn a'i dynnu i sylw SGC fel y gellir ymchwilio'n gyflym ac atal AAau os ceir bod cam-drin yn digwydd. Eu barn nhw yw y byddai'n fwy buddiol canolbwyntio ar wella'r broses ôl-gofrestru na chryfhau gwrthwynebu cyn cofrestru.

179. Mae lleiafrif bach o randdeiliaid wedi mynegi amheuon am y syniad o gael cyfnod gwrthwynebu byrrach. Maent yn credu bod cyfnod o bedair wythnos yn caniatáu mwy o amser ar gyfer penderfynu i'r rhoddwr, neu i bobl sy'n gwneud y penderfyniad, sy'n un anodd yn aml, i godi gwrthwynebiad a chasglu'r dystiolaeth er mwyn gwneud hynny. Mae'r pryder hwn wedi'i godi'n bennaf gan elusennau sy'n helpu rhoddwyr i gwblhau'r broses o greu AA.

180. Mae ymchwil ymhlith defnyddwyr wedi dangos nad oes llwybr hwylus ar gael i godi pryderon gan bobl y gofynnir iddynt fod yn Ddarparwyr Tystysgrif, un ai'n ddiweddarach yn y broses ceisio neu ar ôl siarad â'r rhoddwr a phenderfynu na allant weithredu fel Darparwr Tystysgrif o gwbl. Mae hyn er gwaethaf y ffaith eu bod yn cyflawni rôl allweddol o ran penderfynu bod y rhoddwr yn deall ystyr yr AA ac na chafwyd unrhyw dwyll neu bwysau amhriodol wrth greu'r AA.

181. Mae rhywfaint o dystiolaeth y gall y rhoddwyr eu hunain fod am gadw cyfnod ar ôl cyflwyno'r AA i'w chofrestru pan fyddant yn gallu tynnu'n ôl eu AA, os bydd eu hamgylchiadau'n newid, neu os byddant am newid penderfyniadau blaenorol, ar ôl creu'r AA. Mae data mewnol SGC yn dangos bod tua 3,300 o AAau wedi'u tynnu'n ôl gan roddwyr cyn eu cofrestru yn 2019/20. Mae hyn yn cyfateb i tua 0.36% o'r AAau a gafwyd yn 2019/20. Er bod y ffigur yn fach, mae hyn yn dangos bod angen cyfnod pan fydd rhoddwyr yn gallu tynnu'n ôl eu AA yn rhwydd ar ôl ei hanfon i SGC. Gallai cyfnod 'oeri' i roddwyr fod yn fwy addas i gwrdd ag anghenion unigolion, a byddai'r gallu i atal neu ganslo AA yn rhwydd am gyfnod byr ar ôl ei chofrestru fod yn ffordd i gadw cydbwysedd rhwng cyflymu'r broses ceisio a chadw mesurau diogelu.

182. Rydym am ddeall y gwerth y gellir ei gael o'r gallu i wrthwynebu yn ystod rhannau penodol o'r broses, ac a yw atal yn fesur diogelu gwell nag ymyrryd. Gellid codi gwrthwynebiadau ar wahanol amseroedd yn ystod y broses neu o fewn cyfnod aros statudol o hyd gwahanol a fydd yn effeithio ar yr amser a gymerir i gofrestru AA. Byddai sianel ddigidol yn gallu darparu llwybrau cyflymach ar gyfer cysylltu ac ymateb mewn perthynas â gwrthwynebiadau, fel y gellid byrhau'r amser a gymerir i gofrestru AA. Heblaw am y system bresennol o ohirio cofrestru i ganiatáu ystyried gwrthwynebiadau am gyfnod o bedair wythnos, mae tair ffordd bosibl i wneud newidiadau.

**Dull 5a – Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu**

183. Gellid codi gwrthwynebiadau rhwng y pwynt y mae'r rhoddwr yn dechrau creu AA a'r pwynt y mae'n cael ei hanfon i'w chofrestru. Mae hyn yn symud yr amser ar gyfer gwrthwynebu fel ei bod yn dechrau'n gynharach yn y broses ac fel y gellid ymchwilio i wrthwynebiadau, eu datrys neu eu cadarnhau cyn gynted â phosibl wedi i SGC gael yr AA. Os codir gwrthwynebiad a bod yr ymchwiliad yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl, gall y rhoddwr fod yn sicr y bydd ei AA yn cael ei chofrestru'n ddidrafferth, gan gymryd y bydd gwiriadau eraill yn y broses yn cael eu bodloni. Ar y llaw arall, os bydd rhywun wedi bwrw ymlaen ag AA a grëwyd drwy dwyll neu orfodaeth, gall tystiolaeth fod ar gael i SGC ar unwaith pan fydd yn cael y cais, a gallai weithredu'n gyflym.

184. Drwy ystyried gwrthwynebiadau ar y dechrau fel hyn, byddai AA ddilys yn gallu bod ar gael i'w defnyddio'n fwy buan drwy fyrhau'r amser am gyfer cwblhau prosesau cofrestru. Er mai chwe mis yw'r amser cyfartalog a gymerir i greu AA (mae hyn yn

cynnwys amser i feddwl am benodiadau a phwerau, drafftio a llofnodi'r ddogfen), mae rhai'n cael eu creu o fewn cyfnodau byrrach ac ni fyddai'r opsiwn hwn yn lleihau'r amser yn sylweddol ar gyfer yr AAau hynny. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn gallu cynnig ffordd i ddarparwyr tystysgrif ddarparu adborth amserol os bydd ganddynt bryderon.

185. Er mwyn i'r dull hwn fod yn un buddiol, byddai angen creu proses newydd a symlach i roi gwybod i bartïon cysylltiedig bod AA wedi'i chychwyn a'u helpu i godi pryderon dilys. Byddai angen i SGC storio gwrthwynebiadau a gafwyd am gyfnod a gytunir a'u cysylltu â'r AA a'u hadolygu pan fydd yn cael yr AA i'w chofrestru.

186. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw y bydd SGC yn cael caniatâd i weld AA cyn ei chwblhau, i gysylltu â'r partïon yn ôl yr angen i ddechrau ymchwiliad, a'i bod yn briodol iddi gael pwerau i wneud hynny. Mae'n bosibl na fyddai digon o wybodaeth gan SGC wrth i'r AA gael ei chreu gan y rhoddwr a chyn ei gweithredu, i allu ymchwilio'n drwyadl. Gellid newid y wybodaeth yn yr AA droeon cyn i'r ddogfen gael ei chwblhau a chyn i'w rhoddwr wneud ei benderfyniadau. Mae perygl hefyd y gallai SGC gael ei gorlethu gan wrthwynebiadau annilys a dibwys, oherwydd gwybodaeth gyfyngedig am yr AA neu wybodaeth yn yr AA sydd heb ei chadarnhau cyn ei chofrestru. Gallai hyn roi gormod o bwysau ar adnoddau SGC. Yn ogystal â hyn, gallai gwrthwynebwyr dichonol fod yn anymwybodol o'r AA ac o rôl SGC fel na fyddant yn codi gwrthwynebiadau dilys hyd yn oed os ydynt mewn lle i wneud hynny.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

187. Mae aelod o'r teulu sy'n barti a hysbysir yn pryderu bod rhywun yn cael ei orfodi i wneud AA, a'i bod yn bosibl ei fod heb alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau angenrheidiol. Mae'n dilyn cyfarwyddiadau ar wefan GOV.UK i ddod o hyd i sianel i godi pryder gyda SGC. Nid yw SGC wedi cael cais am gofrestru ond mae'n gallu gweld bod rhywun wedi darparu rhai manylion adnabod sy'n cyfateb i'r unigolion a enwyd, a'i fod ar ganol llenwi AA. Mae SGC yn atodi'r gwrthwynebiad i'w chofnodion, a bydd yn cael ei farcio a'i atodi i'r achos os bydd AA yn dod i law fel y gellir gweithredu arno ar unwaith.

### Dull 5b – Byrhau'r cyfnod aros statudol

188. Gellid cadw'r broses bresennol ond byrhau'r cyfnod ar ei chyfer. Byddai cyfnod aros statudol o hyd ar ôl cyflwyno'r AA i'w chofrestru a gellid codi gwrthwynebiadau a allai fod yn destun ymchwiliad gan SGC yn ystod y cyfnod hwn, gan atal y cofrestriad dros dro neu'n barhaol. Bydd hyn yn sicrhau mesur diogelu i roddwyr ac yn atal cofrestru AAau sydd heb eu creu'n unol â deddfwriaeth. O dan y dull gweithredu hwn, codir gwrthwynebiadau unwaith y bydd holl gynnwys yr AA yn hysbys a'r ddogfen wedi'i chyflwyno, fel y bydd yn llai tebygol bod gwrthwynebiadau cyfeiliornus neu anwybodus yn cael eu codi ac fel y bydd y baich posibl ar adnoddau SGC yn llai.

189. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw bod gwerth mewn cael cyfnod penodol yn y broses cofrestru pan fydd partïon cysylltiedig yn gallu gwrthwynebu cofrestru AA. Hefyd, bydd angen hysbysu'r rheini nad ydynt yn gwybod bod AA yn cael ei gwneud am ei bodolaeth cyn ei chofrestru'n ffurfiol fel y gallant godi pryderon mewn da bryd. Byddai byrhau'r cyfnod aros yn gallu creu anfantais i'r rheini sy'n gwrthwynebu ar bapur, oherwydd yr amser ychwanegol ar gyfer postio a derbyn gohebiaeth, ac ni allwn gymryd, hyd yn oed os yw rhoddwr yn dewis gwneud cais am gofrestru AA drwy wasanaeth ar-lein, y bydd rhywun sy'n ei gwrthwynebu yn gallu defnyddio sianeli ar-lein hefyd. Mae perygl hefyd y gallai'r rhoddwr fod heb amddiffyniad ac yn agored i niwed am fod penderfyniadau neu gamau gweithredu brys wedi'u gohirio oherwydd bod y cyfnod aros statudol wedi atal cofrestru'r AA yn gynt.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

190. Mae cyfnod aros statudol o ddwy wythnos yn cael ei gynnwys yn y broses cofrestru sy'n dechrau pan ddaw'r AA i law ac unwaith y bydd y taliad wedi'i gyflwyno. Byddai hysbysiadau'n cael eu hanfon yn awtomatig at yr holl bartïon y mae'n ofynnol eu hysbysu a byddai llwybr clir iddynt ymateb yn uniongyrchol drwy'r sianel ddigidol: byddai hyn yn hybu ymwybyddiaeth ac yn gwella'r amser ar gyfer ymateb i unrhyw bryderon a godwyd.

**Dull 5c – Dileu'r cyfnod aros statudol**

191. Gellid dileu'r cyfnod aros statudol os bydd mesurau diogelu a gwiriadau newydd eraill yn y broses yn creu lefel uchel o amddiffyniad rhag camddefnydd. Byddai hyn yn cyflymu'r amser a gymerir i gofrestru AA. Gellid cymryd gwrthwynebiadau gan unigolion pryderus ar unrhyw adeg a byddai SGC yn ymchwilio iddynt ar ôl cofrestru AA. Gellid pennu cyfnod hefyd i roddwyr dynnu'n ôl eu AA yn rhwydd ar ôl ei hanfon i'w chofrestru os byddant yn newid eu meddwl am unrhyw benderfyniadau a wnaed yn yr AA.

192. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw nad oes budd mewn cael cyfnod penodol yn y broses ceisio pan all partïon cysylltiedig wrthwynebu cofrestru'r AA. Byddai angen creu proses newydd symlach i hysbysu partïon cysylltiedig bod AA wedi'i chofrestru a'u helpu i godi pryderon dilys. Byddai angen i unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd gael eu paru â'r AA berthnasol ar ôl ei chofrestru.

193. Heb gyfnod aros statudol, gellir cofrestru a defnyddio AA ar unwaith bron. Ar gyfer y rheini nad ydynt yn wynebu risg o gam-drin neu dwyll, a lle mae'r atwrneiaeth yn caniatáu hynny, mae hyn yn golygu bod modd defnyddio'r AA ar unwaith, ac ar gyfer gwneud penderfyniadau brys. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, byddai'n rhoi mwy o gyfle ar gyfer cam-drin neu weithgarwch twyllodrus am fod modd defnyddio'r AA ar unwaith a bod y gallu i atal ei chofrestru'n gyfyngedig. Yn ogystal â hyn, am nad oes pwynt yn y broses pan fydd trydydd parti yn gallu gweld holl gynnwys yr AA cyn ei

chofrestru, erbyn i'r trydydd parti gael gweld y wybodaeth hon a gallu penderfynu a oes angen gwrthwynebu, bydd yn rhy hwyr i atal ei chofrestru. Mae'n bosibl y byddai hyn yn lleihau gallu SGC i atal camddefnydd.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

194. Nid oes proses benodol ar gyfer gwrthwynebu. Yn hytrach, bydd SGC yn ystyried ac yn gweithredu yn yr un ffordd ar yr holl bryderon a gofnodir cyn ac ar ôl cofrestru AA. Cynhelir gwiriadau ar yr AA wrth ei chreu ac, ar y pwynt y mae cais a thaliad yn cael eu cyflwyno, ychwanegir yr AA i'r gofrestr a gellir ei defnyddio. Mae'n bosibl o hyd y bydd amser prosesu ychwanegol ar gyfer AAau mwy cymhleth fel y rheini sy'n cynnwys dymuniadau neu gyfarwyddiadau, neu'r rheini y codwyd pryder amdanynt. Ar ôl cofrestru, byddai cyfnod 'oeri' o ddwy wythnos pan fydd y rhoddwr yn gallu atal neu dynnu'n ôl ei AA yn rhwydd neu pan fyddai'r ddeddfwriaeth yn gallu cyfyngu'r defnydd o'r AA ar seiliau ffeithiol penodol os bydd pryder yn cael ei godi.

195. **Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y dull a ffefrir gan y Llywodraeth yw un sy'n cyfuno'r dulliau uchod.** Credwn fod manteision ym mhob un o'r dri dull y gellir eu cyfuno drwy ganiatáu i bobl anfon gwrthwynebiadau i SGC yn y cyfnod rhwng y pwynt y mae person yn dechrau ei AA a diwedd y cyfnod 'oeri' ar ôl ei chyflwyno i'w chofrestru, ond bod y cyfnod hwnnw'n llai na'r cyfnod presennol o bedair wythnos. Mae'r ymchwil a'r ymgysylltu rydym wedi'u cynnal hyd yma yn dangos bod pobl yn gweld gwerth yn y gallu i godi pryderon am yr AA gan unigolion sydd y tu allan i'r broses o'i chreu. Gan mai ychydig o ryngweithio a geir rhwng y rheini sy'n creu AA a SGC, mae'n bwysig bod gallu o hyd gan drydydd partïon, yn enwedig y rheini sydd mewn rolau diogelu statudol, i godi pryderon cyn cofrestru AA. Felly ni fyddem am dynnu hyn o'r broses yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, drwy fyrhau'r cyfnod ar gyfer gwrthwynebu ar ôl cofrestru, ac ymestyn y cyfnod ar gyfer gwrthwynebu sy'n cydredeg â'r broses creu, ceir cyfleoedd newydd i'r grwpiau hyn gofnodi gwrthwynebiad ar y pwynt cynharaf posibl a sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn drylwyr.

**Cwestiynau**

8. Pa agweddau ar y cynigion ar gyfer pa bryd i wrthwynebu sydd orau gennych chi? Rhowch resymau dros eich atebion.

   **Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu (dull 5a)**
   - Proses gyflymach
   - Mwy o sicrwydd
   - Canfod a datrys gwrthwynebiadau'n gynharach
   - Yn haws codi pryderon
   - Yn atal cofrestru AAau annilys
   - Ddim yn gwybod

- Arall (rhowch fanylion)

**Byrhau'r cyfnod aros statudol (dull 5b)**

- Proses gyflymach
- Yn cadw cyfnod aros o ryw hyd fel mesur diogelu
- Cyfnod hirach i benderfynu a godir gwrthwynebiad
- Yn atal cofrestru AAau annilys
- Ddim yn gwybod
- Arall (rhowch fanylion)

**Dileu'r cyfnod aros statudol (dull 5c)**

- Proses gyflymach
- Proses symlach
- Gellir cofrestru ar unwaith
- Gall mwy o dystiolaeth o gamddefnydd fod ar gael
- Ddim yn gwybod
- Arall (rhowch fanylion)

# Cynnig 6: Cyflymder y gwasanaeth

196. Drwy gynigion 1-5, rydym wedi ystyried newidiadau a allai fyrhau'n sylweddol yr amser a gymerir i greu a chofrestru AA ar gyfer pawb sydd am wneud hynny. Mae hyn yn gyson â'n nod o greu gwasanaeth mwy hwylus i'r holl ddefnyddwyr drwy symleiddio'r broses. Yn yr adran hon, rydym yn ystyried:
   - a oes grŵp o bobl y byddai angen gwasanaeth cyflymach byth ar eu cyfer i gwrdd ag angen brys am AA,
   - sut i gadw cydbwysedd rhwng yr angen hwn a'r angen am fesurau diogelu a
   - mynediad hwylus ar gyfer y defnyddwyr hynny

**Y broses bresennol**

197. O dan y system bresennol, mae'n cymryd amser i gofrestru AA. Targed SGC ar gyfer cofrestru AAau yw 40 diwrnod gwaith ar ôl cael y ffurflen gais. Unwaith y bydd SGC wedi cael AA, bydd yn cymryd pedair wythnos ar gyfartaledd i gyflawni'r holl swyddogaethau gweithredol. Dyma'r cyfnod pan fydd SGC yn cynnal gwiriadau â llaw i gadarnhau bod modd cofrestru'r AA, fel yr eglurwyd yng nghynnig 3. Ar ôl cadarnhau hynny, anfonir hysbysiadau at y rhoddwr a'r atwrneiod a bydd y cyfnod aros statudol o bedair wythnos yn dechrau, i ganiatáu cyflwyno gwrthwynebiadau i SGC, fel yr eglurwyd yng nghynigion 4 a 5.

198. Ar hyn o bryd, mae SGC yn cynnig yr un gwasanaeth i'r holl roddwyr ac ni fydd yn blaenoriaethu'r gwaith o brosesu AAau ar sail amgylchiadau'r rhoddwr neu ddifrifoldeb yr angen. Mae'r cyfnod aros yn gymwys hyd yn oed pan fo angen AA ar frys, er enghraifft, pan allai'r rhoddwr golli galluedd meddyliol cyn dychwelyd yr AA. Felly hyd yn oed lle gellir cyflymu'r broses weinyddol, rhaid aros pedair wythnos cyn cofrestru'r AA. Yn ystod y cyfnod aros hwn, nid yw atwrneiod yn gallu dechrau gweithredu ar ran y rhoddwr, hyd yn oed os bydd y rhoddwr yn colli galluedd.

199. Mae hyn yn golygu, wrth greu AA pan yw'r rhoddwr ar fin colli galluedd a bod angen i'r atwrneiod weithredu'n gyflym i sicrhau bod anghenion y rhoddwr wedi'u diwallu, fod hyd y broses cofrestru yn gallu cyfyngu arnynt. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar y rhoddwr os yw'r penderfyniadau sydd angen eu gwneud yn rhai sy'n ymwneud â darparu neu dalu am ofal brys, fel gwerthu cartref y teulu er mwyn fforddio darpariaeth mewn cartref gofal.

200. Er mwyn deall graddau'r pryder hwn, a maint yr angen, mae'n bwysig cael gwybod pa nifer o bobl sy'n ei gadael tan yr eiliad olaf, neu'n agos at hynny, cyn creu a chofrestru eu AA a'r rhesymau am hynny.

**Tystiolaeth**

201. Mae ein hymchwil ymhlith defnyddwyr wedi dangos bod pobl yn aros cyn gwneud AA am nad ydynt yn deall beth yw hi neu sut y gall eu hamddiffyn.[18] Mae hyn yn gyson ag ymchwil sy'n dangos bod diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol bod modd trefnu ar gyfer gwneud AAau a'u cofrestru cyn i'r angen amdanynt godi.[19] Dim ond 24% o bobl sy'n cofrestru AA yn ddigon pell o flaen llaw i gyfrif bod hynny'n 'gynllunio ar gyfer y dyfodol'.[20] Y goblygiad o hynny yw mai'r hyn sy'n ysgogi rhywun i wneud AA mewn llawer achos yw newid sydyn mewn amgylchiadau, fel diagnosis gan feddyg, a allai greu angen brys.

202. Mae cyfreithwyr yn dweud bod hyd at 25% o'u cleientiaid yn creu AA o ganlyniad i angen ar y pryd[21] , ac mae SGC wedi amcangyfrif ei bod yn cael rhwng pump a 10 galwad y diwrnod yn gofyn am gyflymu'r broses o gofrestru AA oherwydd angen brys.

203. Yn unol â'r canfyddiadau hyn, mewn arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid SGC yn Ionawr 2020, cafwyd mai 'cofrestru cyflymach' oedd y thema amlycaf gan amlaf, gan fod 11% o ymatebwyr wedi gofyn am hyn (o'i gymharu â'r nodwedd y gofynnwyd amdani ail amlaf, sef 'dulliau ymarferol o gywiro gwallau' ar 5.1%).[22] Er hynny, roedd canran yr ymatebwyr a ofynnodd yn benodol am gofrestru cyflymach neu wasanaeth llwybr cyflym i ddelio â cheisiadau brys yn eithaf bach (0.4% a 0% yn y drefn honno).[23]

204. Mae ein hymgysylltu â chyfreithwyr yn dangos bod y mater hwn yn un cymhleth, gan fod nifer o'r cyfreithwyr y siaradwyd â nhw yn gefnogol i fyrhau'r amser a gymerir i brosesu AA yn gyffredinol, yn cynnwys y posibilrwydd o ddileu'r cyfnod aros statudol. Er hynny, mae pryder ymysg rhai cyfreithwyr y byddai hyn yn gwanhau mesurau diogelu, ac roedd y rheini a oedd blaid cadw'r cyfnod aros statudol wedi nodi bod gwerth yng ngallu pobl i wrthwynebu.

205. Y casgliad rydym wedi dod iddo ar hyn o bryd yw bod yr angen am wasanaeth AA cyflymach yn ehangach o bosibl na'r grŵp a ofynnodd yn benodol am wasanaeth o'r fath, sef tua 25% o roddwyr o bosibl. Mae hyn wedi'i seilio ar y gwahaniaeth rhwng nifer y rhoddwyr sy'n ei gadael tan y funud olaf i wneud AA a'r nifer sy'n gofyn am

[18] Ministry of Justice Digital & Technology (2020) Modernising Lasting Power of Attorney Interviews with Charities and Solicitors. Heb ei gyhoeddi.

[19] Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2017) Coping Mechanisms – third party access. Ar gael yn: https://www.fca.org.uk/publication/research/coping-mechanisms-third-party-access.pdf

[20] SGC (2019) Post Registration (Attorney) Research. Heb ei gyhoeddi.

[21] Ministry of Justice Digital & Technology (2020) Modernising Lasting Power of Attorney Solicitor Survey. Heb ei gyhoeddi.

[22] SGC (2020) Customer Satisfaction Surveys: Power of Attorney. Heb ei gyhoeddi.

[23] SGC (2020) Customer Satisfaction Surveys: Power of Attorney. Heb ei gyhoeddi.

wasanaeth brys. Felly rhaid i ni ystyried a oes modd diwallu’r angen hwn drwy gyflymu’r gwasanaeth i bawb drwy’r cynigion a amlinellwyd mewn man arall, neu a oes angen gwasanaeth brys penodedig.

**Dull 6 – Gwasanaeth brys penodedig**

206. Drwy gyfuno’r dulliau a ffefrir sydd wedi’u hamlinellu’n barod, credwn y gall fod yn bosibl byrhau’r amser ar gyfer cofrestru AA i ddwy wythnos ar gyfer y rhan fwyaf o AAau, gan gryfhau mesurau diogelu a pharhau i ganiatáu codi gwrthwynebiadau. Byddai’r amser hwn ar gyfer cofrestru’r holl AAau yn fyrrach o lawer na thargedau presennol SGC a’r gofynion statudol.

207. Er mwyn darparu gwasanaeth AA brys a oedd yn gyflymach na hyn, byddai angen dileu cyfnodau o oedi bwriadol yn y broses cofrestru neu eu lleihau i fwy o raddau nag yn y cynigion sydd eisoes wedi’u hamlinellu. Gallai hyn gynnwys dileu’n llwyr y cyfnod aros statudol (neu gyfnod ‘oeri’) ar gyfer AAau brys. Byddai hefyd yn gofyn am roi blaenoriaeth i’r achosion hynny lle na ellir awtomeiddio gwiriadau, a lle mae angen gwiriadau â llaw yn lle hynny (ar gyfer cyfarwyddiadau a dymuniadau, er enghraifft). Byddai hyn yn caniatáu cofrestru’r AA yn gyflymach nag yn y gwasanaeth safonol, fel y bydd yr atwrneiod a enwebwyd gan y rhoddwr yn gallu gwneud y penderfyniadau brys sydd eu hangen i gynorthwyo, amddiffyn a gofalu am y rhoddwr.

208. Er mwyn sicrhau bod anghenion rhoddwyr yn cael eu blaenoriaethu’n briodol ac atal defnydd diangen, byddai’n rhaid cyfyngu mynediad i’r gwasanaeth i’r rheini a allai ddangos bod angen brys. Mae’n debygol y byddai hyn yn galw am ddarparu tystiolaeth feddygol o angen brys, gwybodaeth am natur y penderfyniad brys roedd angen ei wneud a pham roedd hyn er y lles pennaf i’r rhoddwr.

209. Yn bwysicaf oll, byddai angen darparu tystiolaeth hefyd fel mesur diogelu ychwanegol rhag camddefnydd. Pe byddai’r cyfnod gwrthwynebu yn cael ei ddileu, byddai llai o amser ar gael i drydydd partïon yn ystod y broses creu i wrthwynebu cofrestru’r AA a chodi pryderon gyda SGC cyn bod modd defnyddio’r AA. Rydym yn ymwybodol iawn hefyd y byddai unrhyw gamau i gyflymu proses cofrestru’r AA, ar gyfer pawb neu i rai’n unig, yn gallu creu mwy o gyfleoedd i dwyllwyr os na fydd mesurau diogelu priodol yn cael eu cynnal neu eu cynyddu. Byddai prawf o angen yn hanfodol i sicrhau bod ceisiadau am roi AAau ar y llwybr cyflym yn rhai dilys a heb eu gwneud â bwriad maleisus.

210. Fodd bynnag, byddai’r holl ddarpariaethau hyn yn gallu cymhlethu’r broses, fel y byddai angen i SGC arfer mwy o ddisgresiwn a thrafod tystiolaeth fanwl â llaw. Po fwyaf cymhleth fydd y system frys, mwyaf anodd fydd hi i’w rhedeg gan SGC ac, yn bwysicach na hynny, mwyaf anodd fydd hi i’r cyhoedd ei defnyddio. Mae nifer o risgiau’n codi:

i. Byddai trothwyon cymhwysedd a gofynion am dystiolaeth yn gallu ei gwneud yn fwy anodd i unigolion ddeall a ydynt yn gymwys neu beidio.
ii. Byddai'r amser a gymerir i gael y dystiolaeth yn gallu arafu'r broses creu nes bydd y rhoddwr wedi colli galluedd a heb allu bellach i wneud yr AA.
iii. Byddai'r gost o gael tystiolaeth yn gallu bod yn rhy uchel i rai gan fod tâl yn cael ei godi'n aml am asesiadau o alluedd gan weithwyr meddygol proffesiynol.
iv. Byddai'r costau i SGC am brosesu'r wybodaeth hon yn gallu arwain at gynyddu ffioedd i bob rhoddwr, gan na fyddem am gosbi rhoddwyr agored i niwed sydd ag angen y gwasanaeth.
v. Os byddai galw mawr am y gwasanaeth, heb y gallu i awtomeiddio'r adolygiad o dystiolaeth, gallai hynny arwain at amseroedd cofrestru sy'n hirach na rhai'r gwasanaeth safonol

211. Pe byddai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu, byddent yn golygu na fyddai modd sicrhau gwasanaeth brys.

212. **Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y dull a ffefrir gan y Llywodraeth yw peidio â bwrw ymlaen i greu gwasanaeth brys.** Fel rydym wedi amlinellu eisoes, drwy symud y gallu i wrthwynebu fel ei fod yn gynharach yn y broses, ei gwneud yn ofynnol bod AA yn cael ei chyflwyno ar unwaith i'w chofrestru a chyflwyno gwiriadau awtomatig, gellid cyflymu'r broses cofrestru AAau ar gyfer pawb, fel y bydd cyn fyrred â dwy wythnos o bosibl. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod yr angen am wasanaeth cofrestru cyflymach yn un sylweddol, er mai lleiafrif o tua 25% sy'n galw am hyn, a'i bod yn debygol bod rhagor o bobl sydd ag angen proses cofrestru sy'n gyflymach na'r un a ddarperir ar hyn o bryd. Byddai canolbwyntio adnoddau ar wasanaeth brys yn gallu golygu y byddai'r gwasanaeth safonol yn parhau'n arafach na'r lefel orau y gallai SGC ei chynnig. O'r safbwynt hwn, rydym yn credu bod darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r holl roddwyr yn well na darparu gwasanaeth cyflymach i'r rheini sydd â'i angen yn unig.

213. Yn ogystal â hyn, er mwyn darparu gwasanaeth cyflymach na'r un safonol, mae'n debygol y byddai angen dileu'r cyfnod gwrthwynebu'n gyfan gwbl. Fel arall, byddai'r cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'r newidiadau a gynigiwn o ran pwy a gaiff wrthwynebu, yn parhau fel mesur diogelu. Oherwydd hyn, byddai angen cyflwyno mesurau diogelu newydd a gofyniad i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y gwasanaeth brys er mwyn atal ei ddefnyddio i gam-drin pobl. Mae risg sylweddol un ai y byddai'r mesurau diogelu hynny mor feichus fel na fydd pobl sydd ag angen y gwasanaeth yn gallu mynd ato, neu y byddent mor gymhleth i'w gweithredu gan SGC fel bod y broses yn para'n hirach byth ac yn costio mwy na'r gwasanaeth safonol ac yn colli ei gwerth.

214. Rydym hefyd yn nodi y gall ddigwydd eisoes, mewn achosion lle mae brys mawr iawn, fod y rhoddwr heb alluedd i weithredu'r AA. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae

dewis arall ar gael eisoes i sicrhau y bydd pobl sy'n gallu gwneud penderfyniadau ar ran y rhoddwr drwy wneud cais i'r Llys Gwarchod i benodi dirprwy. Mae gallu gan y Llys hefyd i ddelio â cheisiadau'n gyflym mewn achosion lle mae brys mawr iawn.

215. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl cynnig gwasanaeth brys gyda'r mesurau diogelu sydd eu hangen i amddiffyn rhoddwyr. Oherwydd hyn, credwn mai'r ffordd orau ymlaen fydd cynnig gwasanaeth sy'n gweithio mor gyflym â phosibl i'r holl roddwyr.

**Cwestiynau**

9. Os oeddem yn gallu lleihau'r amser ar gyfer cofrestru AA i ddwy wythnos ar gyfer y rhan fwyaf o roddwyr (heb wrthwynebiadau), a fyddai gwasanaeth brys yn darparu budd ychwanegol i chi neu i'r bobl rydych yn eu cynorthwyo? Rhowch resymau dros eich ateb.
   - Byddai, mae angen i mi gael cofrestru AA o fewn dwy wythnos
   - Na fyddai, ni fyddai mantais o'i gymharu â gwasanaeth dwy wythnos i bawb
   - Ddim yn gwybod

10. Os ydych yn weithiwr proffesiynol ac y byddai gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer defnyddio gwasanaeth brys, pa effaith y byddai hyn yn ei chael arnoch chi? Darparwch dystiolaeth, yn cynnwys tystiolaeth am yr effeithiau o ran amser (diwrnodau/oriau) neu mewn termau ariannol os yw'n berthnasol.
    - Dim effaith
    - Cynnydd mewn adnoddau (amcangyfrif: _____)
    - Cynnydd mewn costau (amcangyfrif: _____)
    - Yr amser a gymerai i ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd (amcangyfrif: _____)
    - Ddim yn gwybod
    - Arall (rhowch fanylion)

## Cynnig 7: Mynediad i'r gwasanaeth gan gyfreithwyr

216. O dan y cynnig hwn, rydym yn ystyried ffyrdd i helpu cyfreithwyr i ddefnyddio gwasanaeth modern newydd drwy ddefnyddio systemau digidol integredig a gofynion mewn deddfwriaeth. Gan fod cyfreithwyr yn helpu i greu a chofrestru nifer mawr o AAau, mae angen sicrhau bod cyfreithwyr yn defnyddio'r sianeli mwyaf effeithlon, a fydd yn rhai digidol yn bennaf, i gyflwyno AAau i SGC i'w cofrestru. Bydd hyn yn sicrhau bod SGC:

- yn gallu darparu mynediad hwylus i gyfreithwyr a'u cleientiaid drwy ddibynnu i lai o raddau ar y gwasanaeth post (a'r gost gysylltiedig), llai o angen am gywiro gwallau a llai o amser ar gyfer prosesu gan SGC.
- yn dod yn gynaliadwy drwy drafod a storio llai o ddogfennau papur a sicrhau cyfraddau gwallau is drwy gynnal gwiriadau ar ddechrau'r broses yn y gwasanaeth

217. Mae'r nodau hyn yn fanteisiol i'r ddwy ochr; mae cyfreithwyr am gael defnyddio'r gwasanaethau mwyaf effeithlon, fel na fydd eu cleientiaid o dan anfantais, ac mae SGC am weld cyfreithwyr yn defnyddio'r sianel hon er mwyn iddi ddod yn gynaliadwy, sef un o'r prif nodau ar gyfer moderneiddio AAau.

218. Nid yw hyn yn ymwneud â gorfodi'r defnydd o gyfreithiwr i greu AA na ffyrdd i ddarparu mynediad i bobl at wasanaethau cyfreithwyr. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a SGC yn credu y dylai AAau fod o fewn cyrraedd, yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb ac ni ddylai'r defnydd o gyfreithiwr fod yn ofyniad nac yn rhwystr mewn perthynas â hyn.

### Y broses bresennol

219. O dan DGM, nid oes darpariaeth arbennig ar gyfer cyfreithwyr na gofynion iddynt wneud dim yn wahanol i bobl eraill sy'n cyflwyno AAau. Mae AAau a geir gan ffyrmiau cyfreithiol yn cael eu trin yn yr un ffordd â'r rheini a geir gan aelodau o'r cyhoedd. Yn y ddau achos, anfonir AAau i SGC drwy'r post. Nid yw systemau rheoli achosion cyfreithwyr wedi'u hintegreiddio â systemau SGC ac nid oes system electronig ar wahân ar gyfer cyflwyno AAau. Er bod offeryn ar wefan GOV.UK i helpu i greu AA, nid oes gofyniad ar hyn o bryd ar unrhyw berson i ddefnyddio'r offeryn hwn i greu AA ac ni ellir ei ddefnyddio i gyflwyno AA yn uniongyrchol i SGC i'w chofrestru.

220. Fel rydym wedi nodi, mae SGC yn gorfod defnyddio system seiliedig ar bapur o dan y fframwaith deddfwriaethol sy'n ei rheoli. Mae hyn yn creu goblygiadau i SGC o ran adnoddau a chostau ar gyfer prosesu, gwirio a storio'r cannoedd o filoedd o AAau y mae'n eu cael bob blwyddyn. Mae'n creu effaith sylweddol ar yr amgylchedd hefyd oherwydd maint y papur a'r argraffu sydd eu hangen i greu, cwblhau a chyflwyno pob AA i'w chofrestru. Bydd yn hollbwysig sicrhau lefel uchel o ddefnydd o unrhyw system newydd er mwyn i SGC gyrraedd y nod o fod yn gynaliadwy a gallu cyfeirio ei

hadnoddau i'r gwasanaethau sy'n cynnig y gwerth ychwanegol mwyaf i ddefnyddwyr, fel ymchwiliadau.

**Tystiolaeth**

221. Yn ôl data mewnol SGC, dim ond 28.4% o AAau a grëwyd drwy ddefnyddio'r offeryn digidol presennol yn 2019/20. Er y bydd rhyw gyfran o'r rhain wedi cael eu gwneud gan gyfreithwyr, yn ein harolwg diweddar dywedodd 67% o gyfreithwyr wrthym eu bod yn cwblhau gwaith papur yr AA ar gyfer eu cleientiaid drwy ddefnyddio system rheoli dogfennau eu ffyrm, sef system sengl a ddefnyddir i ddarparu gwahanol wasanaethau.[24] Oherwydd y graddau y mae cyfreithwyr yn ymwneud â chreu AAau, bydd yn bwysig cynyddu'r defnydd o unrhyw sianel ddigidol newydd gan gyfreithwyr er mwyn i SGC ddod yn ariannol gynaliadwy a'i galluogi i ailbennu ei blaenoriaethau ar gyfer adnoddau. Felly mae angen deall pam y maent yn llai tebygol o ddefnyddio'r offeryn presennol.

222. Mae'r rhesymau a roddwyd ganddynt dros ffafrio'r systemau rheoli dogfennau hyn yn cynnwys hwylustod wrth ddrafftio, diwygio a chadw'r ddogfen ddrafft, y ffaith eu bod yn cynnwys canllawiau, meysydd ffurflen wedi'u teilwra, hwylustod wrth weinyddu a'r gallu i ail-lenwi dogfennau'n awtomatig â gwybodaeth ailadroddus oddi mewn i'w systemau rheoli dogfennau. Yn ein barn ni, y prif reswm dros lefel isel y defnydd o'r offeryn digidol presennol gan gyfreithwyr yw bod y systemau rheoli dogfennau hyn yn cynnig gwerth ychwanegol iddynt, er nad ydynt yn rhyngweithio â'r offeryn digidol presennol.

223. Rydym yn cydnabod mai ychydig o allu sydd yn y sianel ddigidol bresennol ar gyfer AAau i gwrdd ag anghenion y rhan fwyaf o ffyrmiau cyfreithwyr. Y swyddogaeth bwysicaf y gallwn ei hychwanegu a fyddai'n darparu gwerth ychwanegol i gyfreithwyr, heblaw'r nodweddion sydd ganddynt eisoes yn eu systemau rheoli dogfennau, yw'r gallu i gyflwyno AAau yn ddigidol, yn uniongyrchol i SGC. Rydym yn ceisio cynnwys cyfleuster cyflwyno digidol yn rhan o'r gwasanaeth AA, ond mae hyn yn galw am ystyried materion ehangach a newidiadau mewn deddfwriaeth, fel y nodwyd yng nghynigion 1-5. Mae hyn yn cynnig cyfle i ni ystyried ffyrdd gwell i integreiddio rhwng yr offer a ddefnyddir eisoes gan gyfreithwyr i greu AAau a dull digidol di-dor o gyflwyno AAau i SGC i'w cofrestru ar ôl eu gweithredu gan y partïon.

224. Byddai hyn yn cynnig nifer o fanteision i gyfreithwyr gan y byddai'n rhoi mynediad iddynt at nifer o elfennau eraill yn y gwasanaeth sydd wedi'u disgrifio eisoes, fel y gallu i wirio gwybodaeth a ddarparwyd yn yr AA yn awtomatig (er bod y cyfraddau gwallau mewn AAau a gyflwynir gan gyfreithwyr yn isel ar 6%, mae cyfle i'w gostwng ymhellach). Byddai hefyd yn eu gwneud yn llai dibynnol ar wasanaethau post a'r

[24] Ministry of Justice Digital & Technology (2020) Modernising Lasting Power of Attorney Solicitor Survey. Heb ei gyhoeddi.

amser a'r gost am anfon symiau mawr o bapur, sef costau a drosglwyddir i'w cleientiaid sydd felly'n cynyddu cost AA i aelodau o'r cyhoedd.

225. Fel y nodwyd o'r blaen, rydym wedi amcangyfrif bod yr hyn sy'n cyfateb i tua 38 miliwn o ddalennau papur A4 yn cael eu defnyddio bob blwyddyn i anfon AAau i SGC ac yn y broses o gofrestru'r AAau hynny gan SGC, ac roedd y costau postio i SGC oddeutu £3.7 miliwn yn 2019/20. Gan ei bod yn bosibl bod cyfreithwyr yn ymwneud â chreu cymaint â 55% o AAau, byddai'r gallu i integreiddio'r broses cyflwyno digidol â systemau presennol cyfreithwyr yn cael effaith fawr drwy leihau maint y papur y mae angen i SGC ei brosesu a'r gost am anfon hysbysiadau, AAau cofrestredig a llythyrau eraill. Byddai'r gostyngiad mewn cyfraddau gwallau sy'n bosibl drwy system integredig yn arwain at ostyngiad pellach mewn costau.

226. Drwy leihau'r angen am waith gweinyddol cyffredinol ar AAau, byddai SGC yn gallu sicrhau bod ei hadnoddau wedi'u dyrannu yn y ffordd orau i'r gwasanaethau sy'n cynnig y gwerth ychwanegol mwyaf i ddefnyddwyr. Gallai hyn gynnwys cynnydd yn ei hadnoddau ar gyfer ymchwiliadau er mwyn ymateb yn well i bryderon ynghylch cam-drin, twyll a gorfodaeth, yn unol â'n cynigion i ehangu'r grŵp o bobl sy'n gallu gwrthwynebu cofrestru AA.

227. Mae ein hymgysylltu parhaus â chyfreithwyr wedi dangos bod ganddynt awydd i gael mynediad i sianeli digidol, er gwaethaf eu pryder am allu'r sianeli hyn i ddarparu mesurau priodol i ddiogelu'r cyhoedd, er mwyn creu a chofrestru AAau. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ddarparu gwasanaeth mwy gwerthfawr i'w cleientiaid. Rydym yn hyderus y gallwn gydweithio â'r sector cyfreithiol a llyfrwerthwyr cyfreithiol i ddarparu'r math o fynediad i sianel ddigidol yr hoffent ei gael. Er hynny, rhaid ystyried hefyd y pwysigrwydd o helpu SGC i ddod yn gynaliadwy ac felly ystyried ffyrdd eraill i sicrhau y bydd cyfreithwyr yn cyflwyno AAau drwy ddull digidol yn y dyfodol.

228. Mae tri dull gwahanol y gallem eu defnyddio i geisio sicrhau cynaliadwyedd SGC gan ofalu bod cyfreithwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth mwyaf effeithlon.

**Dull 7a – Integreiddio'n unig**

229. Byddai darparu gwasanaeth sy'n cwrdd yn effeithiol ag anghenion cyfreithwyr ac sydd wedi'i integreiddio â'u systemau rheoli dogfennau presennol yn gallu bod yn ddigon i gyrraedd sefyllfa lle mae'r rhan fwyaf o gyfreithwyr yn defnyddio'r sianel ddigidol, heb fod angen gofynion mwy ffurfiol. Gallai'r dull hwn sicrhau bod cyfreithwyr yn gallu darparu gwerth ychwanegol i'w cleientiaid gan helpu SGC i ddod yn gynaliadwy.

230. Ein bwriad fyddai creu gwasanaeth ar wefan GOV.UK y bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr yn ei gyrchu drwy 'borth cyfreithwyr' a ddarperir gan eu meddalwedd llyfrwerthwr cyfreithiol. Byddai API, meddalwedd sy'n caniatáu i ddwy raglen neu system 'siarad' â'i gilydd, yn cysylltu'r gwasanaeth ar wefan GOV.UK â'r 'porth

cyfreithwyr'. Byddai SGC yn cydweithio â llyfrwerthwyr cyfreithiol ar yr API i ganiatáu i'r ddwy system gysylltu â'i gilydd. Yn syml, byddai hyn yn golygu bod yr holl gyfreithwyr sy'n defnyddio ffurflenni papur ar hyn o bryd drwy feddalwedd llyfrwerthwyr cyfreithiol yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol, yn lle hynny, â'n gwasanaeth ni ar wefan GOV.UK. Byddai'r system yn ymddangos yn un ddi-dor iddyn nhw, a byddai manteision y gwasanaeth newydd ar gael iddynt, yn cynnwys, o bosibl, gwiriadau awtomatig, cyflwyno di-oed i SGC, diweddariadau awtomatig pan wneir newidiadau a'r gallu i ddilyn statws nifer o AAau ar unwaith.

231. Rydym hefyd yn bwriadu datblygu gwasanaeth lle byddai'r cyfreithwyr hynny sydd eisoes yn defnyddio'r offeryn digidol presennol yn symud yn syth i'r gwasanaeth newydd ar wefan GOV.UK heb fod angen prynu systemau ychwanegol ar gyfer rheoli dogfennau. Yn olaf, ar gyfer y rheini sydd heb y dewis o ddefnyddio dull digidol, oherwydd diffyg band eang dibynadwy mewn rhai rhannau o'r wlad, er enghraifft, byddai modd o hyd iddynt ddefnyddio sianeli eraill i gofrestru AAau.

232. Er mwyn sicrhau bod yr integreiddio hwn yn cwrdd ag anghenion cyfreithwyr, bydd angen datblygu nodweddion allweddol yn ein system sy'n cydweddu â'r rheini sydd ar gael iddynt yn barod. Er enghraifft, roedd cyfreithwyr a'r trydydd sector wedi croesawu'r ffaith bod y gallu i reoli sypiau wedi'i ychwanegu i'r offeryn ar-lein presennol. Er mwyn cyflwyno'r dull hwn yn llwyddiannus, bydd angen i ni ganfod yr union anghenion sydd gan gyfreithwyr, cwrdd â'r anghenion hynny drwy sianel ddigidol, ac integreiddio ein gwasanaeth â systemau presennol er mwyn darparu siwrnai ddi-dor. Mae'r ymgysylltu a gawsom hyd yma wedi bod yn gadarnhaol yn hyn o beth a'n gobaith yw y byddwn yn parhau i gydweithio â'r sector cyfreithiol a llyfrwerthwyr cyfreithiol i ddatblygu system a fydd yn gweithio iddyn nhw.

233. Mae risg sylweddol, er hynny, wrth roi blaenoriaeth i anghenion cyfreithwyr, na fydd y sianel ddigidol yn cwrdd ag anghenion trydydd partïon eraill, fel elusennau, sy'n darparu gwasanaethau AA gwerthfawr ac a allai ei chael yn fwy anodd darparu'r gwasanaethau hyn. Byddai angen sicrhau ein bod yn rhoi'r un pwys i drydydd partïon eraill sy'n darparu cymorth, fel eu bod nhw hefyd yn cael mynediad priodol i'r gwasanaeth newydd.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

234. Bydd y sianel ddigidol newydd yn helpu cyfreithwyr i gynnig gwasanaeth i'w cleientiaid sy'n gyflymach a mwy effeithiol na gwasanaethau eraill sy'n defnyddio papur. Bydd SGC yn rhyddhau rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) a fydd yn creu cysylltiad diogel a dibynadwy rhwng meddalwedd y mae cyfreithwyr yn ei defnyddio i greu AA a systemau swyddfa gefn SGC. Byddai'r ddolen hon yn caniatáu i gyfreithwyr baratoi ffurflen AA ar sail y data sydd ganddynt am gleientiaid ac, ar ôl ei pharatoi a'i gweithredu'n briodol, cyflwyno, rheoli a thalu am geisiadau'n ddigidol

drwy eu meddalwedd llyfrwerthwyr cyfreithiol. Ni fyddai angen aildeipio data'r cais, nac argraffu neu allforio ffurflenni i'w postio â llaw i SGC.

235. Drwy gyflwyno ceisiadau drwy'r dull electronig integredig hwn (API), byddai SGC yn cael data glân a broseswyd y bydd yn gallu eu defnyddio i awtomeiddio cyfran fwy o'r gwiriadau swyddfa gefn. Y disgwyl yw y bydd hyn yn caniatáu gwirio am wallau yn ddi-oed ac yn byrhau'n sylweddol yr amseroedd prosesu sydd yn aml yn gysylltiedig â sganio a glanhau data a gyflwynir i SGC ar gyfer gwaith achosion. Byddai rhoddwyr yn elwa o gael dull cyflymach a rhwyddach o gofrestru, gan barhau i fwynhau'r manteision o wasanaeth gan gyfreithiwr.

**Dull 7b – Ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio rhan o'r gwasanaeth**

236. Os nad oeddem yn gallu cydweithio â chyfreithwyr i greu system hollol integredig, neu os nad oedd integreiddio'n ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau bod cyfreithwyr yn defnyddio'r sianel ddigidol a oedd ar gael, dull arall o weithredu fyddai deddfu i'w gwneud yn ofynnol bod cyfreithwyr yn defnyddio'r sianel ddigidol ar gyfer rhai agweddau ar y broses cofrestru. Yr un fwyaf amlwg fyddai gofyn am gyflwyno'r AA drwy ddull digidol yn unol â gofynion newydd y broses.

237. Byddai hyn yn caniatáu i gyfreithwyr gadw rhywfaint o reolaeth i benderfynu'r ffordd orau i wasanaethu eu cleientiaid ond byddai'n gosod cyfyngiadau penodol. Byddai hefyd yn gallu gosod beichiau ychwanegol arnynt neu arafu'r broses i'w cleientiaid os nad yw gwiriadau ar gael ar ddechrau'r broses. Er enghraifft, fel y nodwyd yng nghynnig 3, rydym yn bwriadu cyflwyno gwiriadau hunaniaeth i ddiogelu'r partïon, yn enwedig y rhoddwr. Os nad oedd y rhain wedi'u hintegreiddio'n llwyr â system SGC, mae'n debygol y byddem yn gorfod gofyn i gyfreithwyr wirio hunaniaeth pobl eu hunain a darparu datganiad i'r perwyl hwnnw i SGC, yn debyg i'r system y mae'r Gofrestrfa Tir yn ei defnyddio ar hyn o bryd gyda thrawsgludwyr. Mae'n debygol y byddai hyn yn golygu bod cyfreithwyr yn gorfod derbyn rhywfaint o atebolrwydd mewn perthynas â dilysu'r wybodaeth honno fel y gallai SGC fod yn sicr o hunaniaeth y rheini sy'n gwneud yr AA.

238. Yn ogystal â hyn, rydym yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod rhai cyfreithwyr yn gweithio mewn rhannau o'r wlad sydd heb gysylltiad band eang a systemau rheoli achosion dibynadwy, neu fod rhai sydd heb allu i ddefnyddio technoleg ddigidol. Byddai'n rhaid darparu mewn unrhyw ofyniad deddfwriaethol ar gyfer cyfreithwyr sydd heb fynediad at system ddigidol.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

239. Byddem yn newid deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol bod y dogfennau terfynol a ddarperir gan gyfreithwyr yn cael eu cyflwyno drwy ddull digidol yn y fformat gofynnol ac nid eu postio. Byddai API symlach ar gyfer cyflwyno AAau i'w cofrestru yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn. Byddai'n ofynnol i gyfreithwyr gynnal gwiriadau hunaniaeth ar

gyfer rhoddwyr ac atwrneiod. Wrth gyflwyno dogfennau drwy ddull digidol i SGC, byddent yn gwarantu hunaniaeth y partïon. Bydd y gofyniad bod cyfreithwyr yn cynnal gwiriad hunaniaeth, ac yn ardystio cywirdeb y wybodaeth a gyflwynir drwy ddull digidol yn sicrhau bod y rheini sy'n defnyddio gwasanaeth cyfreithiwr yn cael gwasanaeth sydd gystal â'r un a geir drwy fynd ato'n uniongyrchol ar wefan GOV.UK.

**Dull 7c – Ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio'r gwasanaeth cyfan**

240. Byddai'n ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio holl elfennau'r sianel ddigidol ar gyfer pob cais am gofrestru AA ar ôl dyddiad penodedig. Byddai hyn yn helpu SGC i ddod yn gynaliadwy ac yn cysoni'r dull o ddarparu'r gwasanaeth ond byddai'n cyfyngu'n fawr ar y ffordd y mae cyfreithwyr yn darparu gwasanaeth i'w cleientiaid.

241. Byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio i ddarparu y byddai cyfreithwyr, o ddyddiad penodedig ar ôl gweithredu gwasanaeth modern, yn gallu cyflwyno AAau i'w cofrestru gan SGC drwy'r sianel ddigidol yn unig a bod rhaid defnyddio system SGC i greu'r holl AAau. Byddai cyfnod rhwng gweithredu a chyflwyno'r system orfodol i sicrhau bod amser ar gael i gyfreithwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol yn eu prosesau a'u systemau i bontio i'r system newydd. Byddai hefyd yn caniatáu amser i ddatblygu a rhoi prawf ar y system i sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion cyfreithwyr cyn iddi ddod yn orfodol. Byddai hyn yn helpu hefyd i gysoni'r mesurau diogelu a ddarperir i ddefnyddwyr drwy sianel AA fodern drwy sicrhau, ni waeth pwy a oedd yn ymwneud â chreu'r AA, fod yr holl wiriadau, yn enwedig rhai i wirio hunaniaeth newydd, yn cael eu cynnal drwy'r un system gan SGC.

242. Y rhagdybiaeth yn y dull hwn o weithredu yw na fydd dymuniad yn barod gan gyfreithwyr i ddefnyddio'r sianeli digidol newydd, ac na fydd y gwasanaeth yn amharu ar y gwasanaethau eraill y mae cyfreithwyr yn eu darparu. Yn yr un modd â dull 2b, gellid tybio y byddai'n cyfyngu ar y gwasanaeth y gall cyfreithwyr ei ddarparu ac yn creu problemau lle mae'r ddarpariaeth band eang yn gyfyngedig neu lle nad oes gallu i ddefnyddio technoleg ddigidol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl na fydd y gwasanaeth a greir yn hollol addas i fodloni anghenion cyfreithwyr, ond y byddai'n ofynnol iddynt ei ddefnyddio er hynny. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y bydd llai o gyfreithwyr yn cynnig gwasanaethau AA ac felly y bydd yn fwy anodd i'r cyhoedd ddod o hyd i gynhorthwy cyfreithiol.

*Yn ymarferol, byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu gweithio fel a ganlyn:*

243. Pan fydd cyfreithwyr am helpu rhoddwr i gofrestru AA, rhaid iddynt wneud hynny drwy wasanaeth penodedig ar wefan GOV.UK. Byddai'r holl dasgau sydd eu hangen i gwblhau AA, o enwi'r gweithredwyr sy'n gysylltiedig hyd at weithredu'r AA, yn cael eu gwirio'n ddigidol i sicrhau bod y broses cofrestru yn gyflym a chywir.

244. **Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y dull a ffefrir gan y Llywodraeth yw 7a.** Er mwyn sicrhau'r lefel o ddefnydd sydd ei hangen i gyrraedd y

nodau ar gyfer moderneiddio, byddem yn ceisio cydweithio â'r sector cyfreithiol ar hyn o bryd i greu system sy'n cwrdd ag anghenion y cyhoedd ac anghenion cyfreithwyr, ac a fyddai ar gael yn ddi-dor drwy eu meddalwedd llyfrwerthwyr cyfreithiol bresennol. Byddem hefyd yn ymdrechu i ddarparu mynediad uniongyrchol i ffyrmiau cyfreithwyr llai, elusennau a sefydliadau eraill sy'n helpu i greu AAau.

245. Fodd bynnag, os oedd y dystiolaeth yn dangos na fyddai'r opsiwn hwn yn ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau'r lefel o ddefnydd o'r gwasanaeth sydd ei hangen, byddai angen ystyried bwrw ymlaen ag opsiynau 7b neu 7c.

**Cwestiynau**

11. Os oedd yn ofynnol i chi ddefnyddio gwasanaeth ar wefan GOV.UK i greu a chofrestru AAau eich cleientiaid, beth fyddai'r effaith ar y gwasanaeth rydych yn gallu ei gynnig i'ch cleientiaid? Darparwch dystiolaeth, yn cynnwys tystiolaeth am yr effeithiau o ran amser (diwrnodau/oriau) neu mewn termau ariannol os yw'n berthnasol.
    - Yn haws defnyddio gwasanaeth y llywodraeth na'r broses bresennol
    - Yn rhatach defnyddio gwasanaeth y llywodraeth na'r broses bresennol
    - Yn pryderu a fydd gwasanaeth y llywodraeth yn cwrdd ag anghenion cyfreithwyr/rhoddwyr
    - Yn cyflymu'r broses
    - Yn arafu'r broses
    - Oedi wrth ddod i arfer â gwasanaeth y llywodraeth (amcangyfrif: _____)
    - Llai o wallau
    - Defnyddio llai o bapur
    - Llai o ddibyniaeth ar wasanaethau post
    - Ddim yn gwybod
    - Effeithiau eraill (noder)

## Cwestiynau ychwanegol

246. Mae'r saith thema hyn yn cwmpasu'r meysydd lle bydd angen newid drwy ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol i hwyluso camau i greu gwasanaeth modern. Byddant yn darparu ar gyfer sianel ddigidol i greu a chofrestru AAau gan gryfhau mesurau diogelu a gwella mynediad, a helpu SGC i ddod yn gynaliadwy.

247. Ar yr un pryd, rydym wedi nodi drwy'r ddogfen hon y bydd rhai bob amser na fyddant yn gallu defnyddio sianeli digidol, neu a fydd yn dewis peidio. Bydd rhai'n cael cymorth gan ffrindiau, aelodau o'r teulu, gweithwyr proffesiynol neu sefydliadau eraill a byddant yn defnyddio sianeli digidol beth bynnag. Ond rydym yn ymwybodol y bydd yn rhaid i ni ddarparu sianeli mynediad analog hefyd, yn cynnwys rhai ar bapur, i sicrhau na fydd y newidiadau hyn yn cael effaith negyddol ar bobl.

248. Rydym yn cydnabod nad yw'r ymgynghoriad yn ymdrin â phob newid posibl mewn sianeli digidol neu rai papur. Ni fydd angen newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer rhai newidiadau, er enghraifft, diweddaru canllawiau ar ddewis atwrneiod neu ddyletswyddau atwrneiod, neu sianeli newydd i godi gwrthwynebiadau'n uniongyrchol gyda SGC. Mae rhai y tu allan i'r cwmpas, fel AA y gellir eu diwygio. Felly, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd ar newidiadau a materion eraill lle nad oes angen newid deddfwriaeth sylfaenol wrth barhau i ddatblygu gwasanaeth modern.

**Cwestiynau**

12. A oes unrhyw gostau eraill (o ran oriau/diwrnodau neu mewn termau ariannol) y gallwch eu rhag-weld o ganlyniad i foderneiddio AAau, i chi'ch hun neu i bobl eraill sy'n gysylltiedig? Rhowch dystiolaeth dros eich ateb.

13. A oes unrhyw fuddion eraill (rhai ariannol neu eraill) y gallwch eu rhag-weld o ganlyniad i foderneiddio AAau? Rhowch dystiolaeth dros eich ateb.

14. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am foderneiddio atwrneiaethau arhosol?

## Cydraddoldeb

249. Mae’r Datganiad am Gydraddoldebau sydd gyda’r ddogfen ymgynghori hon yn ystyried effeithiau’r cynigion ochr yn ochr â’r angen am:
   a. dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi’i wahardd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
   b. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
   c. meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

250. O dan Ddeddf Cydraddoldeb, y nodweddion gwarchodedig yw hil, rhyw, oed, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil.

251. Rydym yn ceisio casglu rhagor o dystiolaeth drwy gyfrwng yr ymgynghoriad am yr effeithiau o’n cynigion ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Felly, gofynnwn i’r holl ymatebwyr ystyried y cwestiynau canlynol a darparu tystiolaeth ar eu cyfer, os yw ar gael:

**Cwestiynau**

15. A ydym wedi nodi’n gywir y nodweddion gwarchodedig y byddai’r diwygiadau arfaethedig sydd yn y papur ymgynghori hwn yn gallu effeithio arnynt? Rhowch resymau dros eich ateb

16. Beth yn eich barn chi yw’r effeithiau o ran cydraddoldebau o’r opsiynau arfaethedig ar gyfer diwygio ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig?

# Holiadur

Byddem yn falch o gael ymatebion i’r cwestiynau canlynol sydd wedi’u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

## Rôl tystio

**Cwestiwn 1:** Beth yw’ch barn chi am y cynigion sydd wedi’u hamlinellu? Rhowch resymau dros eich ymatebion.

Dileu tystio (dull 1a)

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

Tystio o bell (dull 1b)

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

Mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio (dull 1c)

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

## Rôl ceisio

**Cwestiwn 2:** A fyddech chi, neu’r bobl rydych yn eu cynorthwyo, yn oedi cyn cofrestru AA? Rhowch y rhesymau dros eich atebion.

Na fyddwn

- Ddim yn gweld mantais mewn oedi cyn cofrestru.
- Wedi cael fy nghynghori i beidio ag oedi cyn cofrestru.
- Angen cael AA cyn gynted â phosibl o ganlyniad i ddiagnosis gan feddyg
- Angen cael AA cyn gynted â phosibl am fod angen gwneud penderfyniad ariannol penodol
- Rheswm arall (noder)

Byddwn

- Ddim am dalu'r ffi eto
- Yn methu â thalu'r ffi ar unwaith
- Ddim am drosglwyddo pŵer i'r atwrnai ar unwaith
- Efallai y byddaf am newid yr AA
- Wedi creu AA ar ôl cael diagnosis gan feddyg ac rwyf yn aros yn nes at yr amser
- Rheswm arall (noder)
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 3:** Beth fyddai'r effaith o ddileu'r gallu i oedi cyn cofrestru? Rhowch resymau dros eich ateb.

- Cadarnhaol
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

## Cylch gwaith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

**Cwestiwn 4:** Pa weithredwyr yn yr AA y dylid gwirio eu hunaniaeth? Rhowch resymau dros eich atebion.

- Rhoddwr
- Atwrnai
- Darparwr Tystysgrif
- Ddim yn gwybod
- Arall (rhowch fanylion)

**Cwestiwn 5:** Beth yw'ch barn chi am y cynigion sydd wedi'u hamlinellu? Rhowch resymau dros eich ymatebion.

Gwiriadau amodol (dull 3a)

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

Gwiriadau disgresiynol (dull 3b)

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

## Sut mae gwrthwynebu

**Cwestiwn 6:** Beth yw’ch barn chi am y cynigion sydd wedi’u hamlinellu? Rhowch resymau dros eich ymatebion.

SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau (dull 4a)

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

SGC yn cael gwrthwynebiadau ffeithiol yn unig (dull 4b)

- Cadarnhaol
- Cadarnhaol gan mwyaf
- Niwtral
- Negyddol gan mwyaf
- Negyddol
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 7:** A ddylai SGC gyfeirio achosion yn uniongyrchol i’r Llys Gwarchod? Rhowch resymau dros eich ateb.

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

## Pa bryd i wrthwynebu

**Cwestiwn 8:** Pa agweddau ar y cynigion ar gyfer pa bryd i wrthwynebu sydd orau gennych chi? Rhowch resymau dros eich atebion.

Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu (dull 5a)

- Proses gyflymach

- Mwy o sicrwydd
- Canfod a datrys gwrthwynebiadau'n gynharach
- Yn haws codi pryderon
- Yn atal cofrestru AAau annilys
- Ddim yn gwybod
- Arall (rhowch fanylion)

Byrhau'r cyfnod aros statudol (dull 5b)

- Proses gyflymach
- Yn cadw cyfnod aros o ryw hyd fel mesur diogelu
- Cyfnod hirach i benderfynu a godir gwrthwynebiad
- Yn atal cofrestru AAau annilys
- Ddim yn gwybod
- Arall (rhowch fanylion)

Dileu'r cyfnod aros statudol (dull 5c)

- Proses gyflymach
- Proses symlach
- Gellir cofrestru ar unwaith
- Gall mwy o dystiolaeth o gamddefnydd fod ar gael
- Ddim yn gwybod
- Arall (rhowch fanylion)

## Cyflymder y gwasanaeth

**Cwestiwn 9:** Os oeddem yn gallu lleihau'r amser ar gyfer cofrestru AA i ddwy wythnos ar gyfer y rhan fwyaf o roddwyr (heb wrthwynebiadau), a fyddai gwasanaeth brys yn darparu budd ychwanegol i chi neu i'r bobl rydych yn eu cynorthwyo? Rhowch resymau dros eich ateb.

- Byddai, mae angen i mi gael cofrestru AA o fewn dwy wythnos
- Na fyddai, ni fyddai mantais o'i gymharu â gwasanaeth dwy wythnos i bawb
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 10:** Os ydych yn weithiwr proffesiynol ac y byddai gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer defnyddio gwasanaeth brys, pa effaith y byddai hyn yn ei chael arnoch chi? Darparwch dystiolaeth, yn cynnwys tystiolaeth am yr effeithiau o ran amser (diwrnodau/oriau) neu mewn termau ariannol os yw'n berthnasol.

- Dim effaith
- Cynnydd mewn adnoddau (amcangyfrif: _____)
- Cynnydd mewn costau (amcangyfrif: _____)
- Yr amser a gymerai i ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd (amcangyfrif: _____)
- Ddim yn gwybod

- Arall (rhowch fanylion)

## Mynediad i'r gwasanaeth gan gyfreithwyr

**Cwestiwn 11:** Os oedd yn ofynnol i chi ddefnyddio gwasanaeth ar wefan GOV.UK i greu a chofrestru AAau eich cleientiaid, beth fyddai'r effaith ar y gwasanaeth rydych yn gallu ei gynnig i'ch cleientiaid? Darparwch dystiolaeth, yn cynnwys tystiolaeth am yr effeithiau o ran amser (diwrnodau/oriau) neu mewn termau ariannol os yw'n berthnasol.

- Yn haws defnyddio gwasanaeth y llywodraeth na'r broses bresennol
- Yn rhatach defnyddio gwasanaeth y llywodraeth na'r broses bresennol
- Yn pryderu a fydd gwasanaeth y llywodraeth yn cwrdd ag anghenion cyfreithwyr/rhoddwyr
- Yn cyflymu'r broses
- Yn arafu'r broses
- Oedi wrth ddod i arfer â gwasanaeth y llywodraeth (amcangyfrif: _____)
- Llai o wallau
- Defnyddio llai o bapur
- Llai o ddibyniaeth ar wasanaethau post
- Ddim yn gwybod
- Effeithiau eraill (noder)

## Cwestiynau ychwanegol

**Cwestiwn 12:** A oes unrhyw gostau eraill (o ran oriau/diwrnodau neu mewn termau ariannol) y gallwch eu rhag-weld o ganlyniad i foderneiddio AAau, i chi'ch hun neu i bobl eraill sy'n gysylltiedig? Rhowch dystiolaeth dros eich ateb.

**Cwestiwn 13:** A oes unrhyw fuddion eraill (rhai ariannol neu eraill) y gallwch eu rhag-weld o ganlyniad i foderneiddio AAau? Rhowch dystiolaeth dros eich ateb.

**Cwestiwn 14:** A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am foderneiddio atwrneiaethau arhosol?

## Cwestiynau am gydraddoldebau

**Cwestiwn 15:** A ydym wedi nodi'n gywir y nodweddion gwarchodedig y byddai'r diwygiadau arfaethedig sydd yn y papur ymgynghori hwn yn gallu effeithio arnynt? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 16:** Beth yn eich barn chi yw'r effeithiau o ran cydraddoldebau o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer diwygio ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig?

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 13 Hydref 2021 at:

**Vulnerability Policy Unit**
Family and Criminal Justice Policy Directorate
Ministry of Justice
Post point 7.25
7th Floor
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost:** mlpaconsultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatiau eraill gan mlpaconsultation@justice.gov.uk

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Ionawr 2022. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, ynghyd â'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei wneud yn hysbys i'r cyhoedd pan fydd yr Adran yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r rheolweithiau ar gyfer yr hawl i weld gwybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Mae Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig er mwyn sicrhau tryloywder fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgyngoriadau Llywodraeth a beth yw eu barn. Yn ogystal â hyn, gall yr Adran ddewis peidio â thynnu'ch enw/manylion o'ch ymateb yn ddiweddarach, er enghraifft, os ydych yn newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os bydd yr Adran o'r farn ei bod er budd y cyhoedd o hyd i'r manylion hynny fod ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych chi am i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddienw (er enghraifft fel 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd'). Fel arall, efallai byddwch chi'n dewis peidio ag ymateb o gwbl.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Siarter Gwybodaeth Bersonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A: Datganiad am Gydraddoldebau

## Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd AAau yn gyntaf i gadw rhyddid mynediad ar gyfer pawb a oedd am gael AA gan greu mesurau diogelu rhag camddefnydd a oedd yn gryfach na'r rheini o dan yr hen system o atwrneiaethau parhaus. Ein nod wrth foderneiddio'r AA yw creu gwasanaeth AA ar gyfer y byd digidol sy'n cadw'r cydbwysedd rhwng y gallu i gael AA a darparu amddiffyniad cryfach i unigolion rhag defnyddio'r system mewn ffordd dwyllodrus neu gamdriniol. Oherwydd hyn, mae'n hollbwysig ystyried yr effeithiau ar gydraddoldebau o'r newidiadau rydym yn ceisio eu gwneud er mwyn sicrhau bod unrhyw wasanaeth modern a sefydlir yn un hygyrch.

## Crynodeb o'r cynigion polisi

2. Mae saith maes yn y broses ar gyfer creu a chofrestru AA rydym yn ystyried eu newid wrth foderneiddio'r AA. Gellid newid pob un o'r meysydd hyn mewn gwahanol ffyrdd i gyflawni'r nodau a bennwyd sef creu profiad mwy di-dor i'r defnyddiwr, cryfhau mesurau diogelu a sicrhau sefydlogrwydd ariannol SGC.

- **Cynnig 1: Rôl tystio:** Ystyried gwerth y tyst, a sut i gadw'r gwerth hwn mewn gwasanaeth modern.
    - **Dull 1a – Dileu tystio:** Dileu'r gofyniad am dystio ar gyfer llofnodi AA gan y rhoddwr neu atwrnai.
    - **Dull 1b – Tystio o bell:** Defnyddio technoleg i dystio i lofnodi'r AA gan y rhoddwr a'r atwrneiod heb fod yn bresennol yn y fan a'r lle.
    - **Dull 1c – Mabwysiadu swyddogaeth debyg yn lle tystio:** Darparu tystiolaeth wrthrychol bod y rhoddwr wedi llofnodi'r AA yn lle tystio.
- **Cynnig 2: Rôl ceisio:** Deall sut i drefnu ar gyfer gweithredu a chofrestru AA gan ei wneud yn llai tebygol i AA gael ei gwrthod.
    - **Dull 2a – Gweithredu'r AA yn cychwyn ei chofrestru:** Ei gwneud yn ofynnol bod AA yn cael ei hanfon i'w chofrestru cyn gynted ag y bydd wedi'i gweithredu.
    - **Dull 2b – Gweithredu'n caniatáu oedi cyn cofrestru:** Caniatáu oedi cyn cofrestru gyda SGC ar ôl gweithredu AA.

- **Cynnig 3: Cylch gwaith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus:** Ystyried y pwerau sydd gan SGC i wirio AAau, yn cynnwys gwirio hunaniaeth, a'r camau y gall eu cymryd i atal neu ohirio cofrestru.
    - **Dull 3a – Cofrestru amodol:** Caniatáu i SGC ohirio cofrestru AA nes bydd gwiriadau rhagnodedig penodol wedi'u bodloni a gwrthod AAau sy'n methu â chwrdd â'r gofynion.
    - **Dull 3b – Cofrestru disgresiynol:** Ni fyddai AA yn cael ei chofrestru oni bai ei bod yn cyrraedd trothwy sicrwydd ynghylch lefel y risg sy'n gysylltiedig â hi. Gallai SGC arfer disgresiwn o ran y dystiolaeth roedd yn ei derbyn i ddeall y risg.
- **Cynnig 4: Sut i wrthwynebu:** Rydym yn edrych ar ffyrdd i symleiddio'r gwahanol brosesau ar gyfer gwrthwynebu cofrestru AA a'u gwneud yn gliriach.
    - **Dull 4a – SGC yn cael yr holl wrthwynebiadau:** Caniatáu i unrhyw un godi gwrthwynebiad. Byddai'r holl wrthwynebiadau'n cael eu hanfon i SGC a fyddai'n eu hadolygu ac yn ymchwilio iddynt.
    - **Dull 4b – SGC yn cael gwrthwynebiadau ffeithiol yn unig:** Gallai unrhyw un godi gwrthwynebiad. Byddai angen ei gyfeirio'n uniongyrchol i SGC neu'r Llys Gwarchod, yn ôl natur y gwrthwynebiad.
- **Cynnig 5: Pa bryd i wrthwynebu:** Ystyried pa bryd y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau.
    - **Dull 5a – Gwrthwynebu yn ystod y cyfnod creu:** Caniatáu gwrthwynebiadau o bwynt cychwyn yr AA nes caiff ei hanfon i'w chofrestru.
    - **Dull 5b – Byrhau'r cyfnod aros statudol:** Byrhau'r cyfnod ar gyfer cymryd gwrthwynebiadau ar ôl anfon AA i'w chofrestru.
    - **Dull 5c – Dileu'r cyfnod aros statudol:** Dileu'r cyfnod gwrthwynebu ond darparu mecanwaith i'r rhoddwr dynnu'n ôl ei AA.
- **Cynnig 6: Cyflymder y gwasanaeth:** Rydym yn ystyried a oes angen darparu gwasanaeth brys ar gyfer rhoddwyr a all fod ar fin colli galluedd.
    - **Dull 6 – Gwasanaeth AA brys:** Darparu gwasanaeth cofrestru brys i'r rheini sydd ag angen brys i greu a chofrestru AA.
- **Cynnig 7: Mynediad i'r gwasanaeth AA gan gyfreithwyr:** Rydym yn asesu ffyrdd i helpu cyfreithwyr i ddefnyddio gwasanaeth modern newydd.
    - **Dull 7a – Integreiddio'n unig:** Byddai cyfreithwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth newydd drwy system sydd wedi'i hintegreiddio â'u systemau rheoli dogfennau presennol.
    - **Dull 7b – Ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio rhan o'r gwasanaeth:** Byddai'n ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio'r sianel ddigidol ar gyfer rhai agweddau ar gofrestru.
    - **Dull 7c – Ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio'r gwasanaeth cyfan:** Byddai'n ofynnol i gyfreithwyr ddefnyddio'r sianel ddigidol ar gyfer yr holl AAau ar ôl dyddiad penodedig.

## Nodau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

3. Mae'r datganiad cydraddoldebau canlynol yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer moderneiddio AAau sydd wedi'u hamlinellu uchod a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Asesiad Effaith perthnasol.

4. Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'ystyriaeth ddyladwy' i'r angen i:
   - Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
   - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt); a
   - Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu);

5. Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb, rydym wedi rhoi ystyriaeth yn gynnar i'r naw nodwedd warchodedig:
   - hil
   - rhywedd
   - oedran
   - anabledd
   - cyfeiriadedd rhywiol
   - crefydd neu gred
   - beichiogrwydd a mamolaeth
   - ailbennu rhywedd
   - y briodas/bartneriaeth sifil

6. O dan ein rhwymedigaethau statudol, bydd effaith y cynigion terfynol ar y naw nodwedd warchodedig yn cael ei hystyried lle mae data ar gael. Yn yr ymgynghoriad, rydym yn gofyn y cwestiynau canlynol am faterion cydraddoldeb:
   - Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau.
   - Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir y gwahanol effeithiau o dan bob un o'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau.

   Rydym yn annog ymatebwyr i'r ymgynghoriad i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a chyfeirio at unrhyw ddata a thystiolaeth ychwanegol sydd ar gael. Bydd y dystiolaeth am gydraddoldebau a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael ei hystyried wedyn wrth ddiweddaru ein hystyriaethau am gydraddoldeb.

## Tystiolaeth a dadansoddiad

7. Mae'r tîm sy'n gweithio ar foderneiddio AAau yn dîm traws-swyddogaethol sy'n gweithio ar draws gweithrediadau polisi, dylunio gwasanaethau a rheng flaen. O ganlyniad i hyn, mae gennym fynediad at amrywiaeth fawr o ffynonellau gwybodaeth, data ac ymchwil, rhai ohonynt nad ydynt ar gael bob amser wrth ddatblygu polisi fel ymchwil ymhlith defnyddwyr ac arbenigeddau cymdeithaseg digidol. Mae hyn yn ategu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio eisoes wrth ddatblygu polisi, yn cynnwys ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau cynrychiadol.

8. Drwy gydol y gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer moderneiddio atwrneiaethau arhosol, ac yn ein gwahanol ddisgyblaethau ymchwil, rydym wedi ceisio ystyried yr effeithiau cyfansawdd o ddarparu gwasanaeth digidol ac o ofynion gwirio hunaniaeth wrth wneud AA. Rydym yn ymwybodol bod risg, wrth wneud newidiadau sy'n ymwneud â phob un o'r meysydd hyn, y gallwn ddwysáu rhai o'r effeithiau y gall gwahanol grwpiau eu profi.

**Cyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth**

9. Dim ond ychydig bach o wybodaeth am nodweddion demograffig y rhoddwyr a'r atwrneiod a gesglir drwy'r broses ar gyfer ceisio atwrneiaeth arhosol. Yr unig wybodaeth a gesglir ar hyn o bryd yw:
   - Oed y rhoddwr a'i atwrneiod, ar sail eu dyddiadau geni
   - Rhyw y rhoddwr a'i atwrneiod. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i seilio ar y teitlau a roddir iddynt – er enghraifft, Mrs neu Mr, ond mae'n amwys mewn rhai achosion – er enghraifft, Doctor. Mae nifer yr achosion lle mae teitlau'n amwys neu ar goll yn gymharol fach (3-4% gan amlaf) ac mae'n fwyaf tebygol eu bod wedi'u rhannu ar hap ar draws rhyw fel bod hyn yn annhebygol o effeithio ar amcangyfrifon o'r defnydd o AAau ar draws y nodweddion hyn.

10. Ni chesglir gwybodaeth ar hyn o bryd am:
   - hil / ethnigrwydd
   - anabledd
   - cyfeiriadedd rhywiol
   - crefydd / cred
   - beichiogrwydd / mamolaeth
   - ailbennu rhywedd
   - priodas / partneriaeth sifil

11. Yn ogystal â hyn, oherwydd natur y pandemig COVID-19 a gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gorfod gwneud newidiadau sylweddol yn ein ffordd o ddatblygu polisi er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ymgysylltu'n ddiogel â'r cyhoedd a gwasanaethau rheng flaen. Ym mhob rhan o'r ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi cyfeirio at ymchwil a gynhaliwyd gan y tîm

ymchwil defnyddwyr digidol ac at ein hymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy ddefnyddio technoleg cyfathrebu o bell, yn cynnwys arolygon ar-lein, cynadledda fideo ac offer cydweithio ar-lein fel Miro, fel y gellir parhau i gynnal gweithdai, ymchwil ac ymgysylltu gan sicrhau bod pawb yn aros yn ddiogel.

12. Er ein bod wedi ceisio cynnwys yr unigolion a grwpiau hynny sy'n gallu darparu tystiolaeth benodol am ffyrdd i sicrhau y bydd AA fodern yn gweithio i'r rheini nad ydynt yn gallu neu'n dymuno defnyddio dulliau digidol, rydym hefyd yn ymwybodol bod yr angen i ni ddefnyddio offer digidol i wneud hyn wedi arwain o bosibl at duedd gynhenid benodol yn ein sylfaen dystiolaeth bresennol. Felly, rydym yn ymddiddori'n arbennig mewn tystiolaeth sy'n ymwneud â'r rheini a all fod ag angen gwasanaethau analog, fel dulliau o wirio dogfennau â llaw, boed hynny am nad ydynt yn gallu cael at sianeli digidol neu am eu bod yn dewis peidio â'u defnyddio.

13. Yn yr un modd, am fod ein gallu i gyrraedd y cyhoedd ehangach yn gyfyngedig o dan y mesurau COVID-19, mae'r rhan fwyaf o'n hymchwil wedi'i chynnal ymhlith pobl sydd eisoes wedi gwneud AAau, neu sy'n gyfarwydd â nhw. Mae hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i ddeall anghenion grwpiau a all fod ag angen AA yn y dyfodol ond nad ydynt yn cymryd rhan yn y broses ar hyn o bryd e.e. pobl mewn grwpiau oedran iau neu'r rheini mewn lleiafrifoedd ethnig.

14. Oherwydd y cyfyngiadau hyn, ni allwn ddweud yn sicr ar hyn o bryd beth fydd yr effeithiau tebygol o'r cynigion ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Dyma un o'r rhesymau dros ddechrau'n gynnar ar ymgynghori yn ein proses datblygu fel y gallwn gasglu cymaint â phosibl o dystiolaeth am y materion hyn, wrth i ni ddatblygu dull o weithredu.

15. Er nad oes gennym y dystiolaeth sydd ei hangen i bennu'r effeithiau penodol, mae gennym dystiolaeth sy'n peri i ni gredu y bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i anghenion rhai pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol er mwyn sicrhau gwasanaeth sy'n hygyrch i bawb yn y dyfodol. Sef:

**Oed:** Mae data am lwyth achosion SGC ar gyfer 2019/20 yn dangos mai oed cyfartalog rhoddwyr AAau yw tua 74.5 blwydd oed a bod mwyafrif y rhoddwyr dros 65 oed.

**Rhyw:** Mae data SGC ar gyfer 2018 a 2019 yn amcangyfrif bod tua 58% o roddwyr AAau yn fenywod.

**Hil:** Mae dadansoddiad mewnol o ddata SGC yn dangos bod y rheini sydd â chefndir lleiafrifol ethnig yn llai tebygol o wneud a chofrestru AAau na'r rheini o gefndir pobl wyn.

**Anabledd:** Er nad yw SGC yn casglu data am anabledd, fel nad ydym yn gwybod nifer y rhoddwyr neu atwrneiod sydd â'r nodwedd hon, yr AA yw un o'r offer sydd ar

gael i'r rheini sydd ag anabledd, neu a allai ddatblygu anabledd, er mwyn diogelu a hwyluso eu hawliau a'u rhyddidau. Yn ogystal â hyn, mae dyletswydd ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder a SGC i ystyried a gwneud addasiadau rhesymol o fewn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Am y rhesymau hyn, rhaid ystyried y maes hwn hefyd.

16. Wrth ddatblygu AA fodern, bydd yn bwysig ystyried yr effeithiau penodol ar unigolion sydd â'r nodweddion hyn er mwyn sicrhau na fydd newidiadau'n arafu neu'n rhwystro eu gallu i gael AA yn y dyfodol. Y rheswm am hyn yw eu bod un ai'n gyfran sylweddol o'r grŵp o bobl sydd eisoes yn gwneud AAau neu, i'r gwrthwyneb, bod y gyfran ohonynt yn llai o lawer ar gyfartaledd a'u bod yn destun ymgyrchoedd gan y Llywodraeth i hybu'r defnydd o AAau. Mae hyn oll yn gyson â'r bwriad y mae'r Llywodraeth wedi'i ddatgan mewn polisi i AAau fod yn gyraeddadwy, hygyrch a fforddiadwy i bawb.

## Cwestiynau

17. Rydym yn ceisio casglu rhagor o wybodaeth am y materion hyn drwy'r ymgynghoriad ac felly rydym yn gofyn i'r holl ymatebwyr ystyried y cwestiynau isod a darparu tystiolaeth arnynt, os yw ar gael:

**Cwestiwn 15:** A ydym wedi nodi'n gywir y nodweddion gwarchodedig y byddai'r diwygiadau arfaethedig sydd yn y papur ymgynghori hwn yn gallu effeithio arnynt? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 16:** Beth yn eich barn chi yw'r effeithiau o ran cydraddoldebau o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer diwygio ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig?

# Atodiad B: Rhestr o Dermau

Dyma rai termau y byddwch yn eu gweld wrth ddarllen yr ymgynghoriad.

**Ceisydd**

Y ceisydd yw'r person sy'n gwneud cais i gofrestru'r AA – gall fod yn rhoddwr neu'n un neu ragor o'r atwrneiod.

Gweler hefyd: 'Cofrestru'

**Atwrneiod**

Atwrneiod yw pobl y mae'r rhoddwr yn ymddiried ynddynt ac yn eu dewis i'w helpu i wneud penderfyniadau. Nid oes angen i atwrneiod fod yn gyfreithwyr. Bydd llawer o bobl yn dewis eu gwraig, gŵr, partner sifil, partner, plant, ffrindiau agos neu berthnasau.

**Darparwr Tystysgrif**

Mae'r darparwr tystysgrif yn berson diduedd sy'n cadarnhau bod y rhoddwr yn deall yr AA ac nad yw'n cael ei orfodi neu ei roi dan bwysau i'w gwneud. Rhaid cael darparwr tystysgrif ar gyfer AA.

**Gweithred**

Mae AA yn weithred, sef math o ddogfen gyfreithiol. Er mwyn i weithred fod yn ddilys, rhaid iddi gael ei gweithredu. Mae hyn yn golygu bod rhaid

- ei llofnodi
- tystio i'w llofnodion
- ei hardystio
- ei thraddodi

Gweler hefyd: 'Atwrneiaeth arhosol a 'Tystio'.

**Rhoddwr**

Y rhoddwr yw'r person sy'n gwneud yr AA ac yn dewis ei atwrneiod. Ni chaiff neb ond y rhoddwr wneud penderfyniadau am ei AA. Rhaid i'r rhoddwr fod yn 18 mlwydd oed o leiaf a bod â galluedd meddyliol wrth wneud ei AA.

Gweler hefyd: Atwrneiod

**Gweithredu**

Gweler 'Gweithred'

### Amherffaith

Mae AA yn amherffaith os yw'n cynnwys gwallau y gellir eu cywiro heb wneud a gweithredu AA newydd.

Bydd SGC yn ysgrifennu at y person a wnaeth yr AA, ac yn gofyn iddo wneud cywiriadau. Ar ôl gwneud y rhain, gall SGC gofrestru'r AA.

Gweler hefyd: 'Annilys'

### Cyfarwyddiadau

Gall y rhoddwr wneud cyfarwyddiadau yn ei AA. Bydd y rhain yn rhoi gwybod i'r atwrneiod am bethau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud neu beidio â'u gwneud wrth wneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y rhoddwr.  Gweler hefyd: 'Dymuniadau'.

### Annilys

Bydd AA yn annilys os yw'n cynnwys gwallau na ellir eu cywiro heb wneud a gweithredu AA newydd.

Ni all SGC gofrestru AA annilys.  Bydd angen i'r rhoddwr wneud a gweithredu AA newydd, ac wedyn talu ffi arall am wneud cais.

Gweler hefyd: 'Gweithred' ac 'Amherffaith'.

### Atwrneiaeth arhosol

Mae AA yn ddogfen gyfreithiol. Mae'n caniatáu i'r rhoddwr ddewis pobl y mae'n ymddiried ynddynt a fydd yn gallu ei helpu i wneud penderfyniadau.  Mae dau fath o AA:

- iechyd a lles personol
- arian ac eiddo

Rhaid i AA gael ei chofrestru gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC) cyn y gellir ei defnyddio.

### Galluedd meddyliol

Galluedd meddyliol yw'r gallu i wneud penderfyniad penodol ar amser penodol.

- Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud penderfyniad sy'n effeithio ar fywyd pob dydd – fel pa bryd i godi, beth i'w wisgo ac a ddylai rhywun fynd at y meddyg os yw'n teimlo'n sâl – yn ogystal â phenderfyniadau mwy pwysig neu ddifrifol.
- Mae hefyd yn cyfeirio at y gallu sydd gan berson i wneud penderfyniad a all ddod â chanlyniadau cyfreithiol – i'r person hwnnw ac eraill.  Rhai enghreifftiau yw cytuno i gael triniaeth feddygol, prynu nwyddau neu wneud ewyllys.

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, bydd person heb alluedd meddyliol:

1. os nad yw'n gallu gwneud penderfyniad penodol hyd yn oed o gael cymorth perthnasol;
2. os oes nam neu gynnwrf sy'n effeithio ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd; a
3. nad yw'r person yn gallu gwneud y penderfyniad oherwydd y nam neu gynnwrf.

Weithiau bydd galluedd gan bobl i wneud rhai mathau o benderfyniadau ond nid rhai eraill.

Yn yr un modd, gall rhai pobl fod â galluedd i wneud penderfyniad penodol ar un amser, ond nid ar amseroedd eraill.

### Gwrthwynebu

Mae rhoddwr, atwrnai neu berson i'w hysbysu yn gallu gwrthwynebu cofrestru AA.  Mae rhesymau penodol dros wrthwynebu.

- Gwrthwynebiadau rhagnodedig: nad oedd yr AA erioed wedi'i gweithredu'n gyfreithiol yn y lle cyntaf, er enghraifft, am nad oedd galluedd gan y rhoddwr i'w chreu neu am fod pwysau amhriodol wedi'i roi arno.
- Gwrthwynebiadau ffeithiol: er bod yr AA wedi'i gweithredu'n gyfreithiol, mae wedi peidio â rhoi pŵer, er enghraifft, am fod y rhoddwr wedi marw neu am fod atwrnai'n fethdalwr.

Dim ond yn ystod y cyfnod aros statudol y gellir gwrthwynebu.

Gweler hefyd: 'Cyfnod aros statudol'

### Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (SGC)

SGC yw'r asiantaeth yng Nghymru a Lloegr sy'n cofrestru AAau ac yn ymchwilio os yw'n bosibl bod atwrnai wedi camddefnyddio AA.  Gweler hefyd: 'Cofrestru'

### Pobl i'w hysbysu

Pobl i'w hysbysu yw unigolion y mae'r rhoddwr yn eu dewis sy'n gorfod cael eu hysbysu am y cais i gofrestru'r AA.

### Dymuniadau.

Gall y rhoddwr wneud dymuniadau yn ei AA Dymuniadau yw pethau y byddai'r rhoddwr yn hoffi i'w atwrneiod feddwl amdanynt wrth wneud penderfyniadau ar ei ran. Dylai atwrneiod gymryd y dymuniadau i ystyriaeth ond nid oes rhaid iddynt eu dilyn.

Gweler hefyd: 'Cyfarwyddiadau'

### Cofrestru

Rhaid i AA gael ei gwirio a'i chofrestru gan SGC cyn y gellir ei defnyddio.

### Cyfnod aros statudol

Cyfnod o bedair wythnos yw hwn sydd wedi'i bennu mewn deddfwriaeth ac sy'n rhan o'r broses cofrestru.  Dim ond yn ystod y cyfnod hwn y gellir gwrthwynebu cofrestru AA.

Gweler hefyd: 'Gwrthwynebu'

**Tyst**

Tystion yw pobl sy’n gwylio’r rhoddwr a’r atwrneiod yn llofnodi’r AA.  Byddant hefyd yn ardystio’r AA drwy lofnodi i ddweud eu bod wedi tystio i’r llofnodi.

Gweler hefyd: ‘Gweithred’ a ‘Gweithredu’

CCS0221966740
978-1-5286-2801-3